# *Gwahaniaeth er Gwell* - Adolygiad o Berfformiad Blynyddol 2010/11







City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Rhagair** | **Tudalen 4** |
| **2** | **Pennod 1 - Blaenoriaethau Gwella ar gyfer 2010/11** | **Tudalennau 5 i 34** |
| **3** | ▪ **Amcan Gwella 1: Plant a Phobl Ifanc** | **Tudalen 7** |
| **4** | ▪ **Amcan Gwella 2: Yr Amgylchedd a'r Gymuned** | **Tudalen 15** |
| **5** | ▪ **Amcan Gwella 3: Yr Economi** | **Tudalen 24** |
| **6** | ▪ **Amcan Gwella 4: Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles** | **Tudalen 30** |
| **7** | **Pennod 2 - Gweithgaredd Gwella 2010/11** | **Tudalen 35** |
| **8** | **Pennod 3 - Gweithio gydag Eraill yn ystod 2010/11** | **Tudalen 53** |

| | | |
|---|---|---|
| **9** | **Pennod 4 - Prosesau i gyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol i Wella: Gwybodaeth am berfformiad a'r defnydd ohoni** | **Tudalen 58** |
| **10** | **Pennod 5 - Adolygiadau'r Bwrdd Trosolwg a Chraffu** | **Tudalen 64** |
| **11** | **Pennod 6 - Ymateb y cyngor i Argymhelliad Statudol Swyddfa Archwilio Cymru** | **Tudalen 70** |
| **12** | **Atodiad A - Y Ddyletswydd Gyffredinol i Wella** | **Tudalen 73** |
| **13** | **Atodiad B - Amcan Gwella a Dangosyddion Perfformiad Strategol 2011/11** | **Tudalen 79** |
| **14** | **Atodiad C - Ble i gael mwy o wybodaeth** | **Tudalen 101** |

# <u>Rhagair</u>


Mae'n bleser gennym gyflwyno *Gwahaniaeth er Gwell*, Adolygiad Perfformiad Blynyddol Abertawe 2010-11. Mae'r adolygiad hwn yn disgrifio'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

Mae llunio'r adolygiad hwn yn nodi newid i drefniadau blaenorol, lle'r oedd gofyn i ni gyhoeddi Cynllun Corfforaethol a Gwella blynyddol. O dan y fframwaith adrodd newydd, mae dyletswydd arnom gynhyrchu dau gynllun y flwyddyn. Cyhoeddwyd y cyntaf o'r dogfennau hyn, Cynllun Gwella blaengar ar gyfer 2010-2011, ym mis Gorffennaf 2010. Dyma'r ail ddogfen y byddwn yn ei chyhoeddi eleni. Mae'n edrych yn ôl ar ein cyflawniadau yn ystod 2010-2011.

Mae'r adolygiad yn dangos y swm enfawr o waith da a wnaed yn ystod y flwyddyn flaenorol ar gyfer pobl Abertawe. Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth gyflwyno ein blaenoriaethau sy'n ymwneud â chymunedau cynaliadwy, perfformiad economaidd gwell, gofalu am bobl ddiamddiffyn a diogelu plant a phobl ifanc yn erbyn cefndir heriol - ac nid y lleiaf yw'r newidiadau yn y galw am ein gwasanaethau yn sgîl amodau demograffig ac economaidd, a llai o arian gan y llywodraeth ac effaith y dirwasgiad ar gyllidebau'r cyngor. Mae gennym hefyd hanes gwych o weithio gyda sefydliadau eraill. Amlygir rhai o'r cyflawniadau nodedig a wnaed yn y maes hwn yn y ddogfen hon.


Mae'n debyg y bydd newid pellach a pharhaus yn ystod y blynyddoedd nesaf wrth i awdurdodau lleol addasu i lai o adnoddau a cheisio ffyrdd newydd o gyflwyno gwasanaethau. Bydd mwy o bwyslais eto ar gynyddu effeithlonrwydd, gweithio gydag awdurdodau eraill i ddarparu gwasanaethau a chanolbwyntio eto ar amddiffyn y gwasanaethau rheng flaen a ddarperir. Bydd dinasyddion a'u buddiannau yn ganolog i'r newid hwn a bydd awdurdodau lleol yn parhau i fesur eu llwyddiant drwy ofyn pa wahaniaeth a gafwyd i'r dinasyddion sy'n defnyddio ein gwasanaethau.





**Chris Holley, Arweinydd**





**Jack Straw, Prif Weithredwr**

# Pennod 1 - Blaenoriaethau Gwella 2010/11

1. Sefydlodd y cyngor 4 blaenoriaeth ar gyfer gwella yn ystod 2010/11, a adwaenir fel arall yn 'Amcanion Gwella'.

1.1 Nid yr Amcanion hyn yn unig yr oedd am eu gwella - disgrifir y pethau eraill ym Mhennod 2 - ond roeddent yn cynrychioli'r meysydd allweddol roedd am ganolbwyntio arnynt.

1.2 Y rhain oedd:

**Amcan Gwella 1: Gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc, cynyddu lles, gwella safonau cyrhaeddiad a chyflawniad a sicrhau eu bod yn ddiogel fel bod y Ddinas a'r Sir yn darparu cyfleoedd addysg rhagorol.**

- Gwella Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.
- Datblygu Rhaglen AoS 2020 a gwella sgiliau ar gyfer dysgu, gweithio a bywyd.
- Ar y cyd ag eraill, gweithio i leihau effaith tlodi ar blant a phobl ifanc.

**Amcan Gwella 2: Gwella a diogelu ein hamgylchedd a gwneud i gymunedau deimlo'n fwy diogel er mwyn i'r Ddinas a'r Sir fod yn lle gwych i fyw ynddo.**

- Sicrhau bod yr holl fannau cyhoeddus mewn cymdogaethau yn cael eu cynnal yn dda.
- Lleihau ôl troed ecolegol Abertawe drwy annog, lleihau gwastraff, cynyddu'r ailgylchu a lleihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.
- Hybu'r gwaith o ddarparu tai fforddiadwy o safon a reolir yn dda yn Abertawe a gweithio tuag at wella tai'r cyngor i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)

**Amcan Gwella 3: Gwella perfformiad economaidd Abertawe fel bod y Ddinas a'r Sir yn cynnal economi ffyniannus.**

- Darparu system drafnidiaeth fwy integredig sy'n hybu'r defnydd o gludiant cyhoeddus.

- Gwella a datblygu isadeiledd sy'n cefnogi adfywio economaidd Abertawe gan ganolbwyntio ar ganol y ddinas, y Glannau, Safleoedd Cyflogaeth Strategol ac Ardaloedd Adfywio.

**Amcan Gwella 4: Gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pawb fel bod Dinas a Sir Abertawe'n cefnogi ac yn hyrwyddo iechyd da.**

- Ailffurfio ac ail-lunio Gwasanaethau Iechyd a gwasanaethau cysylltiedig yn Abertawe.

- Hyrwyddo ac annog ffyrdd iachach o fyw.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn dangos y llwyddiant a gafodd y cyngor wrth gyflwyno ei Amcanion Gwella yn ôl y camau gweithredu a'r targedau a gynhwyswyd yng Nghynllun Gwella 2010/11, *Gwahaniaeth er Gwell*. Atodir tabl llawn o fesurau perfformiad ar gyfer 2010/11 yn atodiad B.

1.4 Gofynnodd y cyngor i Banel y Dinasyddion, *Lleisiau Abertawe,* am eu barn am ba mor llwyddiannus y bu'r cyngor wth gyflwyno ei Amcanion Gwella ar gyfer 2010/11. Mae eu barn yn seiliedig ar eu canfyddiadau fel dinasyddion y gall fod ganddynt brofiad ymarferol o'r gwasanaethau a gyflwynir drwy'r Amcanion Gwella.

## Amcan Gwella 1

1.5 Roeddem yn dymuno:

*Gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc, cynyddu lles, gwella safonau cyrhaeddiad a chyflawniad a sicrhau eu bod yn ddiogel fel bod y Ddinas a'r Sir yn darparu cyfleoedd addysg rhagorol.*

1.6 Roeddem am wneud hyn am fod y Gwasanaethau Cymdeithasol Plant a Theuluoedd wedi bod yn destun y Protocol Pryderon Difrifol yn sgîl pryderon bod gan y gwasanaeth wendidau sy'n peryglu plant diamddiffyn.

1.7 Roeddem hefyd yn poeni, er bod safonau'n gwella yn ysgolion Abertawe, bod y bwlch rhwng yr ysgolion sy'n perfformio orau a gwanaf yn ehangu, a chyflwr nifer mawr o adeiladau ysgol yn Abertawe yn wael.

1.8 Yn olaf, roeddem yn pryderu ynghylch effaith tlodi plant ar ddeilliannau addysgol a phresenoldeb ysgol.

# Blaenoriaeth 1

## Gwella gwasanaethau i blant a theuluoedd

**Pam roedd hyn yn flaenoriaeth?**

- Roedd nifer mawr o blant a phobl ifanc yn cael eu cyfeirio'n amhriodol i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.
- Cafwyd anawsterau o ran recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol.
- Mae angen i wasanaethau i blant a phobl ifanc diamddiffyn a'u teuluoedd fod o ansawdd uchel a chael eu cyflwyno'n gyflym.
- Mae angen datblygu trefniadau comisiynu a chontractio mwy effeithiol.

**Beth rydym wedi'i wneud a beth oedd yr effaith?**

- Cyflwynwyd trefniadau i sicrhau bod plant a phobl ifanc diamddiffyn yn cael eu cyfeirio i gefnogaeth briodol. Mae hyn wedi cefnogi gostyngiad 6% mewn cyfeiriadau o 41% yn 2009/10 i 35% yn 2010/11, a gwelliant yn amserlenni asesiadau cychwynnol (i fyny o 72% i 79%) ac asesiadau craidd (i fyny o 57% i 59%). Mae hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod yn ymdrin â'r plant a'r teuluoedd hynny mae arnynt yr angen mwyaf am ymyriad gan y gwasanaethau cymdeithasol.

- Cynhaliwyd ymgyrch recriwtio lwyddiannus gan recriwtio dros 40 o weithwyr cymdeithasol newydd a llenwyd pob swydd wag. Mae hyn wedi sicrhau bod gennym y gallu gweithio cymdeithasol angenrheidiol i gyflawni canlyniadau gwell i blant a theuluoedd ac i wella perfformiad. Mae hyn wedi cefnogi ein gwelliant ymhellach wrth gyflwyno asesiadau cychwynnol a chraidd ar amser yn ogystal â gwella'r ansawdd, sy'n bwysig er mwyn deall angen plentyn yn llawn, ac ymateb yn briodol.

- Cyflwynwyd hyfforddiant newydd, goruchwyliaeth well, arfarniadau blynyddol a chefnogaeth ychwanegol i helpu i gadw staff newydd. Gwelir effaith hyn dros y tymor hwy, ond dylai cadw staff wella ansawdd a chysondeb y gwaith a wneir gyda phlant diamddiffyn.

- Rydym wedi monitro ansawdd yr asesiadau a'r cynlluniau gofal drwy drefniadau newydd ac archwiliadau ffeiliau achos rheolaidd. Mae hyn wedi sicrhau nad yw gwasanaethau o safon yn cael eu haberthu ar draul cwblhau asesiadau cyflymach.

- Rydym wedi sefydlu Panel Sefydlogrwydd amlasiantaeth i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cefnogaeth a'u cydweddu â'r lleoliad gorau ar gyfer eu hanghenion. Mae hyn wedi helpu i wella cyflymder ac ansawdd cynllunio gofal gan olygu bod 100% o blant sy'n derbyn gofal yn 2010/11 wedi dechrau eu lleoliadau cyntaf gyda chynllun gofal yn ei le; mae'r ganran o blant sy'n derbyn gofal gyda chynllun ar waith ar gyfer sefydlogrwydd wedi cynyddu o 72.4% yn 2009/10 i 96.7% yn 2010/11, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru.

- Rhoddwyd cefnogaeth ychwanegol i ofalwyr maeth arbenigol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd ag anghenion cymhleth. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod gofalwyr â'r profiad, y cymwysterau a'r gallu i ofalu am i bobl ifanc y mae eu hymddygiad yn heriol ac yn anodd, a rhoi cyngor iddynt.

**Sut rydym wedi'i wneud a beth oedd barn panel *Lleisiau Abertawe'*?**

- Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth gyflwyno'r flaenoriaeth hon a'r camau gweithredu a amlinellwyd yng Nghynllun Gwella y llynedd; mae'r mesurau llwyddiant perthnasol hefyd wedi dangos gwelliant dros amser. Teimlai 14% o ymatebwyr Lleisiau Abertawe fod y cyngor wedi bod yn llwyddiannus iawn neu'n eithaf llwyddiannus wrth wella'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Roedd canran uchel (59%) o ymatebwyr wedi dweud nad oeddent yn gwybod a oedd y cyngor wedi bod yn llwyddiannus wrth wella'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Mae hyn yn ôl pob tebyg oherwydd y gall gwelliannau i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod yn llai gweladwy i'r cyhoedd a'u bod efallai'n fwy perthnasol i rai pobl nag eraill (e.e. bydd pobl â pherthnasau sy'n derbyn gofal gan y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn gwell sefyllfa i roi sylwadau ar welliannau yn y gwasanaeth na phobl nad ydynt wedi cael unrhyw gysylltiad â'r gwasanaeth).

**Dangosyddion Llwyddiant Perthnasol (Gweler Atodiad B)**

- **SCC007a, b ac c –** cyfeiriadau ar gyfer dyrannu.
- **SCC042a a b –** asesiadau cychwynnol wedi'u cwblhau o fewn amser.
- **SCC043a a b –** asesiadau craidd (manwl) o fewn amser
- **SCC001a a b –** lleoliadau a chynlluniau gofal amserol

# Blaenoriaeth 2

## Datblygu Rhaglen AoS 2020 a gwella sgiliau ar gyfer dysgu, gweithio a bywyd

### Pam roedd hyn yn flaenoriaeth?

- Mae angen gwella cyrhaeddiad addysgol ar gyfer plant 7 i 11 oed ac 16 oed ac ar gyfer y disgyblion tlotaf.
- Mae angen gwella presenoldeb ysgol.
- Mae parhau i leihau nifer y bobl ifanc sydd Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) yn Abertawe yn flaenoriaeth.
- Fel gweddill Cymru, mae gormod o leoedd ysgol dros ben ac mae angen gwella'r amgylchedd dysgu mewn ysgolion.
- Mae galw cynyddol am addysg Gymraeg y mae'n rhaid ei ateb.
- Mae angen i Gyfleusterau Addysgu arbenigol ehangu i ateb y galw am ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig yn Abertawe.
- Mae angen addysg entrepreneuriaeth mewn ysgolion i gefnogi economi wybodaeth Abertawe.
- Rhaid darparu hyfforddiant a phrofiad gwaith i'r di-waith a'r rhai sy'n anweithgar yn economaidd.

### Beth rydym wedi'i wneud a beth oedd yr effaith?

- Rydym wedi gwella cyrhaeddiad addysgol ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer plant 7 i 11 oed ac 16 oed. Mae hyn yn dangos bod cynnydd yn cael ei wneud wrth wella addysgu ac ymdrin â ffactorau sy'n gysylltiedig â chyrhaeddiad addysgol, megis tlodi ac eithrio cymdeithasol.

- Rydym wedi cynnal y tueddiad sefydlog mewn presenoldeb ysgol. Mae hyn yn bwysig am fod pobl ifanc yn annhebygol o gyflawni eu potensial llawn os nad ydynt yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd.

- Cafwyd gostyngiad da arall yn lefel y bobl ifanc sy'n NEET o 6.7% yn 2009/10 lawr i 4.2% yn 2010/11. Mae hyn yn dangos bod cynnydd yn cael ei wneud wrth ymdrin â ffactorau megis tlodi ac eithrio cymdeithasol a all arwain pobl ifanc i fod mewn mwy o berygl o fod yn NEET.

- Rydym wedi cau tair ysgol gynradd a chyfuno un ysgol gynradd fel rhan o raglen AoS 2020. Mae hyn wedi helpu i leihau nifer y lleoedd ysgol gwag a mynd i'r afael â phryderon ynghylch cyflwr adeiladau ysgol.

- Rydym wedi ceisio ateb y galw am addysg Gymraeg drwy gynyddu nifer y lleoedd ysgol gynradd Cymraeg o 2,400 ym mis Ionawr 2010 i 2,600 erbyn mis Ionawr 2011 – cynnydd o 200.

- Rydym wedi parhau i ehangu'r Cyfleusterau Addysgu Arbenigol (CAA) gan gynnwys 8 lle ychwanegol yn CA4 yn Ysgol Dylan Thomas i ddisgyblion ag Anhwylder Sbectrwm Awtistig cymedrol ac 1 lle ychwanegol yn CA4 i'r ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig Gymraeg. Rydym wedi ymgynghori ar gau'r CAA yn Ysgol Daniel James i ddisgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymedrol i Ddifrifol (ADCDd) ac wedi ymgynghori ar sefydlu CAA yn Ysgol Gyfun Treforys i ddisgyblion ag ADCDd. Mae hyn wedi sicrhau ein bod yn gallu parhau i ddiwallu anghenion disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd a'u bod yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses ddysgu.

- Rydym wedi annog menter ac entrepreneuriaeth mewn ysgolion drwy ymgysylltu â phenaethiaid a gweithio gyda Gyrfa Cymru Gorllewin a rhannu arfer gorau. Bwriad hwn yw darparu cyfleoedd addysgol i helpu i gefnogi datblygiad economi wybodaeth Abertawe.

- Rydym wedi cynnal 557 o hyfforddeion 25+ oed a 752 o hyfforddeion 16 i 24 oed, ar gyrsiau dechreuol a ddarperir drwy gontractau drwy'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau a'r profiad gwaith angenrheidiol i gystadlu yn y byd gwaith a lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn NEET.

- Cychwynnwyd 1117 o wythnosau hyfforddi/profiad gwaith i'r di-waith a'r anweithgar yn economaidd drwy'r cynllun Y Tu Hwnt i Frics a Morter. Mae'r cynllun yn defnyddio'r cymalau budd cymdeithasol mewn contractau sector cyhoeddus i fanteisio i'r eithaf ar fuddion rhaglen adfywio'r cyngor, a darparu hyfforddiant a phrofiad gwaith gan y di-waith a'r anweithgar yn economaidd.

**Sut rydym wedi'i wneud a beth oedd barn panel *Lleisiau Abertawe*'?**

- Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth gyflwyno'r flaenoriaeth hon a'r camau gweithredu a amlinellwyd yng Nghynllun Gwella y llynedd; mae'r mesurau llwyddiant perthnasol hefyd wedi dangos gwelliant dros amser. Roedd 18% o ymatebwyr Lleisiau Abertawe'n credu bod y cyngor wedi bod yn llwyddiannus iawn neu'n eithaf llwyddiannus  wrth wella ysgolion ac addysg. Teimlai 28% fod y cyngor heb fod yn llwyddiannus nac yn aflwyddiannus. Dywedodd 36% nad oeddent yn gwybod ac roedd y gweddill yn teimlo bod y cyngor yn aflwyddiannus. Teimlai 21% fod y cyngor wedi bod yn llwyddiannus iawn neu'n eithaf llwyddiannus wrth wella sgiliau ar gyfer dysgu, gwaith a bywyd. Teimlai 22% fod y cyngor heb fod yn llwyddiannus nac yn aflwyddiannus. Dywedodd 37% nad oeddent yn gwybod ac roedd y gweddill yn teimlo bod y cyngor yn aflwyddiannus. Roedd canran uchel o ymatebwyr nad oeddent yn gwybod p'un a oedd y cyngor wedi bod yn llwyddiannus ai peidio wrth wella'r gwasanaethau hyn. Mae hyn yn ôl pob tebyg oherwydd gall gwelliannau i addysg, ysgolion a sgiliau fod yn llai gweladwy i'r cyhoedd a'u bod efallai'n fwy perthnasol i bobl sy'n defnyddio'r math yma o wasanaethau nac i eraill.

**Dangosyddion Llwyddiant Perthnasol (Gweler Atodiad B)**

- **DU003, EDU011, EDCP21 –** cyrhaeddiad addysgol
- **EDU002i a ii –** disgyblion sy'n gadael ysgol heb gymhwyster.
- **EDU016a a b –** presenoldeb ysgol
- **EDCP18c –** pobl Ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
- **EDU006i a ii –** asesiadau athrawon yn Gymraeg
- **EDU015a a b -** datganiadau amserol o Anghenion Addysgol Arbennig

# Blaenoriaeth 3

## Lleihau effaith tlodi ar blant a phobl ifanc ar y cyd ag eraill

### Pam roedd hyn yn flaenoriaeth?

- Mae angen gwella'r deilliannau ehangach i blant a phobl ifanc yn Abertawe, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig.
- Mae angen gwella ansawdd yr addysgu, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd.
- Mae'n rhaid torri'r cysylltiad rhwng tlodi a lefelau isel o gyflawniad addysgol.
- Rhaid helpu pobl ifanc rhwng 14 ac 19 oed sy'n NEET, neu sydd mewn perygl o fod yn NEET.

### Beth rydym wedi'i wneud a beth oedd yr effaith?

- Rydym wedi datblygu Cynllun Plant a Phobl Ifanc newydd wella sgiliau, lefelau darllen ac iechyd a lles plant mewn ardaloedd difreintiedig.

- Rydym wedi nodi hyfforddiant i ysgolion mewn dalgylchoedd ysgol a dargedir ar ymagwedd newydd o'r enw 'Arfer Adferol'. Nod hwn yw mynd i'r afael ar y cyd â materion â heriau gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd heb eu cyfeirio ar unwaith i asiantaethau eraill ar unwaith.

- Rydym wedi cyflwyno hyfforddiant i ysgolion mewn pedwar dalgylch ysgol ar ddull newydd o'r enw'r 'Llofnod Dysgu fel Teulu' er mwyn cynnwys teuluoedd er mwyn iddynt ddeall eu gallu i ddysgu a chefnogi dysgu eu plant.

- Mae Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweithio gydag ysgolion ac eraill i wella cyfleoedd i blant a theuluoedd ddianc rhag y cylch tlodi.

- Rydym wedi ymgymryd ag adolygiad cynnydd chwarterol yn ôl targedau a deilliannau a amlinellwyd mewn Cynlluniau Gweithredu Ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Mae hyn wedi helpu i sicrhau ein bod ar y trywydd iawn o ran cyflwyno blaenoriaethau Cymunedau'n Gyntaf yn yr ardaloedd hyn.

- Rydym wedi cadw gwaharddiadau penodol o ysgolion cynradd yn isel a lleihau nifer y gwaharddiadau penodol o ysgolion uwchradd i'w ffigur isaf ers 2005/06. Dengys hyn fod gennym gamau da ar waith mewn ysgolion i reoli problemau ymddygiad disgyblion yn effeithiol.

- Darparwyd cefnogaeth wedi'i thargedu (yn ystod y diwrnod ysgol a'r tu allan iddo) i bobl ifanc yn yr ystod oedran 14 i 19 sy'n NEET neu wedi'u nodi eu bod mewn perygl o fod yn NEET drwy brosiect *Ymgysylltu*. Mae hyn wedi helpu i gynnwys pobl ifanc mewn gweithgareddau mwy priodol ac ystyrlon i'w cefnogi i ddychwelyd i addysg a hyfforddiant a gefnogir a gynigir drwy weddill y prosiect.

**Sut rydym wedi'i wneud a beth oedd barn panel *Lleisiau Abertawe* ' ?**

- Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth gyflwyno'r flaenoriaeth hon a'r camau gweithredu a amlinellwyd yng Nghynllun Gwella y llynedd; mae'r mesurau llwyddiant perthnasol hefyd wedi dangos gwelliant dros amser. Teimlai 11% o ymatebwyr fod y cyngor wedi bod yn llwyddiannus iawn neu'n eithaf llwyddiannus wrth leihau effaith tlodi ar blant a phobl ifanc. Teimlai 16% fod y cyngor heb fod yn llwyddiannus nac yn aflwyddiannus. Dywedodd 53% nad oeddent yn gwybod ac roedd y gweddill yn teimlo bod y cyngor yn aflwyddiannus. Roedd canran uchel o ymatebwyr nad oeddent yn gwybod p'un a oedd y cyngor wedi bod yn llwyddiannus ai peidio wrth leihau effaith tlodi ar blant a phobl ifanc. Mae hyn yn ôl pob tebyg oherwydd gall y gwasanaethau hyn fod yn llai gweladwy i'r cyhoedd a'u bod efallai'n fwy perthnasol i bobl sy'n defnyddio'r math yma o wasanaethau nag i eraill.

**Dangosyddion Llwyddiant Perthnasol (Gweler Atodiad B)**

- **DU003, EDU011, EDCP21 –** cyrhaeddiad addysgol
- **EDU002i a ii –** disgyblion sy'n gadael ysgol heb gymhwyster.
- **EDU016a a b –** presenoldeb ysgol
- **EDCP18c** – pobl Ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
- **EDCP12b –** gwaharddiadau tymor penodol

## Amcan Gwella 2

2 Roedd yr ail Amcan Gwella ar gyfer 2010/11 yn ymwneud â chymunedau a'r amgylchedd.

2.1 Roeddem yn dymuno:

*Gwella ac amddiffyn ein hamgylchedd a gwneud cymunedau'n fwy diogel er mwyn i bawb gael lle gwych i fyw ynddo.*

2.2. Roeddem am wneud hyn am fod glanweithdra a chynnal a chadw strydoedd yn flaenoriaeth i'r cyhoedd. Gall golwg ardaloedd lleol effeithio ar hyder gymunedau, diogelwch cymunedol a lefelau o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

2.3 Roeddem am gynyddu ailgylchu a chompostio gwastraff a lleihau swm y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi neu byddai'n rhaid talu dirwyon am fethu â chyflawni targedau statudol a bennir gan Lywodraeth Cymru a'r costau cynyddol sy'n gysylltiedig â'r dreth tirlenwi.

2.4 Yn olaf, cydnabuwyd yr angen am gynyddu tai fforddiadwy o safon i ateb y galw.

# Blaenoriaeth 4

## Sicrhau bod yr holl fannau cyhoeddus mewn cymdogaethau yn cael eu cynnal yn dda.

**Pam roedd hyn yn flaenoriaeth?**

- Roedd angen ymagwedd fwy penodol at lanhau ardaloedd a chynnal a chadw priffyrdd a oedd yn ateb pryderon lleol.
- Roedd yn rhaid i'r cyngor amlinellu sut roedd yn bwriadu cynnal y rhwydwaith priffyrdd drwy Raglen Cynnal Priffyrdd 5 mlynedd newydd.
- Mae angen gwella hyder y cyhoedd yn yr heddlu a'r cyngor i leihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Mae angen sylw ar olwg a hygyrchedd parciau a mannau agored.

**Beth rydym wedi'i wneud a beth oedd yr effaith?**

- Rydym wedi llunio trefniadau glanhau ardaloedd newydd. Mae'r rhain wedi caniatáu i ni lanhau ardaloedd yn fwy effeithiol a bodloni blaenoriaethau glanhau lleol. Parhawyd i archwilio tir i sicrhau bod lefel dderbyniol o lanweithdra'n cael ei chynnal. Er y cafwyd rhywfaint o ostyngiad wrth wella canran y priffyrdd a'r tir perthnasol a archwiliwyd i safon lanweithdra dderbyniol o 94% yn 2009/10 i 92.6% yn 2010/11, cafwyd tuedd gyffredinol sydd wedi gwella rhywfaint ers 2007/08 (91.2%).

- Parhawyd i ddarparu gwasanaeth ymateb cyflym i ymdrin â digwyddiadau o dipio sbwriel yn anghyfreithlon, er y cafwyd dirywiad yng nghanran y achosion o dipio sbwriel yn anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 niwrnod gwaith o 96.39% yn 2009/10 i 92.50% yn 2010/11.

- Cyflwynwyd timau PATCH ardal i weithio'n benodol ar atgyweirio ffyrdd mewn ardaloedd lleol yn ôl rota. Mae hwn yn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol o weithio sydd hefyd yn ymroddedig i ateb pryderon lleol.

- Cynhyrchwyd a chyhoeddwyd Rhaglen Cynnal a Chadw Priffyrdd 5 mlynedd newydd a chwblhawyd rhaglen y flwyddyn gyntaf mewn perthynas â 2010/11. Mae hyn yn caniatáu i ni gynllunio ble a sut bydd ffyrdd yn Abertawe'n cael eu hatgyweirio dros y blynyddoedd nesaf.

- Cytunwyd ar drefniadau i sefydlu Grŵp Cydlynu PACT i ystyried a ellid mynd i'r afael â blaenoriaethau sy'n codi o gyfarfodydd PACT Abertawe yn lleol, neu a fyddai angen ymateb cydlynol. Roedd hyn wedi'n galluogi i ateb pryderon lleol yn fwy effeithiol a darparu ymateb mwy strategol i faterion a nodwyd yn aml.

- Cwblhawyd 591 o dasgau glanhau graffiti i helpu i wella golwg cymunedau a helpu i gynyddu hyder y cyhoedd a lleihau ofn troseddu. Cwblhawyd 85 o'r 87 tasg lle'r oedd y graffiti'n sarhaus (97%) o fewn 7 niwrnod gweithio.

- Cwblhawyd cam cyntaf y gwaith cadwraeth a newid i Gastell Ystumllwynarth mewn prosiect gwella i helpu i wella mynediad corfforol a deallusol a'i gadw ar gyfer cenedlaethau i ddod.

- Gwnaed gwelliannau i Barc Gwledig Clun i wella mynediad i gerddwyr a beicwyr, arwyddion a phwyntiau cyrraedd meysydd parcio. Plannwyd 420 o lasbrennau coed brodorol a roddwyd gan Goed Cadw hefyd.

- Gwnaed gwelliannau i barciau ar draws y ddinas mewn ardaloedd difreintiedig yn Ninas a Sir Abertawe a chafwyd arian ar gyfer gwelliannau i Barciau Coed Gwilym a Chwmdoncyn, â'r nod o roi profiad gwell i drigolion a gwella eu hansawdd bywyd.

- Cafwyd caniatâd i fwrw ymlaen â rhaglen i sefydlu Bae Abertawe'n ganolfan ragoriaeth ar gyfer chwaraeon dŵr. Nod hwn yw darparu isadeiledd ar draws Bae Abertawe a fydd yn galluogi amrywiaeth eang o chwaraeon dŵr i gael eu cynnal yma, ac a fydd yn hyrwyddo Rhanbarth Bae Abertawe fel Canolfan Ragoriaeth Twristiaeth ar gyfer chwaraeon dŵr. Bydd hyn yn cyfrannu at ddatblygu cymunedau iach a ffyniannus yn economaidd drwy asedau amgylchedd naturiol Bae Abertawe.

**Sut rydym wedi'i wneud a beth oedd barn panel *Lleisiau Abertawe* ' ?**

- Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth gyflwyno'r flaenoriaeth hon a'r camau gweithredu a amlinellwyd yng Nghynllun Gwella y llynedd; mae'r mesurau llwyddiant perthnasol yn gyffredinol wedi dangos gwelliant dros amser ac eithrio digwyddiadau tipio anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 niwrnod gwaith, er bod perfformiad yn parhau'n uchel. Teimlai 48% o ymatebwyr Lleisiau Abertawe fod y cyngor wedi bod yn llwyddiannus iawn neu'n eithaf llwyddiannus wth wella glanhau a chynnal a chadw strydoedd. Teimlai 23% fod y cyngor heb fod yn llwyddiannus nac yn aflwyddiannus. Teimlai 26% fod y cyngor wedi bod yn eithaf aflwyddiannus neu'n aflwyddiannus iawn. 3% yn unig a ddywedodd nad oeddent yn gwybod am fod y gwasanaethau hyn yn weladwy iawn i'r cyhoedd ac y mae pawb yn eu profi. Mewn arolwg arall o Leisiau Abertawe yn ystod 2010/11, yr agwedd ar

Barciau a Mannau Agored Abertawe a ganmolwyd yn uchel oedd cynnal a chadw ardaloedd o laswellt (66% yn "dda"). Yn gyffredinol, roedd 58% o ymatebwyr yn fodlon ar y gwasanaeth parciau a lleiafrif yn unig (4%) oedd yn "anfodlon".

**Dangosyddion Llwyddiant Perthnasol (Gweler Atodiad B)**

- **STS005b –** glanweithdra priffyrdd
- **STS006 –** ymdrin ag achosion o dipio anghyfreithlon
- **CRE4 –** glanhau graffiti fel blaenoriaeth

# Blaenoriaeth 5

## Lleihau ôl troed ecolegol Abertawe drwy annog, lleihau gwastraff, cynyddu'r ailgylchu a lleihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.

### Pam roedd hyn yn flaenoriaeth?

- Mae angen cynyddu swm y gwastraff a gaiff ei ailgylchu a'i gompostio.
- Rhaid lleihau swm y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi.
- Bydd methu â chyflawni targedau ailgylchu a thirlenwi statudol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn arwain at gosbau ariannol i'r cyngor a mwy o gost drwy drethi uwch.
- Rhaid annog aelodau'r cyhoedd i chwarae eu rhan a chydnabod eu cyfraniad at leihau gwastraff a'r effaith bosib ar newid yn yr hinsawdd.
- Rhaid lleihau'r gwastraff a gynhyrchir gan weithredoedd cynnal a chadw priffyrdd y cyngor ei hun i helpu i gyflawni targedau gwastraff.

### Beth rydym wedi'i wneud a beth oedd yr effaith?

- Cyflwynwyd casgliadau sbwriel bob yn ail wythnos a gwasanaeth casglu plastig bob pythefnos o ymyl y ffordd a darparwyd leinwyr arbennig y gellir eu compostio'n llwyr ar gyfer gwastraff cegin. Dechreuwyd cyflwyno casgliadau gwastraff bwyd i fflatiau hefyd. Roedd hyn yn golygu ein bod yn parhau i leihau canran y gwastraff a anfonwyd i'w dirlenwi o bron 68% yn 2008/09 i bron 65% yn 2009/10 ac yna lawr eto i bron 58% yn 2010/11. Rhagorwyd hefyd ar ein targed blynyddol o 37.5% i ailgylchu/compostio 40.7% o wastraff cartref.

- Ailgylchwyd yr holl wastraff gyli a deunydd sgubo'r ffyrdd i'w hailddefnyddio ar weithgareddau adeiladu a chynnal a chadw a chynlluniau eraill yr Adran Briffyrdd, a oedd hefyd wedi cyfrannu at gyflawni ein targedau i leihau gwastraff.

**Sut rydym wedi'i wneud a beth oedd barn panel *Lleisiau Abertawe* ' ?**

- Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth gyflwyno'r flaenoriaeth hon a'r camau gweithredu a amlinellwyd yng Nghynllun Gwella y llynedd; mae'r mesurau llwyddiant perthnasol hefyd wedi dangos gwelliant dros amser, er y bydd cyflawni'r targedau tirlenwi ac ailgylchu statudol yn parhau'n her. Teimlai 82% o ymatebwyr Lleisiau Abertawe fod y cyngor wedi bod yn llwyddiannus iawn neu'n eithaf llwyddiannus wrth gynyddu cyfleoedd ar gyfer compostio ac ailgylchu gwastraff. Teimlai 23% fod y cyngor heb fod yn llwyddiannus nac yn aflwyddiannus. Teimlai 7% fod y cyngor wedi bod yn eithaf aflwyddiannus neu'n aflwyddiannus iawn. 5% yn unig ddywedodd nad oeddent yn gwybod am fod y gwasanaethau hyn yn weladwy iawn i'r cyhoedd ac y mae pawb yn eu profi. Mewn arolwg arall o Leisiau Abertawe yn ystod 2010/11, teimlai 85% o ymatebwyr ei bod yn hawdd ailgylchu gwastraff yn Abertawe. Roedd boddhad â'r gwasanaeth casgliadau sbwriel ymyl y ffordd yn amrywio o 74% (sachau gwyrdd – gwydr, tun, papur a gwastraff cegin) i 80% (sachau pinc– ailgylchu plastig).

**Dangosyddion Llwyddiant Perthnasol (Gweler Atodiad B)**

- **WMT004 –** swm y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi
- **WMT009 –** swm y gwastraff a gaiff ei ailgylchu/compostio

# Blaenoriaeth 6

## Hybu'r gwaith o ddarparu tai fforddiadwy o safon a reolir yn dda yn Abertawe a gweithio tuag at wella tai'r cyngor i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru.

### Pam roedd hyn yn flaenoriaeth?

- Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yw safon darged Llywodraeth Cymru ar gyfer yr holl dai cymdeithasol yng Nghymru.
- Mae gweithio tuag at wella stoc tai'r cyngor i fodloni'r safon yn flaenoriaeth i'r cyngor, ond mae cyfanswm yr arian y mae ei angen i wneud hyn yn fwy na'r hyn y gall y cyngor gael gafael arno o dan y rheolau presennol.
- Bu'n rhaid ymgynghori â thenantiaid a lesddeiliaid tai cyngor ar gynlluniau tymor byr y cyngor yn ogystal â'r amcanion tymor hwy.
- Rhaid cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy i ateb y galw drwy waith a wneir gyda darparwyr tai cymdeithasol a datblygwyr sector preifat.
- Mae angen defnyddio tai gwag unwaith eto ac ymdrin ag adeiladau adfeiliedig er mwyn gwella golwg cymunedau a helpu i ateb y galw am dai.
- Bu'n rhaid ehangu cwmpas rheoliadau er mwyn gwella safonau rheoli yn y sector Tai Amlbreswyl (HMO).

### Beth rydym wedi'i wneud a beth oedd yr effaith?

- Ymgynghorwyd â thenantiaid a lesddeiliaid tai cyngor i drafod cynigion buddsoddi ar gyfer tai cyngor, a bu hyn yn gymorth i nodi blaenoriaethau ar gyfer tai, stadau a gwasanaethau.

- Ymgynghorwyd â landlordiaid a mabwysiadwyd Polisi Trwyddedu HMO newydd i hybu safonau rheoli uchel ac i fod o fudd i denantiaid a chymunedau.

- Darparwyd tua 104 o unedau tai fforddiadwy yn 2010/11 i helpu i ddiwallu anghenion a'r galw am dai, a oedd yn llai na'r 366 o unedau a gynlluniwyd. Mae'r diffyg hwn yn rhannol o ganlyniad i ostyngiadau mewn arian grant ac anawsterau gyda'r farchnad dai sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd economaidd ehangach. Mae oediad amser 2-3 blynedd hefyd rhwng sicrhau'r arian ar gyfer

datblygu a chwblhau'r tai. Felly gall fod yn anodd rhagfynegi'n union ym mha fis/flwyddyn ariannol y bydd adeiladau penodol yn cael eu cwblhau.

- Er nad oedd y cyngor wedi cynhyrchu Strategaeth Eiddo Gwag fel y bwriadwyd, llwyddodd i leihau nifer y tai cyngor gwag o 286 yn 2009/10 lawr i 251 yn 2010/11. Llwyddodd hefyd i sicrhau bod 23 o anheddau gwag yn cael preswylwyr eto ar ôl cyfnod o fod yn wag.

**Sut rydym wedi'i wneud a beth oedd barn panel *Lleisiau Abertawe* '?**

- Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth gyflwyno'r flaenoriaeth hon a'r camau gweithredu a amlinellwyd yng Nghynllun Gwella y llynedd; mae'r mesurau llwyddiant perthnasol hefyd wedi dangos gwelliant dros amser, ac eithrio nifer y tai fforddiadwy a ddarparwyd oherwydd amodau economaidd anodd. Teimlai 18% o ymatebwyr Lleisiau Abertawe fod y cyngor wedi bod yn llwyddiannus iawn neu'n eithaf llwyddiannus wrth wella tai cyngor. Teimlai 14% o ymatebwyr fod y cyngor wedi bod yn llwyddiannus iawn neu'n eithaf llwyddiannus wrth gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Teimlai 13% (gwelliannau i dai cyngor) a 23% (cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy) fod y cyngor heb fod yn llwyddiannus nac yn aflwyddiannus. Teimlai 15% (gwelliannau i dai cyngor) a 25% (cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy) fod y cyngor wedi bod yn eithaf llwyddiannus neu'n llwyddiannus iawn. Dywedodd 54% (gwelliannau i dai cyngor) a 40% (cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy) nad oeddent yn gwybod. Mae hyn yn ôl pob tebyg oherwydd gall y gwasanaethau hyn fod yn llai gweladwy i'r cyhoedd a'u bod efallai'n fwy perthnasol i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau o'r math nag i eraill.

- Er mai 18% yn unig o ymatebwyr yn gyffredinol a oedd yn teimlo bod y gwaith o wella tai cyngor wedi cael ei wneud yn llwyddiannus, cynyddodd y ffigur hwn i 31% ymhlith ymatebwyr a oedd yn denantiaid y cyngor. I'r gwrthwyneb, teimlai 52% o ymatebwyr a oedd yn denantiaid y cyngor nad oedd yr amcan wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus, a oedd yn uwch na'r ganran gyffredinol (15%). Fodd bynnag, dim ond 62 o'r 765 o banelwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn oedd yn denantiaid y cyngor. Roedd sampl llawer mwy sylweddol ar gyfer yr Arolwg Tenantiaid a grybwyllir isod.

**Arolwg Tenantiaid 2011**

- Canfu arolwg o 2,552 o denantiaid (19% o'r holl denantiaid) fod 79% yn fodlon ar gyflwr cyffredinol eu cartrefi; Roedd 75% yn fodlon ar y gymdogaeth fel lle i fyw ynddo; roedd 84% yn fodlon ar y gwasanaeth tai yn gyffredinol. Gofynnwyd i denantiaid hefyd gyflwyno sylw ar grynodeb cryno o flaenoriaethau gwario'r cyngor, sef cadw eiddo'n ddiogel o rai adeiledd ac yn effeithlon o ran gwresogi. Dywedodd dros ddau draean (68%) eu bod yn fodlon ar yr ymagwedd hon, gyda 26% yn nodi eu bod yn anfodlon.

**Dangosyddion Llwyddiant Perthnasol (Gweler Atodiad B)**

- **HSG2 –** nifer y tai cyngor gwag
- **PLA006 –** darparu unedau tai fforddiadwy ychwanegol
- **PSR004 –** anheddau sector preifat sy'n cael eu defnyddio unwaith eto
- **PSR007a –** HMO â thrwydded lawn
- **PSR007b –** HMO â thrwydded amodol

# Amcan Gwella 3

3 Roedd y trydydd Amcan Gwella ar gyfer 2010/11 yn ymwneud â chymunedau a'r economi.

3.1 Roeddem yn dymuno:

*Gwella perfformiad economaidd Abertawe fel bod y Ddinas a'r Sir yn cynnal economi ffyniannus.*

3.2 Roeddem am wella cludiant cyhoeddus i helpu i wella hygyrchedd a symudiad, lleihau tagfeydd a llygredd a chyfrannu at wella ffyniant Abertawe.

3.3 Roeddem yn pryderu am fod canol dinas Abertawe wedi bod yn tanberfformio. Roedd angen ei gwella drwy fuddsoddi mewn datblygu ei hardaloedd cyhoeddus er mwyn cynhyrchu mwy o fywiogrwydd sy'n gyson â'i rôl fel canolfan ranbarthol ar gyfer manwerthu, cyflogaeth a darparu gwasanaethau.

3.4 Mae gwella'r cysylltiadau rhwng canol y ddinas a'r glannau yn cynnig cyfle sylweddol i gyflawni uchelgais Abertawe i fod yn ddinas unigryw ar y glannau.

3.5 Mae Safleoedd Cyflogaeth Strategol sy'n gallu cynnal datblygiad yn hanfodol i fodloni gofynion twf economaidd Abertawe.

# Blaenoriaeth 7

## Darparu system drafnidiaeth fwy integredig sy'n hybu'r defnydd o gludiant cyhoeddus.

### Pam roedd hyn yn flaenoriaeth?

- Roedd gorsaf fysus newydd yn y ddinas yn rhan o'r strategaeth i wella cysylltiadau cludiant cyhoeddus.
- Yn unol â'r angen i gynyddu'r defnydd o gludiant cyhoeddus a lleihau tagfeydd, roedd y cyngor am recriwtio Swyddogion Gorfodi Parcio Sifil ychwanegol.
- Roedd Cyngor Abertawe am wella'r rhwydweithiau cerdded a beicio i helpu i hyrwyddo mathau eraill o gludiant.

### Beth rydym wedi'i wneud a beth oedd yr effaith?

- Agorwyd gorsaf fysus newydd yn y ddinas gyda chyfleusterau cyfoes i helpu i wella cysylltiadau cludiant cyhoeddus â chanol y ddinas.

- Penodwyd 10 Swyddog Gorfodi Parcio Sifil ychwanegol i helpu i sicrhau cydymffurfio â chyfyngiadau parcio a chynhaliwyd arolygon i fonitro cadw at y cyfyngiadau parcio er mwyn helpu i leihau tagfeydd traffig.

- Dechreuwyd ar waith i ehangu'r llwybr cerdded a beicio yng Nghlydach mewn partneriaeth â Sustrans, a chynhaliwyd archwiliad llawn o'r rhwydwaith cerdded a beicio oddi ar y ffordd i ganfod cyflwr hwn a nodi gofyniadau cynnal a chadw.

### Sut rydym wedi'i wneud a beth oedd barn panel *Lleisiau Abertawe*'?

- Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth gyflwyno'r flaenoriaeth hon a'r camau gweithredu a amlinellwyd yng Nghynllun Gwella y llynedd; mae'r mesurau llwyddiant perthnasol yn dangos bod cyfradd uchel o bobl hŷn yn defnyddio tocynnau bws consesiynol, ond y bu gostyngiad yn y defnydd o barcio a theithio dros amser. Teimlai 31% o ymatebwyr Lleisiau Abertawe fod y cyngor wedi bod yn llwyddiannus iawn neu'n eithaf llwyddiannus wrth ddarparu cludiant cyhoeddus. Teimlai 30% fod y cyngor wedi bod yn eithaf aflwyddiannus neu'n aflwyddiannus iawn. Teimlai 23% fod y cyngor heb fod yn llwyddiannus nac yn aflwyddiannus.

Dywedodd 15% nad oeddent yn gwybod, sydd, yn ôl pob tebyg, yn adlewyrchu nad yw'r holl banelwyr yn defnyddio cludiant cyhoeddus yn rheolaidd.

**Dangosyddion Llwyddiant Perthnasol (Gweler Atodiad B)**

- **ETE8 –** Defnyddio parcio a theithio
- **THS007 –** Oedolion 60+ oed a chanddynt docynnau bws consesiynol

# Blaenoriaeth 8

## Gwella a datblygu isadeiledd sy'n cefnogi adfywio economaidd Abertawe gan ganolbwyntio ar Ganol y ddinas, y Glannau, Safleoedd Cyflogaeth Strategol ac Ardaloedd Adfywio.

### Pam roedd hyn yn flaenoriaeth?

- Roedd angen gwella cyfleusterau, adeiladau, eiddo a'r mannau cyhoeddus yng Nghanol y Ddinas a'r Glannau er mwyn iddo fod yn ganolfan siopa ranbarthol ac yn gyrchfan fel dinas.
- Roedd yn rhaid ailffocysu'r gwasanaeth cynllunio i gefnogi adfywio'r Ddinas a'r Sir.
- Roedd angen darparu gwaith isadeiledd hanfodol yn Felindre i sicrhau ei fod yn cael ei ddatblygu fel prif leoliad ar gyfer busnesau.
- Roedd yn rhaid cyflwyno rhaglenni adfywio ardal i helpu i adeiladu cymunedau cynaliadwy a hybu swyddi a gwaith.
- Roedd angen strategaeth ddrafft ar gyfer marchnad dan do Abertawe.

### Beth rydym wedi'i wneud a beth oedd yr effaith?

- Cynhaliwyd arolwg cyflwr adeilad a buddsoddwyd ym Marchnad Abertawe, gan gynnwys atgyweirio'r to a diweddaru'r cyflenwad trydan.

- Cytunwyd ar gytundeb cydweithio rhwng y cyngor a Hammerson plc. mewn perthynas ag adfywio Canol y Ddinas. Paratowyd briffiau cynllunio drafft ar gyfer Cwadrant Dewi Sant a Pharc Tawe, a briff marchnata ar gyfer Stryd Rhydychen Isaf. Ni fabwysiadwyd y briffiau cynllunio hyn oherwydd dirywiad sylweddol mewn amgylchiadau economaidd. Cyflawnwyd adolygiad a pharatowyd ymagwedd arall ar gyfer cynlluniau'r dyfodol.

- Cwblhawyd cam cyntaf y gwelliannau i fannau cyhoeddus y Glannau ar hyd lannau afon Tawe, rhwng pontydd Tawe i safle'r Hwylbont. Roedd y gwelliannau'n cynnwys arwynebau newydd, celfi stryd pren/dur gwrthstaen newydd, rheiliau, arwyddion gwell a gwelliannau eraill.

- Datblygwyd a chymeradwywyd opsiwn o ddewis i gyflwyno ail a thrydydd cam y gwelliannau i fannau cyhoeddus y Glannau, ar

lan y môr rhwng Arsyllfa Abertawe a'r Ganolfan Ddinesig. Dyluniwyd trydydd cam y gwelliannau i'r mannau cyhoeddus ar Stryd Rhydychen Isaf.

- Cynghorwyd mwy na 60 o berchnogion a phreswylwyr eiddo yng nghanol y ddinas ar argaeledd grantiau Gwella Adeiladau, a dyfarnwyd 6 grant ar gyfer gwella eiddo. Hysbysebwyd hefyd argaeledd y Grant Datblygu Eiddo i wella eiddo yng nghanol y ddinas a dadansoddi mynegiadau o ddiddordeb.

- Cyfunwyd y cyn-wasanaeth cynllunio â'r gwasanaethau datblygu economaidd yn un gwasanaeth integredig newydd (Adfywio Economaidd a Chynllunio) i gefnogi'r agenda adfywio ehangach yn Abertawe.

- Cafwyd arian gan Ewrop i adfywio hen weithfeydd dur Felindre yn barc busnes strategol i helpu i greu a chynnal swyddi.

- Aseswyd prosiectau ar gyfer cynhwysiad yn Rhaglen Ardal Adfywio Cymoedd y Gorllewin a sefydlwyd Grŵp Llywio i helpu i hwyluso cyflwyno Rhaglen Ardal Adfywio Abertawe a helpu i ddatblygu cymunedau cynaliadwy a hybu swyddi a thwf.

**Sut rydym wedi'i wneud a beth oedd barn panel *Lleisiau Abertawe*'?**

- Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth gyflwyno'r flaenoriaeth hon a'r camau gweithredu a amlinellwyd yng Nghynllun Gwella y llynedd; mae'r mesurau llwyddiant perthnasol yn dangos gwelliant ac eithrio canran y ceisiadau cynllunio mawr y penderfynwyd arnynt o fewn amser, a syrthiodd o 42.1% yn 2009/10 i 17.4% yn 2010/11. Ar y llaw arall, cynyddodd gwerth buddsoddi mewnol o £23m yn 2009/10 i £45.1m yn 2010/11. Teimlai 33% o ymatebwyr Lleisiau Abertawe fod y cyngor wedi bod yn llwyddiannus iawn neu'n eithaf llwyddiannus wrth adfywio canol y ddinas. Teimlai 25% fod y cyngor heb fod yn llwyddiannus nac yn aflwyddiannus. Teimlai 39% fod y cyngor wedi bod yn eithaf aflwyddiannus neu'n aflwyddiannus iawn. 4% yn unig a ddywedodd nad oeddent yn gwybod am fod gwelliannau ffisegol yn weladwy iawn i'r cyhoedd ac y mae pawb yn eu profi. Mewn arolwg arall o Leisiau Abertawe yn ystod 2010/11, roedd 40% o ymatebwyr yn meddwl bod y cyngor yn dda wrth fynd ati i adfywio ardaloedd sydd wedi dirywio, ond roedd 45% yn meddwl bod y cyngor yn wael a doedd 15% ddim yn gwybod. Yn yr un arolwg, roedd 48% yn credu bod y cyngor yn dda wrth sicrhau bod datblygiadau newydd wedi'u lleoli ar safleoedd addas ond roedd 32% yn meddwl bod y cyngor yn wael a doedd 20% ddim yn gwybod.

**Dangosyddion Llwyddiant Perthnasol (Gweler Atodiad B)**

- **PLA004a –** penderfynu ar geisiadau cynllunio mawr yn gyflym
- **PLA004c –** penderfynu ar geisiadau cynllunio gan berchnogion tai yn gyflym
- **ESD1 -** gwerth buddsoddi mewnol ar gyfer prosiectau'n seiliedig ar eiddo

## Amcan Gwella 4

4 Roedd y pedwerydd Amcan Gwella ar gyfer 2010/11 yn ymwneud ag Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

4.1 Roeddem yn dymuno:

| |
|---|
| *Gwella Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i bawb fel bod y Ddinas a'r Sir yn cefnogi ac yn hyrwyddo iechyd da.* |

4.2 Roeddem am foderneiddio ac ailgydbwyso gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn cyflawni cydbwysedd ariannol, darparu gwasanaethau mwy hygyrch a chynyddu annibyniaeth pobl.

4.3 Roeddem am gefnogi pobl i fyw bywydau iachach.

# Blaenoriaeth 9

## Ailffurfio ac ail-lunio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cysylltiedig yn Abertawe.

**Pam roedd hyn yn flaenoriaeth?**

- Ystyriwyd nad oedd y model sefydledig o ddarparu gofal seibiant (seibiant byr) yn gynaladwy ac nad oedd yn gallu diwallu anghenion a dymuniadau teuluoedd sy'n gofalu am berthynas hŷn ag anabledd neu anabledd corfforol neu feddyliol tymor hir.
- Mae angen ail-lunio gwasanaethau gofal cymdeithasol i bobl hŷn fel bod mwy o opsiynau ar gyfer gofal yn y cartref sy'n cefnogi annibyniaeth.
- Mae angen 'ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y person' ar gyfer pobl hŷn ac eraill a phroblemau iechyd meddwl, sy'n cefnogi eu hawliau dynol a'u hannibyniaeth.
- Bu'n rhaid ailfodelu cyfleoedd dydd i bobl hŷn er mwyn hybu annibyniaeth a galluogi yn y gymuned.
- Rhaid gwella gwasanaethau iechyd meddwl i bobl hŷn ar y cyd â phartneriaid iechyd.
- Mae angen ail-lunio gofal cymunedol ac mewn ysbytai gyda phartneriaid iechyd er mwyn cefnogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain.

**Beth rydym wedi'i wneud a beth oedd yr effaith?**

- Yn dilyn cyfnod o ymgynghori, caewyd Cartref Seibiant Earlsmoor a datblygwyd amrywiaeth eraill o wasanaethau gofal seibiant eraill sy'n cynnig seibiannau byr mewn cartrefi gofal. Mae opsiynau seibiant eraill ar gael, megis fflat gofal ychwanegol yn Hazel Court, Sgeti, a seibiannau byr mewn cartref unigolyn neu deulu arall (a elwir yn 'lleoliad oedolyn') i ddiwallu anghenion a gofynion gwahanol yn well.

- Adolygwyd gwasanaethau gofal cartref (yn y cartref) i asesu a chefnogi pobl hŷn i aros yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hwy. Mae hyn wedi cefnogi gwelliant yn nifer y bobl 18 i 64 oed sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned o 96.42% yn 2009/10 i 96.9% yn 2010/11. Cafwyd cwymp bychan yn nifer y bobl 65+ oed sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned oherwydd yr ethos sy'n datblygu o gefnogi a chyfeirio pobl i adnoddau cymunedol yn hytrach na gwasanaethau y telir amdanynt yn draddodiadol. Arhosodd nifer y bobl sy'n derbyn mathau o ofal preswyl yn sefydlog.

- Rydym wedi mabwysiadu 'ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y person' at ofalu am bobl hŷn â dementia, sy'n hybu hawliau dynol ac annibyniaeth, gan gynnwys buddsoddiad mewn datblygu uned dibyniaeth uwch arloesol a newydd yng Nghartref Gofal Tŷ Waunarlwydd, mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd.

- Ailfodelwyd cyfleoedd dydd i bobl hŷn fel eu bod yn effeithiol ac yn gynaliadwy, ac ar ôl eu sefydlu, yn cael eu cynnal gan ddefnyddwyr i ddiwallu eu hanghenion yn well.

- Sefydlwyd prosiectau i brofi syniadau yng nghyd-destun gweithio yn yr ardal leol, sy'n cynnwys ymagwedd gydlynol mewn ardal leol arbennig i ddatblygu ac adeiladu gallu cymunedol i gefnogi pobl i gymryd cyfrifoldeb am benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

**Sut rydym wedi'i wneud a beth oedd barn panel *Lleisiau Abertawe* '?**

- Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth gyflwyno'r flaenoriaeth hon a'r camau gweithredu a amlinellwyd yng Nghynllun Gwella y llynedd; mae'r mesurau llwyddiant perthnasol hefyd yn dangos yn fras y bu gwelliant, er y cafwyd pryderon ynghylch oedi wrth drosglwyddo gofal o ysbyty i leoliad gofal arall, a oedd wedi cynyddu o 2.97 diwrnod yn 2009/10 i 9 diwrnod yn 2010/11. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid iechyd a'n Gwasanaeth Asesu Gofal yn y Cartref i sefydlu'r trefniadau rhyddhau o ysbyty mwyaf cynaliadwy a chost-effeithiol. Teimlai 13% o ymatebwyr Lleisiau Abertawe fod y cyngor wedi bod yn llwyddiannus iawn neu'n eithaf llwyddiannus wrth wella gofal cymdeithasol i oedolion. Teimlai 7% fod y cyngor heb fod yn llwyddiannus nac yn aflwyddiannus. Teimlai 19% fod y cyngor wedi bod yn eithaf aflwyddiannus neu'n aflwyddiannus iawn. Dywedodd 51% nad oeddent yn gwybod Mae hyn yn ôl pob tebyg am fod y gwasanaethau hyn yn llai gweladwy i'r cyhoedd, a'u bod efallai'n fwy perthnasol i bobl a'u perthnasau/gofalwyr sy'n profi gwasanaethau o'r math nag i eraill nad ydynt erioed wedi ymwneud â'r gwasanaeth.

**Dangosyddion Llwyddiant Perthnasol (Gweler Atodiad B)**

- **SCA001 –** oedi wrth drosglwyddo gofal
- **SCA003a –** cleientiaid 18 i 64 oed sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned
- **SCA007 –** adolygiadau cynlluniau gofal yn ystod y flwyddyn
- **SCA003b –** cleientiaid 65+ oed sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned

# Blaenoriaeth 10

## Hyrwyddo ac annog ffyrdd iachach o fyw.

**Pam roedd hyn yn flaenoriaeth?**

- Mae'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yn cael ei rhoi ar waith drwy'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.
- Ymrwymodd y cyngor i barhau i roi blaenoriaethau ar waith ar gyfer pobl hŷn mewn partneriaeth â phobl dros 50 oed drwy Rwydwaith 50+ Abertawe.
- Roedd angen adolygu technoleg gynorthwyol sy'n caniatáu i bobl fyw yn ddiogel yn eu cartrefi i sicrhau ei bod yn parhau'n gynaliadwy'n ariannol ac yn parhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr.
- Mae angen hybu chwaraeon a gweithgaredd corfforol i helpu i wella iechyd a lles.
- Daeth Deddf (Rheoliad) Gwelyau Haul 2010 - a'i gwnaeth yn drosedd i unrhyw un o dan 18 oed ddefnyddio gwelyau haul - i rym ym mis Ebrill 2011. Roedd angen i'r cyngor baratoi ar gyfer cyflwyno Deddf (Rheoliad) Gwelyau Haul 2010 i gadarnhau nifer y mangreoedd gwelyau haul heb oruchwyliaeth ac er mwyn i fangreoedd o'r fath ddangos arfer diogel.

**Beth rydym wedi'i wneud a beth oedd yr effaith?**

- Parhawyd i roi'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn ar waith drwy'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles newydd. Parhawyd hefyd i weithio gyda Rhwydwaith 50+ Abertawe, a rhoddwyd prosiect peilot ar waith i hyfforddi gwirfoddolwyr o'r rhwydwaith fel Mentoriaid Cyfoedion sy'n ymweld â grwpiau yn eu cymunedau i ddarparu gwybodaeth am bopeth, o atal toresgyrn a chwympo i ddod o hyd i swydd, gwirfoddoli a hyfforddiant.

- Yn dilyn adolygiad o dechnoleg gynorthwyol, a datblygu cynlluniau comisiynu, sefydlwyd prosiect Gofal Gartref i barhau i adolygu a datblygu ein hamrywiaeth o wasanaethau 'gofal ychwanegol' Cyflwynwyd tâl cyfradd wastad i'r defnyddwyr hynny nad ydynt yn derbyn pecynnau gofal cartref cymdeithasol er mwyn darparu gwasanaeth cynaliadwy.

- Rhoddwyd trydedd flwyddyn cytundeb ariannu â Chyngor Chwaraeon Cymru ar waith i helpu i gynyddu gweithgaredd corfforol. Cyflawnwyd adolygiad hanner blwyddyn ac yna un flwyddyn i bennu'r cynnydd wrth roi Strategaeth Gweithgaredd Corfforol a Chwaraeon y cyngor ar waith. Datgelodd Arolwg Iechyd Cymru (AIC) na chafwyd unrhyw gynnydd yn y ganran o oedolion a

oedd yn ymgymryd â gweithgaredd corfforol 5 X 30 munud yr wythnos am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod lefelau gweithgaredd corfforol mewn sefydliadau a gynhelir gan y cyngor yn cynyddu, sydd efallai'n awgrymu nad yw AIC yn ddigon sensitif i nodi cynnydd bach ymhlith eu sampl.

- Nodwyd y mangreoedd gwelyau haul heb oruchwyliaeth, a gofynnwyd iddynt ddarparu asesiad risg i ddangos arfer da. Arolygwyd Iechyd a Diogelwch 100% o fusnesau risg uchel yn ystod 2010/11, a oedd yn welliant ar ganlyniad 2009/10 (62%).

**Sut rydym wedi'i wneud a beth oedd barn panel *Lleisiau Abertawe*'?**

- Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth gyflwyno'r flaenoriaeth hon a'r camau gweithredu a amlinellwyd yng Nghynllun Gwella y llynedd; mae'r mesurau llwyddiant perthnasol yn dangos yn fras y cafwyd gwelliant neu y maent wedi cyrraedd y targed. Yr eithriadau oedd trosglwyddo gofal, cleientiaid 65+ oed a gefnogir yn y gymuned (gweler blaenoriaeth 9) ac oedolion sy'n cyflawni 5 x 30 munud o weithgaredd corfforol yr wythnos (gweler uchod). Teimlai 23% o ymatebwyr Lleisiau Abertawe fod y cyngor wedi bod yn llwyddiannus iawn neu'n eithaf llwyddiannus wrth helpu pobl i fyw bywyd iachach. Teimlai 28% fod y cyngor heb fod yn llwyddiannus nac yn aflwyddiannus. Teimlai 23% fod y cyngor wedi bod yn eithaf aflwyddiannus neu'n aflwyddiannus iawn. Dywedodd 26% nad oeddent yn gwybod sydd, yn ôl pob tebyg, yn adlewyrchu na fyddai'r holl banelwyr yn defnyddio gwasanaethau hamdden neu wasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd/gofal cymdeithasol yn rheolaidd.

**Dangosyddion Llwyddiant Perthnasol (Gweler Atodiad B)**

- **SCA001 –** oedi wrth drosglwyddo gofal
- **SCA003a –** cleientiaid 18 i 64 oed sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned
- **SCA003b –** cleientiaid 65+ oed sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned
- **SCA007 –** adolygiadau cynlluniau gofal yn ystod y flwyddyn
- **CTCH1 –** oedolion yn cyflawni 5 x 30 munud o ymarfer corff bob wythnos
- **LCS002 –** ymweliadau i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol mewn canolfannau hamdden a gynhelir gan y cyngor
- **PPN001iv –** busnesau risg uchel yn cael eu harchwilio ar gyfer iechyd a diogelwch

# Pennod 2 - Gweithgaredd Gwella 2010/11

Mae'r bennod hon yn amlygu rhai o'n cyflawniadau arwyddocaol yn ystod 2010-2011. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd wedi'i grwpio'n themâu a nodwyd yn Strategaeth Gymunedol Abertawe.

Gweler Atodiad A i gael mwy o wybodaeth am sut mae'r gweithgaredd gwella hwn yn cyflwyno agweddau gwahanol ar wella.

## Yr Amgylchedd

**Casgliadau ailgylchu a gwastraff**
Yn 2009/10, claddwyd bron 83,000 tunnell o wastraff mewn safleoedd tirlenwi, ond mae'n debygol y gallai dros hanner ohono fod wedi cael ai ailgylchu mewn rhyw ffordd. Yn 2010/11, helpodd trigolion Abertawe i godi'r ganran ailgylchu o ychydig dros 37% yn 2009/10 i ychydig dros 40%. Fodd bynnag, mae llawer i'w wneud o hyd i gyrraedd y targed ailgylchu o 75% erbyn 2025. Byddai cyrraedd y targed hefyd yn arbed y cyngor rhag talu biliau'r dreth dirlenwi.

**Cewynnau Go Iawn**
Parhaodd y cyngor i helpu i hyrwyddo newid i gewynnau go iawn. Mae plentyn yn defnyddio oddeutu 5,000 o gewynnau tafladwy mewn dwy flynedd a hanner am gost o oddeutu £1,200. Mae'r cyngor yn trefnu cynllun talebau sy'n rhoi £50 i rieni tuag at gost prynu cewynnau go iawn.

**Casglu gwastraff swmpus**
Cyflwynwyd cynllun ailgylchu newydd yn 2010/11 i ailgylchu gwastraff cartref swmpus gan gynnwys soffas a chypyrddau dillad diangen a'u hatal rhag mynd i safleoedd tirlenwi.

Datblygwyd y Tîm Gweithredu Gwastraff (SWAT) gan Gyngor Abertawe i helpu i ddosbarthu oddeutu 600 tunnell o gasgliadau gwastraff swmpus o gartrefi pobl yn ystod y flwyddyn.

Mae'r tîm newydd yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth o Wasanaeth Datblygu Gwaith Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor.

Mae'r cynllun hwn yn rhoi adnoddau i'r cyngor i helpu i ailwampio ac ailgylchu peth o'r celfi sy'n cael ei gasglu o gartrefi pobl.

**Hyrwyddwyr Gwyrdd**
Swm y gwastraff a gynhyrchwyd gan staff y cyngor yn y Ganolfan Ddinesig yn 2009/10 oedd 146 o dunelli, yr oedd 33% ohono wedi'i anfon i'w' dirlenwi. Mae'r rhan fwyaf o'r gwastraff a gynhyrchir gennym yn y gwaith yn wastraff papur, a gellir ei ailgylchu'n hawdd mewn sachau gwyrdd.

Gosodwyd biniau ailgylchu newydd yn holl swyddfeydd y Ganolfan Ddinesig, Neuadd y Ddinas a Phenllergaer. Ers cyflwyno'r biniau, mae swm y gwastraff a gynhyrchwyd yn y Ganolfan Ddinesig hyd yma wedi **lleihau 5 tunnell.**

I helpu i hyrwyddo'r neges ailgylchu i'r holl staff, aeth Cyngor Abertawe ati i ddod a grŵp o Hyrwyddwyr Gwyrdd at ei gilydd. Prif ddiben y grŵp hwn yw annog eu cydweithwyr i ailgylchu mwy a lleihau swm y sbwriel maent yn ei gynhyrchu pan fyddant yn y gwaith.

**Ymgyrch Hyrwyddol**
Ymgymerwyd ag ymgyrch hyrwyddol dwy flynedd yn ystod 2009/10 a 2010/11.

Aeth y Tîm Ailgylchu i dros 170 o ddigwyddiadau gwahanol dros y cyfnod er mwyn hyrwyddo'r gwasanaeth a chasgliadau bob yn ail wythnos. Y digwyddiadau mwyaf effeithiol oedd digwyddiadau gwybodaeth a gynhaliwyd mewn archfarchnadoedd a chanol y ddinas.

Roedd yr ymdrechion i gynyddu ailgylchu hefyd yn cynnwys ymgyrchoedd curo ar ddrysau wedi'u targedu, gwaith a wnaed gydag ysgolion lleol i hybu'r neges ailgylchu a sefydlu siop gyfnewid ar-lein, sy'n galluogi'r cyhoedd i hysbysebu, pori, cyfnewid neu gael eitemau a fyddai fel arall yn ddiangen.

**Gwobr y Ddraig Werdd i'r Gwasanaethau Adeiladu Corfforaethol**
Roedd Tîm Gwasanaethau Adeiladu Corfforaethol Cyngor Abertawe yn un o naw sefydliad yn unig yng Nghymru i gyflawni Lefel 5, y lefel uchaf bosib yng nghynllun wobrau'r Ddraig Werdd, cynllun sy'n ystyriol o'r amgylchedd. Cyflwynwyd tystysgrif arbennig i'r tîm ym mis Mai 2010 gan Jane Davidson, Gweinidog Llywodraeth Cymru dros yr Amgylchedd, Cynaladwyedd a Thai.
Roedd y tîm o 600 wedi lleihau ei wastraff 44%, lleihau ei ddefnydd o ynni yn sylweddol o 32% a hybu ei gyfradd ailgylchu i 70%.

**Yr Amgylchedd Naturiol**
Mae swm anferth o fuddsoddiad wedi'i roi i agor yr ardaloedd cefn gwlad o gwmpas Abertawe i drigolion ac ymwelwyr, a'u galluogi i fwynhau harddwch naturiol yr ardaloedd ar draws y ddinas.

**Gwelliannau i Hawliau Tramwy**
Mae'n bosib mai Gŵyr yw'r atyniad pennaf i lawer o gerddwyr o bob cwr o Brydain. Ond mae mwy i'w gael yn sgîl ymdrechion Tîm Mynediad Cefn Gwlad Cyngor Abertawe yn 2010/11. Maent wedi gweithio gyda grwpiau cerdded lleol, gan gwblhau gwaith i ailgyflwyno hawliau tramwy er budd pawb.

Mae llwybrau a gafodd eu hesgeuluso dros amser a'u goresgyn gan chwyn a mieri bellach wedi'u clirio a'u dychwelyd i'r cyhoedd. Yn 2010, roedd y cyngor ar fin dechrau trydedd flwyddyn o welliannau gan ddefnyddio arian grant gan Lywodraeth Cymru. Mae gan Ddinas a Sir Abertawe oddeutu 385 o filltiroedd o lwybrau troed a llwybrau ceffyl i bobl eu defnyddio. Mae rhai mewn cyflwr da ac mae eraill wedi'u rhwystro dros y blynyddoedd.

Mae un o'r prif welliannau wedi cynnwys disodli pont sydd wedi'i defnyddio'n helaeth yng Ngwarchodfa Natur Cwm Clydach yr RSPB, a oedd wedi cwympo'n rhannol. Mae gwelliannau eraill wedi cynnwys 1 km o lwybr ceffyl ger Rhydypandy, na fu modd mynd ar ei hyd am y 50 mlynedd ddiwethaf.

Cafodd Cyngor Abertawe grant gwerth £58,000 gan Lywodraeth Cymru yn 2010/11 i helpu gyda hyn. I helpu pobl i fanteisio i'r eithaf ar hawliau tramwy cyhoeddus, lluniwyd llyfryn i roi arweiniad ar bob agwedd ar hawliau tramwy, gan gynnwys ble i ddod o hyd iddynt.

**Bioamrywiaeth**

Cynhaliwyd gwyliadwriaeth gefnfor ac archwiliad bioamrywiaeth 24 awr i gatalogio planhigion ac anifeiliaid yng Ngwarchodfa Natur Coed yr Esgob yn Caswell a'r llwybr arfordirol cyfagos ym mis Mai.

Gwahoddwyd pobl o bob oed i gymryd rhan ac ymuno ag arbenigwyr i roi rhestr ynghyd o rywogaethau'r glaswelltir a'r coetir yn ogystal â bywyd yr arfordir a'r mor ar hyd y draethlin. Ymhlith y digwyddiadau a drefnwyd roedd chwilio am ystlumod, gloÿnnod byw, gwyfynod, adar côr y bore bach, cennau, coed llwyfen, corynnod, gwymon a physgod y glannau.

Roedd y digwyddiad yn cyd-fynd â Diwrnod Bioamrywiaeth Rhyngwladol ac fe'i drefnwyd gan Tîm Natur a Chadwraeth Cyngor Abertawe a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Abertawe.

Roedd y digwyddiad yn un o ddau yn unig yng Nghymru a dyma'r tro cyntaf y gwnaed rhestr o rywogaethau Coed yr Esgob a'r draethlin gyfagos.

**Llwybr Arfordir Gŵyr**

Ym mis Medi 2010, cwblhawyd rhan 16 milltir o lwybr arfordirol newydd Gŵyr rhwng Llanmadog a Phorth Einon.

Ers blynyddoedd mae cerddwyr o bedwar ban byd wedi dod i Benrhyn Gŵyr i fwynhau'r golygfeydd trawiadol o rai o'r ardaloedd arfordirol gorau ym Mhrydain. Ond ni fu erioed llwybr arfordirol a ddynodwyd yn swyddogol a oedd yn cadw at yr arfordir ei hun yr holl ffordd.

Ar ôl cwblhau'r cyfan, bydd Llwybr Arfordir Gŵyr yn ymestyn am bron 40 milltir o'r Mwmblws yn y de i Crofty yn y gogledd ar hyd Bae y Tri Chlogwyn, Porth Einon, a Llanmadog. Bu aelodau o Gerddwyr Gorllewin Morgannwg yn rhan o'r gwaith i adeiladu rhai o'r llwybrau newydd.

Mae Llwybr Arfordir Gŵyr yn rhan o uchelgais Llywodraeth Cymru i greu llwybr o gwmpas arfordir cyfan Cymru drwy ei Rhaglen Gwella Mynediad i'r Arfordir. Mae'r prosiect wedi'i ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop - Cydgyfeirio .

Mae'r gwaith wedi cynnwys disodli camfeydd â gatiau a chyfeirbyst. Mae rhan newydd hefyd rhwng Tor Cwm Ivy a Delvid. Mae'r llwybr hwn wedi cael ei ddefnyddio'n anffurfiol ers blynyddoedd lawer, ond mae bellach yn llwybr troed swyddogol gyda hawl gyfreithiol i gerdded arno.

**Parciau a Mannau Agored Abertawe**
Cydnabuwyd parciau Abertawe yn 2010/11 am eu cyfraniad at gymunedau lleol, ac roeddent hefyd wedi elwa yn sgîl buddsoddiad sylweddol.

**Baneri Gwyrdd i Barciau Abertawe**
Dyfarnwyd Statws y Faner Werdd i barciau Abertawe yn 2010/11 am eu glanweithdra'r a safon eu cyfleusterau.

Y pedwar parc oedd Parc Brynmill, Gerddi Clun, Gerddi Botaneg Singleton a Pharc Victoria.

**Baneri Glas a Gwobrau Glan Môr i draethau Abertawe.**
Dyfarnwyd statws y Wobr Glan Môr a'r faner Las i bedwar traeth yn Abertawe yn 2010/11 - Langland, Caswell, Bracelet a Porth Einon. Cafodd Limeslade hefyd y Wobr Glan Môr Wledig.

**Gwobrau'r Arfordir Glas**
Enillodd Rhosili, Bae Tor, Mewslade a Phwll Du Wobrau Arfordir Glas.

**Gwelliannau i Barciau a Mannau Agored**

Gwariwyd yn agos i £480,000 ar barciau yn ardaloedd mwy difreintiedig Abertawe i roi profiad gwell i'r trigolion a gwella eu hansawdd bywyd. Roedd ardaloedd gemau amlddefnydd, ardaloedd chwarae ac antur, mannau i gicio pêl a chyfleuster pêl-fasged ymhlith y nodweddion a gyflwynwyd yn ogystal â llwybrau, biniau a meinciau newydd.

Roedd Parc Victoria, Parc Cwmbwrla, Parc Cwmrhydyceirw a Pharc Cwm Lefel i gyd wedi elwa yn ogystal â mannau agored cymunedol yn y Clâs a Townhill/Mayhill.

Cafodd y gwelliannau hyn eu cynnwys yn ‘Adizone’ cyntaf Cymru - cyfleuster ffitrwydd ac amlgamp wedi'i noddi gan Adidas. Sefydlwyd hwn yn Ysgol Pentrehafod

Un elfen allweddol o'r gwelliannau oedd y prosiect 'Rhoi Bywyd i Barc Llywelyn', a oedd yn enghraifft wych o gydweithio llwyddiannus rhwng Dinas a Sir Abertawe a'r grŵp gwirfoddol, Cyfeillion Parc Llewelyn. Roedd y cynllun yn cynnwys sawl gwelliant yn costio dros £100,000, a luniwyd i annog mwy o gyfranogiad cymunedol yn y parc, ac mae'n dilyn ymgynghori helaeth a phobl a grwpiau yn yr ardal gyfagos. Gwnaed y prosiect yn bosib drwy arian gan Llywodraeth Cynulliad Cymru, Dinas a Sir Abertawe a Chyfeillion Parc Llewelyn.

## Plant a Phobl Ifanc

**Lansio Bws Chwarae Newydd**
Gall miloedd o blant Abertawe fanteisio i'r eithaf ar hwyl o'r radd flaenaf yn sgîl lansio'r Bws Chwarae newydd yn 2010/11.

**Y Bws Chwarae Newydd a'r Gwibfws Ieuenctid**
Tîm Chwarae Cyngor Abertawe sy'n gyfrifol am y Bws Chwarae newydd a lansiwyd yn 2010/11, ar ôl cael hwb ariannol gwerth £160,000 gan y Gronfa Loteri Fawr a Cymorth.

Mae'r Bws Chwarae'n teithio i gymunedau ar draws Abertawe ac yn targedu plant mewn ardaloedd dan anfantais yn bennaf a rhannu o'r Ddinas a'r Sir lle nad oes llefydd chwarae neu lle maent yn gyfyngedig iawn.

Enw'r bws yw *Chwarae ar Olwynion* ac mae'n cynnwys cyfleusterau megis barrau mwnci, goleuadau disgo a pheiriant karaoke. Ceir cegin a thoiled ar y bws ac mae digon o le ar gael i blant i chwarae gyda chyfarpar hwyl.

Pleidleisiodd plant o flwyddyn saith a deg yn Ysgol Gyfun Gŵyr am yr enw *Chwarae ar Olwynion* ar gyfer y bws, a dewiswyd dyluniad ganddynt a oedd yn cynnwys gwaith celf lliwgar a lluniau o blant yn cael hwyl.

Cafwyd pob un o'r enwau posib a'r dewisiadau dylunio ar gyfer y bws yn dilyn ymgynghoriad helaeth â phlant ysgol ledled Abertawe. Un o'r nodweddion hwyl ychwanegol yw llithren y gellir ei chysylltu ag ochr y cerbyd a fydd yn caniatáu i blant lithro oddi ar y bws.

Roedd y lansio'n cyd-fynd â dadorchuddio'r *Gwibfws Ieuenctid Gwledig*, cerbyd sy'n ymweld â chymunedau gwledig Abertawe, i gynnig mynediad i bobl ifanc i gyfleoedd dysgu anffurfiol a lle i gwrdd.

**Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**
Roedd 2010/11 yn flwyddyn heriol i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Yn ogystal â gweithio'n galed â phartneriaid i gyflawni'r gwelliannau a nodwyd gan arolygiadau blaenorol, cafwyd ymdrech fawr hefyd fel rhan o'r gwaith hwn o recriwtio mwy o Ofalwyr Maeth i helpu i ofalu am blant y mae angen gofal arnynt.

**Ymgyrch i Recriwtio Gofalwyr Maeth**
Lansiodd Tîm Maethu Abertawe *Cyngor Abertawe* ymgyrch recriwtio ym mis Mai i annog pobl o bob cefndir i gymryd rhan a dod yn ofalwyr maeth. Roedd yr ymgyrch *'Gwneud Byd o Wahaniaeth....Maethu!*' yn amlygu'r ffyrdd gwahanol y gallai pobl helpu, gan gynnwys dod yn ofalwyr rhan-amser neu seibiant er mwyn rhoi hoe i rieni ac felly eu helpu i gadw teuluoedd gyda'i gilydd.

Mae'r cynllun *Seibiannau Cefnogaeth Abertawe* wedi bod ar waith ers 2005, ac mae'n recriwtio gofalwyr sy'n gallu cynnig seibiant i blant y mae angen hynny arnynt. Mae Gofal Cefnogi yn cynnig ymyriad atal sy'n ceisio osgoi gwahanu teuluoedd am gyfnodau tymor hir. Mae'n darparu seibiannau dydd, gyda'r hwyr, dros nos neu benwythnos sy'n diwallu anghenion teuluoedd unigol. Yn 2010/11, roedd chwe theulu gofal cefnogi a oedd yn cynnig seibiannau gyda *Maethu Abertawe.*

Ar y llaw arall, roedd cynllun maethu newydd Abertawe, *Gofal Maeth Therapiwtig* ar gyfer pobl oedd â'r profiad, y cymwysterau a'r gallu i ofalu am bobl ifanc y mae eu hymddygiad yn heriol ac yn anodd a'u cynghori. Mae gan y cynllun arbenigol dîm therapiwtig arbenigol sy'n darparu cefnogaeth benodol i ofalwyr.

## Diogelwch Cymunedol

Dathlodd Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Abertawe ei 10fed pen-blwydd yn 2010/11, gan helpu i wneud ein dinas yn lle mwy diogel.

**Ffigurau Troseddau Ieuenctid yn gostwng**

Ers 2000, mae troseddau ieuenctid wedi gostwng mwy na 70%, gyda'r gostyngiadau mwyaf o ran dwyn ceir, byrgleriaeth o gartrefi a throseddu treisgar difrifol.

Roedd nifer yr achosion o aildroseddu gan bobl ifanc yn Abertawe yr adroddwyd amdanynt yn ystod 2010/11 ymhlith yr isaf yng Nghymru a Lloegr. Roedd nifer y troseddwyr ifanc mynych wedi gostwng 90%.

Daeth y gwelliannau o ganlyniad i'r gwaith agos rhwng y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac asiantaethau partner, pobl ifanc a gwirfoddolwyr. Mae'r Ynadon yn Llys Ieuenctid Abertawe hefyd wedi chwarae rhan sylweddol yn hyn o beth.

Roedd y ffigurau a oedd ar gael yn 2010/11 yn dangos bod nifer y bobl ifanc a oedd yn cael eu hanfon i'r ddalfa gan y llysoedd wedi gostwng yn fwy yma nag yn unrhyw le arall yn y wlad.

Canlyniad mesurau atal a gweithio gyda rhieni oedd gostyngiad o 55% yn nifer y rhai a oedd yn dod i'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf.

Roedd y gwaith a oedd yn cael ei wneud yn Abertawe hefyd wedi dal sylw'r Swyddfa Gartref yn Llundain. Nodwyd y Ddinas a'r Sir gan y Swyddfa Gartref fel un o'r enghreifftiau gorau o sut i fynd i'r afael â throseddau ieuenctid a'u hachosion.

## Addysg

Parhaodd rhaglen Addysg o Safon (AoS) 2020 y cyngor â'i nod i wella ansawdd ysgolion ein dinas a sicrhau bod pob punt bosib yn cael ei gwario ar ddisgyblion, drwy gydol 2010/11.

**Rhaglen Addysg o Safon (AoS) 2020**

Mae rhaglen AoS 2020 yn ymwneud â chodi safonau cyflawniad a chyrhaeddiad yr holl blant a phobl ifanc, gwella ansawdd yr amgylchedd dysgu a gwneud y defnydd gorau posib o adnoddau dynol, ffisegol ac ariannol.

Mae ysgolion yn Abertawe wedi cyflawni rhai o'u canlyniadau arholiadau gorau dros y flwyddyn ddiwethaf. Dengys ystadegau hefyd fod plant yn elwa oherwydd eu hamser yn y dosbarth, gyda mwy na 99% yn gadael yr ysgol gyda chymwysterau a gostyngiad sylweddol yn y nifer sy'n NEET.

Yn 2010/11, agorwyd blociau Blynyddoedd Cynnar wedi'u dylunio i'r diben yn ysgolion cynradd Llanrhidian, Pontarddulais a Waunarlwydd, fel rhan o raglen AoS 2020. Mae rhaglen lwyddiannus yr awdurdod i sefydlu darpariaeth gynhwysol mewn ysgolion hefyd wedi parhau. Dechreuodd waith ar gynllun ailwampio gwerth £10m yn Ysgol Gyfun Cefn Hengoed ym Monymaen, sy'n cynnwys gwaith i wella'r cyfleusterau cymunedol ar y safle. Gyda'r prosiect hwn, a chaiff ei gwblhau yng Ngwanwyn 2012, bydd dosbarthiadau mwy a chyfoes yn cael eu creu ynghyd ag ardaloedd dysgu hyblyg a chyfleusterau TG cyfoes. Defnyddiwyd buddsoddiad cyfalaf o bron £23m i ddarparu adeiladau a chyfleusterau newydd yn Ysgol Gyfun Treforys hefyd. Yn ogystal, cyhoeddodd Cyngor Abertawe y byddai'n gwario oddeutu £2.45m yn fwy ar brosiectau sy'n amrywio o ystafell arlwyo newydd yn Ysgol Tregŵyr, i welliannau i'r boelerdy yn ysgolion cynradd San Helen a Phortmead.

Parhaodd y cyngor i fynd i'r afael â nifer y lleoedd dros ben yn ein hysgolion, gan wario arian buddsoddi wedi'i dargedu ar yr adeiladau ysgol â'r angen mwyaf arnynt am hyn. Cyflwynwyd sawl cynnig statudol a fu'n destun ymgynghoriad ffurfiol. Er enghraifft, bydd cyfuno Ysgol Fabanod y Graig, Ysgol Fabanod Pentrepoeth ac Ysgol Iau Pentrepoeth yn lleihau nifer y lleoedd cyfrwng Saesneg dros ben yn yr ardal hon. Mae'n darparu ymhellach y cyfle i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer addysg Gymraeg trwy agor YGG Tan-y-lan ym mis Medi 2011 ar hen safle Ysgol Fabanod y Graig. Cymerwyd penderfyniadau anodd eraill hefyd yn ystod 2010/11, megis cau Ysgol Gymunedol Daniel James, yr oedd nifer o faterion eraill wedi dylanwadu arno, gan gynnwys pryderon am ddeilliannau disgyblion yn CA3 (11 i 14 oed) a CA4 (14 i 16 oed), a'r ysgol yn cael ei roi ar Fesurau Arbennig yn dilyn arolygiad Estyn yn 2010. Serch hynny, erys her sylweddol y mae'n rhaid mynd i'r afael â hi, a bydd yr awdurdod yn parhau i bwysleisio'r achos am gael mynediad i'r arian cyfalaf angenrheidiol.

**Diwylliant a Thwristiaeth**
Dangosodd ffigurau a ryddhawyd yn 2010/11 mai Llyfrgell Ganolog Abertawe oedd yr orau yng Nghymru (a'r 6$^{ed}$ mwyaf prysur yn y DU) o ran nifer yr eitemau a fenthycwyd. Roedd staff yn yr atyniad yn y Ganolfan Ddinesig wedi rhoi benthyg dros 590,000 o lyfrau, CD a DVD o fis Ebrill 2009 i fis Mawrth 2010, a chroesawyd bron hanner miliwn o bobl yno.

Mae angen ailddatblygu Oriel Gelf Glynn Vivian. Nod y rhaglen yw atgyweirio a chadw ffabrig yr adeilad presennol o 1911, gan wella ei leoliad yn sylweddol, datrys problemau'n ymwneud â mynediad corfforol a gwella mynediad deallusol i'r casgliadau. Llwyddodd y cyngor i sicrhau arian gan Lywodraeth Cymru i ychwanegu at yr arian a ddyrannwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Abertawe i sicrhau bod y prosiect hwn yn cyflwyno oriel gelf ddinesig â chylch gwaith rhanbarthol. Mae'r gwaith diweddaru hwn yn dilyn astudiaeth dichonoldeb ac ymgynghoriad cyhoeddus â sefydliadau lleol.

## Yr Economi
Dychwelodd Gŵyl Haf Bae Abertawe a drefnwyd gan Ddinas a Sir Abertawe a'i bartneriaid yn 2010/11 am yr 11$^{eg}$ flwyddyn.

Daeth rhai o feicwyr gorau'r byd i Abertawe yn 2010/11 wrth i'r ddinas gynnal diwedd yr unig ran o'r digwyddiad rhyngwladol mwyaf o'i bath a'r mwyaf nodedig ym myd beicio Prydain a gynhaliwyd yng Nghymru, sef ras flynyddol Taith Prydain.

Datblygwyd cynlluniau yn 2010/11 ar gyfer y Rhodfa ar hyd coridor Heol Ystumllwynarth i helpu i lyfnhau llif y traffig a galluogi cysylltiadau gwell i gerddwyr a beicwyr rhwng Canol y Ddinas a'r glannau.

Cafwyd hwb ariannol o Ewrop gwerth miliynau o bunnoedd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu parc busnes ar hen safle diwydiannol yn Felindre.

Gwnaed gwelliannau i Gestyll Abertawe ac Ystumllwynarth i'w cadw i genedlaethau'r dyfodol ac ar gyfer trigolion a thwristiaid.

**Gŵyl Haf Bae Abertawe**
Mae Cyngor Abertawe'n trefnu ymgyrch farchnata digwyddiadau Gŵyl Haf Bae Abertawe. Mae hwn yn bennaf yn ymgyrch farchnata i ymwelwyr dydd ac mae'n ategu'r cynlluniau marchnata cyrchfan twristiaeth cyffredinol â'r nod o gynyddu nifer yr ymwelwyr. Mae'r ymgyrch farchnata ymbarél hon yn amlygu'r amrywiaeth mawr o ddigwyddiadau gwych sy'n cael eu cynnal yn Abertawe rhwng mis Mai a mis Medi.

Roedd *Gerddi Clun yn eu Blodau* ymhlith yr atyniadau a helpodd i ddechrau Gŵyl Bae Abertawe. Parhaodd y digwyddiad drwy gydol mis Mai gan gynnig cyfle i ymwelwyr weld rhododendronau ac asaleas arobryn Parc y Clun yn eu holl ogoniant.

Roedd ras hwyl 5k Bae Abertawe yr LC yn ras wedi'i threfnu, ar hyd arfordir trawiadol Abertawe i Lido Blackpill Cynhaliwyd Diwrnodau Llynges y Mwmbwls, a drefnwyd gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls, yng Ngerddi Southend, ac roeddent yn cynnwys adloniant dyddiol i blant, cerddoriaeth fyw ac arddangosfa o longau. Cynhaliwyd Gŵyl Gerdded Gŵyr ym mis Mehefin a chynhaliwyd Gŵyl Werin Gŵyr yng Nghanolfan Dreftadaeth Gŵyr, Parkmill.

*Dychwelodd* 'Escape in the Park' hefyd i Barc Singleton ym mis Mehefin. Mae'r digwyddiad wedi blodeuo'n un o'r gwyliau cerddoriaeth electronig mwyaf yng Nghymru, ac unwaith eto roedd yn cynnwys rhai o berfformiadau dawns a cherddoriaeth gorau'r byd, gan gynnwys Judge Jules.

Perfformiwyd un o glasuron Dickens sef *Great Expectations* ar diroedd castell hanesyddol Ystumllwynarth. Cyrhaeddodd Sioe Gychod De Cymru ddoc Tywysog Cymru yn SA1 ym mis Mehefin. Roedd y digwyddiad yn cynnwys dros 150m o arddangoswyr a 200 o gychod.

Parhaodd yr ŵyl drwy gydol yr haf, gyda hyd yn oed mwy o ddigwyddiadau ac arddangosfeydd, gan gynnwys *Proms yn y Parc* y BBC a gynhaliwyd ym Mharc Singleton.

**Parc Busnes Felindre**
Rhoddwyd hwb ariannol o Ewrop gwerth miliynau o bunnoedd gan Lywodraeth Cymru i gynlluniau i ddatblygu parc busnes ar hen safle diwydiannol yn Abertawe.

Bydd y buddsoddiad gwerth £11.7m yn helpu i adfywio hen safle gwaith dur Felindre yn barc busnes strategol gyda'r gallu i gyflogi cannoedd o bobl. Y nod yw creu amgylchedd hygyrch o ansawdd uchel i fusnesau a'r gallu i ddenu buddsoddiad i'r rhanbarth a chreu mwy o gyfleoedd swyddi.

Anelwyd yr arian at ddarparu gwaith isadeiledd hanfodol i sicrhau ei fod yn cael ei ddatblygu fel prif leoliad ar gyfer busnesau, gan gynnig canolfan o safon i brosiectau sy'n datblygu a chwmnïau ifanc sydd â'r potensial i dyfu.

**Rhodfa Newydd**
Yn 2010/11, dechreuwyd prosiect gwerth miliynau o bunnoedd i adfywio coridor Heol Ystumllwynarth o bontydd afon Tawe i'r LC.  Mae'r prosiect yn ymwneud â chyflwyno rhodfa gydag amgylchedd gwell a llif traffig mwy llyfn drwy newid dilyniant y goleuadau traffig a lleihau nifer y cerbydau sy'n troi i Barêd y Cei, Heol Victoria a Heol Ystumllwynarth. Bwriad Prosiect y Rhodfa yw gwneud profiadau modurwyr, cerddwyr, beicwyr a siopwyr y ddinas yn well nag erioed o'r blaen drwy osod mannau croesi gwell mewn lleoliadau allweddol i ganiatáu mynediad hwylus rhwng y glannau a siopau canol y ddinas.  Mae tanffordd Heol Victoria wedi'i llenwi a chroesfan newydd i gerddwyr wedi'i gosod ym mhen isaf Stryd y Gwynt i gyd-fynd â threfniadau traffig newydd i wasanaethu'r Ardal Forol, Stryd y Gwynt a'r Strand.

Mae Prosiect y Rhodfa yn rhan o raglen waith ehangach wedi'i hariannu gan Ewrop i gefnogi adfywio canol y ddinas. Mae hefyd wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Abertawe. Mae'r rhaglen yn cynnwys cynlluniau eraill i wella'r llwybr beicio a'r llwybr troed rhwng y Ganolfan Ddinesig a'r hen arsyllfa ar lan y môr, a'r gwaith ar lannau afon Tawe sydd wedi'i gwblhau.  Bydd golwg ardal fanwerthu Stryd Rhydychen Isaf yn cael ei wella, gan adeiladu ar ei henw da am fasnachu annibynnol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys gosod palmentydd stryd, celfi stryd ac arwyddion o safon ar Stryd Singleton, Stryd Dilwyn, Ffordd y Gorllewin, Stryd Plymouth a rhan o Stryd Rhydychen.

**Pencampwriaeth Flynyddol Taith Prydain y Byd Beicio Proffesiynol**

Daeth trydydd cymal ras feicio flynyddol Taith Prydain i ben yn y ddinas ym mis Medi 2010 pan roedd Ffordd y Brenin yn debyg i'r Champs-Élysées yn y Tour de France.

Mae rhai o'r beicwyr gorau ar y blaned wedi cystadlu yn Nhaith Prydain yn y gorffennol. Mae Mark Cavendish ac Andy Schleck ymhlith y sêr sydd wedi cymryd rhan ers i'r ras gael ei hailgyflwyno yn 2004.

Roedd oddeutu 100 o feicwyr o 17 o dimau gwahanol wedi cymryd rhan yn y digwyddiad. Roedd rhai o feicwyr gorau'r byd yn cymryd rhan, gan gynnwys André Greipel a Tony Martin ac enillwyr enwog medalau aur y gemau Olympaidd, Bradley Wiggins a Geraint Thomas.

Dechreuodd trydydd cymal y daith yn y Drenewydd. Teithiodd y beicwyr drwy ogledd Abertawe cyn gwneud eu ffordd i ganol y ddinas drwy'r Hafod a Dyfaty. Aeth y daith wedyn drwy ardaloedd megis Stryd y Berllan, Heol San Helen a Heol Walter cyn i'r beicwyr fynd ati i daclo'r llethr didrugaredd i fyny Constitution Hill, y stryd fwyaf serth i feicwyr ei thaclo yn hanes y digwyddiad. Digwyddodd y gwibio tua'r diwedd ar Ffordd y Brenin lle roedd torfeydd wedi ymgasglu i gefnogi'r beicwyr.

Enillwyd cymal Abertawe o'r ras gan y gŵr o'r Swistir, Michael Albasini o Dîm HTC-Highroad, y tîm y mae Mark Cavendish yn ei arwain ar hyn o bryd.

**Gwelliannau i Gastell Abertawe**

Mae Castell Abertawe, a ddaeth i'r amlwg yn y ddinas 900 mlynedd yn ôl, wedi cael y sylw oedd yn ddyledus fel tirnod a chyrchfan pwysig fel rhan o brosiect dan arweiniad Cyngor Abertawe a Llywodraeth Cymru.

Nod y prosiect oedd bod Castell Abertawe'n dod yn gyrchfan amlwg i ymwelwyr a allai helpu i ddathlu diwylliant ac iaith Cymru ymhlith twristiaid a'r gymuned leol. Y bwriad hefyd yw y bydd yn sylfaen ar gyfer cynigion adfywio yn y dyfodol ar gyfer Stryd y Castell a Worcester Place, gan greu 'Ardal y Castell', yn ogystal â photensial ystafelloedd y llawr gwaelod at ddefnydd masnachol yn y dyfodol.

Dechreuodd gwaith yn 2010/11 yn sgîl gwerth £165,000 o arian grant gan y Cynulliad Cenedlaethol a Cadw. Symudwyd malurion o ddatblygiadau mwy diweddar i ddatgelu beili canoloesol ac un diweddarach a ddaeth i'r amlwg drwy gloddiadau prawf.

Tacluswyd yr ardaloedd o laswellt i'w gwneud yn fwy deniadol, ac mae cynllun goleuadau wedi helpu i amlygu'r castell. Ffocws arall i'r prosiect oedd datgelu dirgelion archeolegol y castell a'u rhannu â'r gymuned leol.

**Gwella a Chadwraeth Castell Ystumllwynarth**
Saif yr heneb gofrestredig hon o'r 12fed ganrif, sydd hefyd yn adeilad rhestredig gradd 1, mewn parcdir ar ffin ardal Gŵyr, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, ac mae'n safle sy'n borth i gestyll Gŵyr.

Mae angen gwaith cadwraeth sylweddol ar y castell, gan wella a chynyddu mynediad drwy'r adeilad a'r tiroedd a datblygu cyfleuster ymwelwyr pwrpasol er mwyn gwella profiad ymwelwyr.

Cyfanswm cost y prosiect i gadw a gwella'r castell yw £2,643,000. Darparwyd arian gan grant Gronfa Dreftadaeth y Loteri o £764k, cyfraniad o £400k gan Cadw, arian cydgyfeirio gwerth £585k a chyfraniad y cyngor ei hun, sef £557k. Cafwyd cyfraniad mewn nwyddau o £6k hefyd gan Gyfeillion Castell Ystumllwynarth.

Dechreuodd cam 1 y prosiect 4 blynedd ym mis Medi 2010. Roedd gwaith cam 1 yn cynnwys yr atgyweiriadau mwyaf brys i'r waliau, gwelliannau i'r mynediad i ymwelwyr, cyfleusterau cyhoeddus gwell a phrofiadau ymwelwyr gwell megis y ganolfan i ymwelwyr newydd a llwybr gwydr uchel. Bwriedir cwblhau cam 1 y gwaith ac ailagor y castell yn rhannol ar gyfer yr haf 2011.

**Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Twristiaeth Arfordirol**
Nodwyd Abertawe gan Croeso Cymru fel un o'r tair Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Twristiaeth Arfordirol yng Nghymru. Nod y prosiect yw datblygu arfordir bywiog a chryfhau enw da Abertawe ymhellach fel cyrchfan glan môr o'r radd flaenaf i dwristiaid.

Ariennir y cynllun gan grant Cydgyfeirio gwerth £1.083m, Grant AAS Llywodraeth Cymru o £320k, cyfraniad datblygwyr at newid toiledau Victoria, £150k a mân grantiau a chyfraniadau £86k. Daw gweddill y cyfraniad gan Ddinas a Sir Abertawe drwy gyfraniadau refeniw ac arian cyfatebol mewn nwyddau.

Mae'r prosiect yn cynnwys datblygu cyfleuster chwaraeon dŵr yn San Helen a gwelliannau mynediad amgylcheddol arfordirol i hwyluso mynediad i'r traeth a'r môr; gwelliannau i'r llithrfa a'r cyfleusterau i ymwelwyr yn Knab Rock; ailwampio'r Olga - un o un ar ddeg o longau ysgafn peilot sydd yn y byd a gwelliannau i bontŵn Marina Abertawe. Caiff y rhain eu cefnogi hefyd dros gyfnod o 4 blynedd.

Cwblhawyd y gwelliannau i bontŵn y Marina yn 2010/11. Mae'r Olga wedi'i hailwampio'n rhannol ac mae'r dyluniadau ar gyfer y cyfleuster Chwaraeon Dŵr a'r gwelliannau i Knab Rock wedi'u cwblhau.

**Twristiaeth**

Roedd ymgyrchoedd marchnata'r cyngor ar gyfer tymor y gwanwyn a'r hydref wedi cyfrannu'n sylweddol at y 4.1m o ymwelwyr ag ardal Abertawe yn 2010.

Fel rhan o'r ymgyrchoedd, dosbarthwyd bron 25,000 o Lyfrynnau Gwyliau Bae Abertawe yn uniongyrchol i ymwelwyr posib, ar gais, gan gynhyrchu adenillion o fuddsoddiad gwerth £57.27 am bob £1 a wariwyd ar farchnata gan y Tîm Twristiaeth (56c yn fwy na'r flwyddyn flaenorol).

Dosbarthwyd 26,000 arall o lyfrynnau i Ganolfannau Croeso yn y DU, a bron 13,000 drwy Ymgyrchoedd Marchnata Croeso Cymru, yr oedd y cyngor wedi ymrwymo iddynt, mewn partneriaeth ag ardaloedd marchnata eraill ledled Cymru.

Roedd yr ymgyrchoedd yn cynnwys cymysgedd o weithgareddau marchnata ar-lein ac all-lein, gan gynnwys hysbysebu yn y cyfryngau, post uniongyrchol a gweithgaredd ar-lein ac yn ceisio meithrin perthnasoedd â chwsmeriaid presennol, a denu rhai newydd. Cefnogir yr ymgyrchoedd gan y wefan cyrchfannau swyddogol ar gyfer twristiaeth, **dewchifaeabertawe.com**, a oedd wedi denu dros 120,000 o ymwelwyr unigol yn 2010.

Roedd y 4.1m o ymwelwyr ag Abertawe yn 2010 wedi cynhyrchu dros £317m i'r economi leol, gan gefnogi a chynnal tua 5,500 o swyddi.

## Iechyd a Lles

Penderfynodd y cyngor ym mis Hydref 2010 ystyried ffyrdd eraill o ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn Ninas a Sir Abertawe. Penderfynodd y cyngor hefyd yn ystod 2010/11 i gynnal adolygiad o'r opsiynau a oedd ar gael i'r cyngor i gyflwyno ffyrdd gwahanol o weithredu cyfleusterau hamdden dan do. Cytunodd y cyngor ar Strategaeth Iechyd a Lles newydd yn ystod 2010/11.

**Y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Newydd (IGCLl)**

Mabwysiadwyd Strategaeth IGCLl newydd gan y cyngor yn 2010/11. Mae'r Strategaethau IGCLl yn rhychwantu cylch gwaith eang o weithredu ar wella iechyd a lleihau'r risg o afiechyd i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a ddarperir gan Gyngor Abertawe, y GIG, y sector gwirfoddol a'r sector preifat.

Mae'r Strategaeth IGCLl yn disgrifio'r prif faterion sy'n effeithio ar iechyd a lles yn Abertawe, yr heriau wrth fynd i'r afael â'r materion hyn, a'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu y mae Cyngor Abertawe a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn bwriadu eu datblygu gyda'u partneriaid.

**Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion**

Dechreuwyd ar y newidiadau i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn 2010/11 er mwyn ystyried tueddiadau poblogaeth a'r newidiadau i ddisgwyliadau'r rhai y mae angen cefnogaeth arnynt.

Weithiau gall fod gan wasanaethau cyfredol ymagwedd 'un dull yn addas i bawb' yn hytrach na theilwra gwasanaethau ar gyfer anghenion a dewisiadau unigol, lle mae pawb yn glir ynghylch yr hyn y mae'r gwasanaeth a'r defnyddiwr yn ceisio'i gyflawni.

Gwnaed gwaith ar hyn a datblygwyd ac ystyriwyd opsiynau. Cadarnhaodd achos busnes amlinellol y dylid datblygu'r opsiwn 'dewisol' ymhellach yn achos busnes llawn.

Roedd yr opsiwn dewisol yn ffurf ar drosglwyddo i sefydliad ag amcanion cymdeithasol yn bennaf, h.y. mewn rhyw fath o Gwmni Masnachu Awdurdod Lleol (LATC).

Mae manteision posib LATC yn cynnwys cred y gallai fod yn well wrth addasu i'r amgylchedd sy'n newid yn gyflym yn y maes gofal cymdeithasol i oedolion, yn sgîl yr angen am wneud gwasanaethau'n fwy personol a'u teilwra i fodloni disgwyliadau uwch pobl.

Mae'r gwaith i ddatblygu'r achos busnes sy'n sail i'r opsiwn dewisol wedi parhau hyd at 2011/12.

**Opsiynau Rheoli Hamdden**
Penderfynodd y cyngor yn ystod 2010/11 gynnal adolygiad o'r opsiynau a oedd ar gael i'r cyngor i gyflwyno ffyrdd eraill o weithredu cyfleusterau hamdden dan do, Theatr y Grand a rhai o'r cyfleusterau hamdden awyr agored.

Gweithredir y portffolio hamdden dan do cyfredol yn fewnol gan y cyngor ac mae'n cynnwys canolfannau hamdden Penlan, Penyrheol, Treforys, Cefn Hengoed, Llandeilo Ferwallt a Phentrehafod. Mae'r cyfleusterau hamdden awyr agored yn cynnwys caeau chwaraeon perthnasol, Cwrs Golff Heol Ashleigh ac atyniadau'r haf megis Golff Gwallgof y Mwmbwls a'r Llyn Cychod ar waelod Parc Singleton.

Wth ystyried opsiynau, roedd angen i'r prosiect ystyried y rhagolygon ansicr ar gyfer arian cyhoeddus, a'r angen posib am leihau cefnogaeth ariannol yn y blynyddoedd i ddod. Nod yr adolygiad oedd sefydlu modelau newydd a gwahanol o reoli sy'n gwneud arbedion effeithlonrwydd wrth ddiogelu a sicrhau cynaladwyedd tymor hir y cyfleusterau hyn. Mae gwaith ar yr adolygiad wedi parhau i 2011/12.

Ar ddiwedd 2010/11, trosglwyddwyd y gwaith o gynnal Canolfan Tenis Abertawe o'r cyngor i Tennis Swansea 365, cwmni nid er elw sy'n ymroddedig i ddarparu tenis yn Abertawe.

**Dinasoedd Iach**
Mae Rhwydwaith Dinasoedd Iach Sefydliad Iechyd y Byd wedi bodoli ers 1988. Cyflwynwyd cais gan yr awdurdod a Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg i ymuno â'r rhwydwaith hwn. Ym mis Medi 2010 derbyniwyd y cais ac mae Dinas a Sir Abertawe bellach yn aelod o'r Rhwydwaith Dinasoedd Iach.

Mae hwn yn gyflawniad o bwys am ei fod yn rhoi ffocws i sefydliadau partner fel rhan o'r trefniadau gweithio ar y cyd. Bydd hefyd cryn gyfleoedd i ddysgu gan ddinasoedd eraill sydd wedi cyflwyno cynlluniau'n llwyddiannus i wella iechyd ei ddinasyddion.

## Adnoddau

Daeth Abertawe'n Ddinas Noddfa gyntaf Cymru yn 2010/11. Dyfarnwyd y 'Marc Enfys' i adran adnoddau'r cyngor yn y Ganolfan Ragoriaeth Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) yng Nghaerdydd ym mis Medi 2010.

**Dinas Noddfa**

Dyfarnwyd statws cenedlaethol arbennig i'r ddinas y mae ganddi hanes o gynnig noddfa i bobl sydd wedi dianc rhag trais neu erledigaeth, sef statws Dinas Noddfa, yn 2010/11, y mae'n ei rhannu a Sheffield yn Lloegr yn unig.

Y nod nawr yw annog grwpiau, sefydliadau a chyrff cyhoeddus i gydweithio er mwyn helpu i sicrhau bod sgiliau a diwylliannau'r bobl sy'n ceisio noddfa yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys a'u bod yn gallu cyfrannu at fywyd cymunedau lleol.

Y gobaith yw galluogi pobl sy'n ceisio noddfa i feithrin perthnasau'n hwylus gyda phobl leol fel cymdogion, ffrindiau a chydweithwyr er mwyn gwella dealltwriaeth ac integreiddio.

Cafwyd cefnogaeth 105 o sefydliadau lleol i fenter Dinas Noddfa Abertawe, gan gynnwys Cyngor Abertawe sy'n gweithio gyda'r grŵp Dinas Noddfa lleol ar ffyrdd o gyflawni'r amcanion.

**Marc Enfys y Gymuned Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT)**

Dyfarnwyd y 'Marc Enfys' i adran adnoddau'r cyngor yn y Ganolfan Ragoriaeth Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) yng Nghaerdydd ym mis Medi 2010.

Mae'r Marc Enfys yn achrediad wedi'i gadarnhau sy'n nodi bod yr Adran Adnoddau'n gweithredu yn unol â gofynion statudol, ac yn hybu arfer gorau drwy gynnwys y gymuned Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol, ac felly'n cefnogi gwaith y cyngor i fodloni gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb newydd.

*Gweler Atodiad A am wybodaeth am sut mae'r gwelliannau hyn yn helpu i gyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol i Wella.*

## Pennod 3 - Gweithio gydag Eraill yn ystod 2010/11

5. Mae Cyngor Abertawe'n cyflwyno llawer o'i wasanaethau ar y cyd ag eraill. Mae'r ddwy bennod flaenorol wedi amlinellu llawer o enghreifftiau o Gyngor Abertawe'n gweithio gydag eraill yn ystod 2010/11 i gyflwyno gwasanaethau.

5.1 Mae'r bennod hon yn ystyried rhai enghreifftiau pellach ac yn canolbwyntio sylw'n benodol ar y gweithio ar y cyd a amlinellir yng Nghytundeb Canlyniadau'r cyngor gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r cytundebau'n parhau am 3 blynedd (tan 2012/13) ond ceir crynodeb o'r cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn gyntaf y cytundeb (2010/11) isod.

- **Rhwydweithiau Gweithgarwch Cymunedol**

5.2 Mae Cyngor Abertawe'n cydweithio â Phartneriaethau Cymunedol megis Partneriaethau Cymunedol y Clâs, Caemawr a Phenlan, i ddarparu fframwaith lleol o'r enw 'Rhwydweithiau Gweithgaredd Cymunedol' (RhGC) ar gyfer cynllunio gwasanaethau chwaraeon a gweithgaredd corfforol sy'n defnyddio cyfleusterau, cynnyrch a ffynonellau arian lleol. Y nod yw rhannu gwybodaeth, adnoddau ac arfer da er mwyn helpu i wella gweithgaredd corfforol mewn cymunedau lle mae'r cyfleoedd ar gyfer gweithgaredd corfforol a chyfranogiad yn is. Daeth y penderfyniad i gydweithio ag eraill ar RhGC fel ymateb i strategaeth Creu Cymru Egnïol Llywodraeth Cymru i gynorthwyo unigolion a sefydliadau i gryfhau neu ddatblygu chwaraeon, gweithgaredd corfforol a chyfleoedd byw'n iach ymhellach yn eu cymunedau eu hunain, neu i fynd i'r afael â materion penodol sy'n berthnasol i amgylchiadau cymunedau. Dengys ein tystiolaeth waelodlin fod rhai anghydraddoldebau arwyddocaol mewn cyfraddau cyfranogi o un ardal o'r ddinas i un arall; roedd y RhGC yn ceisio ysgogi atebion lleol i broblemau lleol a allai fod wedi arwain at yr anghydraddoldebau hyn. Roedd y cyngor a'i bartneriaid wedi gwneud cynnydd tuag at gyflwyno'r canlyniad drwy ehangu nifer yr aelodau partner ym mhob RhGC, a chynyddu nifer y lleoliadau lle gellir cynnal chwaraeon a chynyddu'r defnydd o weithgaredd corfforol ym mhob RhGC.

- **Gofal Dementia sy'n Canolbwyntio ar y Person**

5.3 Mae pobl sy'n byw gyda dementia ymhlith y grŵp o unigolion sy'n derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cael eu camddeall fwyaf ac y gwahaniaethir fwyaf yn eu herbyn. Ers canol y 1990au, cafwyd mudiad cenedlaethol a rhyngwladol i wella cefnogaeth a gwasanaethau i bobl sy'n byw â dementia, o dan faner 'Gofal Dementia sy'n Canolbwyntio ar y Person'. Bellach, mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn sail i'r mudiad hwn, sy'n cefnogi hawliau dynol ac annibyniaeth

pob person a phroblemau galluedd meddyliol. Mae Cyngor Abertawe'n cydweithio â'r Bwrdd Iechyd, Cymdeithas Alzheimer, Canolfan Ofalwyr Abertawe, Age Concern Abertawe, Cartrefi Gofal Abertawe, y Gynghrair Comisiynu Gofal a Rhwydwaith 50+ Abertawe (grŵp cyfeirio dinasyddion) er mwyn ymateb i a hybu hawliau dynol pobl sy'n byw â dementia yn well, o ran eu trin ag urddas a pharch, a bod yn gallu mynegi dewis a rheoli eu bywydau. Gwnaed cynnydd da gan Gyngor Abertawe a'i bartneriaid tuag at gyflwyno'r canlyniad yn ystod 2010/11. Cyflawnwyd hyn drwy amrywiaeth o fentrau a digwyddiadau gwasanaeth amlasiantaeth; datblygu uned breswyl dibyniaeth uchel arloesol a newydd yng Nghartref Gofal Tŷ Waunarlwydd; cyflwyno a chomisiynu amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi perthnasol; cyflwyno fflat seibiant a Gwasanaeth Lleoli Oedolion; sefydlu grŵp amlasiantaeth lefel uchel; cydleoli timau rheoli gofal ac asesu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bwrdd Iechyd.

- **Y Tu Hwnt i Frics a Morter**

5.4 Mae Abertawe'n profi cyfradd weithgaredd economaidd is na gweddill Cymru a'r DU ac mae ganddo nifer o gymunedau lle mae diweithdra'n uchel. Mae gan economi Abertawe gyfradd uwch o swyddi sydd yn y sector cyhoeddus. Mae gostyngiadau gwario pellach yn debygol, gan olygu y disgwylir i'r sector cyhoeddus leihau, Mae dinasoedd fel Abertawe, sy'n dibynnu ar gyflogaeth y sector cyhoeddus, mewn sefyllfa arbennig o fregus. Cafwyd llawer o adfywio ffisegol yn Abertawe dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gyda gwelliannau i ffabrig ffisegol canol y ddinas ac ardaloedd adfywio eraill. Roedd hyn wedi ysgogi Cyngor Abertawe i gydweithio â'r Bartneriaeth Adfywio Economaidd a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, sy'n cynnwys cyflogwyr ac asiantaethau eraill megis Canolfan Byd Gwaith, i hybu defnyddio'r cymal budd cymdeithasol mewn contractau sector cyhoeddus i greu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer y di-waith a'r rhai sy'n anweithgar yn economaidd. Gwnaed cynnydd da gan Gyngor Abertawe a'i bartneriaid tuag at gyflwyno'r canlyniad yn ystod 2010/11, yn enwedig wrth gynyddu nifer y prosiectau sy'n cynnwys cymalau budd cymdeithasol ac adborth cadarnhaol gan gyflogwyr a chyfranogwyr.

- **Dechrau'n Deg**

5.5 Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen ymyrryd ac atal cynnar ar gyfer plant yn y Blynyddoedd Cynnar, sy'n helpu i hybu datblygiad cadarnhaol. Mae Cyngor Abertawe'n cydweithio â phartneriaid iechyd, gan gynnwys y gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd, Iaith a Lleferydd a Bydwragedd, y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r sector gwirfoddol, megis Barnardo's, i gynnig dewis o wasanaethau sy'n cynnwys ymweliadau iechyd, rhaglenni magu plant a rhaglenni sgiliau sylfaenol gan gynnwys datblygiad iaith, lleferydd a chwarae. Y canolbwynt yw gofal plant rhan-amser o safon am ddim i bob plentyn 2 flwydd oed am 2.5 awr y dydd, 5 niwrnod yr wythnos, 42 wythnos y flwyddyn. Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd da tuag at y canlyniad, yn enwedig drwy gwblhau'r holl waith cyfalaf i ailfodelu adeiladau presennol ac adeiladu lleoliadau newydd ar gyfer Dechrau'n Deg ar

amser ac yn ôl y fanyleb er mwyn darparu adeiladau pwrpasol i Dechrau'n Deg sy'n cydymffurfio â'r safonau a bennwyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Sefydlwyd trefniadau rheoli a llywodraethu ar gyfer y lleoliadau Dechrau'n Deg perthnasol ar amser hefyd, ac yn unol â'r broses gaffael a'r manylebau gofynnol er mwyn penderfynu pa sefydliad a fyddai'n gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Dangosir llwyddiant hefyd drwy sefydlu grwpiau magu plant a chynyddu cyfeiriadau i Dechrau'n Deg.

- **Gweithffyrdd**

5.6 Mae anweithgarwch economaidd ac eithrio cymdeithasol yn broblem fawr ar draws De-orllewin Cymru. Mae Cyngor Abertawe'n cydweithio â thri awdurdod lleol arall - Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro Sir Gâr - i ddarparu cefnogaeth drwy ddefnyddio gwasanaethau allgymorth sydd wedi'u teilwra i anghenion lleol ac unigol er mwyn cynnwys y di-waith a'r anweithgar yn economaidd tymor hir i'w helpu yn ôl i gyflogaeth. Mae'r cyngor a'i bartneriaid wedi gwneud cynnydd da tuag at y canlyniad hwn ac wedi llwyddo i sicrhau swyddi dros dro i nifer mawr o gyfranogwyr. Trefnwyd sawl digwyddiad a dosbarthwyd deunydd hyrwyddol i gynyddu ymwybyddiaeth o gynllun Gweithffyrdd, yn enwedig ymhlith cyflogwyr. Cafwyd canlyniadau boddhad uchel gan gyflogwyr a oedd yn rhan o hyn a oedd yn teimlo bod cynllun Gweithffyrdd wedi cyfrannu'n gadarnhaol at eu sefydliad. Nododd mwyafrif helaeth o unigolion a oedd yn gadael y cynllun ei fod wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w cyfleoedd o gael swyddi.

- **Lleihau Ofn Troseddau**

5.7 Mae Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel wedi bod yn unedig yn ei brwydr yn erbyn troseddu ac anrhefn ers blynyddoedd a chyda llawer o lwyddiant. Mae ail ddinas fwyaf Cymru'n dathlu gostyngiad mewn troseddu cyffredinol o 37%. Mae wedi gweld gostyngiadau sylweddol yn y rhan fwyaf o gategorïau troseddu gan gynnwys troseddau cerbyd a throseddau ieuenctid. Mae'r cyngor, ar y cyd ag aelodau eraill Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel, gan gynnwys yr Heddlu, y gwasanaethau Tân ac Achub, Iechyd a Phrawf, yn gweithio i leihau ofn troseddu mewn cymunedau ac yng nghanol y ddinas. Mae'r cyngor a'i bartneriaid yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno'r canlyniad, gan gynnwys proses effeithiol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymdrechion i dawelu meddyliau dioddefwyr troseddau a defnyddwyr economi'r nos yng nghanol y ddinas. Mae hyn wedi arwain at ganran uchel o bobl a gymerodd ran yn yr arolwg yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau ac yng nghanol y ddinas, er bod canlyniadau'r arolwg yn dangos bod angen parhau â'r gwelliannau i helpu pobl i deimlo'n ddiogel yng nghanol y ddinas yn ystod y nos.

- **Rheoli Gwastraff**

5.8 Mae awdurdodau lleol yng Nghymru'n wynebu mesurau polisi a deddfwriaethol sylweddol gan gynnwys y Cynllun Lwfans Tirlenwi (CLT), Treth Tirlenwi a gosod targedau ailgylchu a chompostio. Mae'r cyngor yn cydweithio â phedwar awdurdod lleol arall - Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro a Sir Gâr - a Llywodraeth Cymru i gaffael cyfleusterau digonol i drin gwastraff bwyd a wahanwyd ymlaen llaw gan ddefnyddio Treuliad Anerobig i helpu i gyrraedd targedau y mae Abertawe'n awdurdod arweiniol ar eu cyfer. Mae cynnydd da yn cael ei wneud gan y cyngor a'i bartneriaid wrth gyflwyno'n canlyniad. Mae gwaith sy'n cael ei wneud ar brosiect rhanbarthol i gaffael ateb i drin gwastraff bwyd a wahanwyd wedi cyrraedd yr holl gerrig milltir i nodi'r Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd, sy'n bodloni gofynion y prosiect orau. Gwnaed ymdrech fawr i gyflwyno casgliadau bob yn ail wythnos yn llwyddiannus ynghyd â'r cyfleoedd ychwanegol cysylltiedig i ailgylchu deunyddiau a lleihau'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos y swm enfawr o waith sydd wedi'i wneud i helpu i baratoi pobl ar gyfer y newidiadau a'u hybu/helpu drwy'r newidiadau. Gwelir y llwyddiant yn y ffigurau trwy gynyddu ailgylchu o'r gwaelodlin (37.5%) i 40.47% yn 2010-11. Mae adborth o arolygon dinasyddion hefyd yn dangos cynnydd yn nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn ailgylchu, eu bod yn ailgylchu mwy a'u bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth.

- **Ansawdd Dŵr a Bioamrywiaeth**

5.9 Mae'r cyngor yn cydweithio â Phrifysgol Aberystwyth, Coleg Prifysgol Dulyn, Asiantaeth Amddiffyn yr Amgylchedd Iwerddon (AAA), Cyngor Wicklow, Asiantaeth yr Amgylchedd a Dŵr Cymru i wneud gwaith maes helaeth fel rhan o brosiect 3 blynedd Interreg (cronfa yr UE Cymru/Iwerddon) fel bod Llywodraeth y DU yn gallu cytuno ar fethodoleg gydymffurfio ansawdd dŵr sy'n briodol i Abertawe. O dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, mae'n ddyletswydd ar yr holl gyrff cyhoeddus bellach i warchod a gwella bioamrywiaeth. Mae'r cyngor yn gweithio gyda 33 o asiantaethau drwy Bartneriaeth Bioamrywiaeth Abertawe i gynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth, hyrwyddo cyfranogiad gan yr holl sectorau wrth ei chynnal a'i gwella yn ogystal â gwella'r cyfleoedd i bobl fwynhau a gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol. Gwnaed cynnydd da ar y prosiect dŵr ymdrochi rhwng Dinas a Sir Abertawe, Prifysgol Aberystwyth ac Asiantaeth yr Amgylchedd wrth fynd ati i archwilio'r holl ddata cyfredol gan bob partner a llunio rhaglen fanwl o'r holl waith maes. Yn arbennig, mae rhaglen samplu a logisteg y blwch du wedi cynhyrchu gwybodaeth am lifoedd nentydd, peryglon a safleoedd samplu a defnyddir hon fel ffynhonnell werthfawr wrth symud ymlaen i'r blynyddoedd dilynol. Mae'r gwaith hwn yn sail i'r samplu helaeth a gyflawnwyd yn ystod misoedd haf 2011, lle bu staff yn gweithio tuag at gam cyntaf yr astudiaethau maes helaeth a nodwyd yn y Cytundeb Canlyniadau.

- **Castell Ystumllwynarth**

5.10 Dynodir Castell Ystumllwynarth yn heneb gofrestredig (ac yn adeilad rhestredig ar gofrestr henebion ac adeiladau hanesyddol Cadw). Mae Castell Ystumllwynarth hefyd wedi'i gynnwys yng Nghomisiwn Brenhinol Cofebion Hynafol a Hanesyddol Cymru. Wedi'i adeiladu ar ddiwedd y 12fed ganrif, ychwanegwyd adeiladau at Gastell Ystumllwynarth yn y 13eg a'r 14eg ganrif. Mae'r castell mewn parcdir ar ffin ardal Gŵyr, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, ac mae'n safle sy'n borth i gestyll Gŵyr. Oherwydd arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol y castell, bu'r cyngor yn cydweithio â Chyfeillion Castell Ystumllwynarth, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, CADW a'r contractwyr WRW Cyf, i warchod a diogelu'r castell yn ogystal â gwneud gwelliannau diogelwch a mynediad corfforol. Bydd y prosiect hwn hefyd yn gwella'r castell fel atyniad i ymwelwyr drwy ychwanegu cyfleuster dehongli (Capel Alina), a gwella'r mynediad deallusol (cyfleoedd i gael addysg a gwybodaeth am y castell) i'r safle eiconig gwerthfawr hwn. Gwnaed cynnydd da ar gam cyntaf y gwaith cadwraeth a gwella, ac ar recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr o 'Gyfeillion Castell Ystumllwynarth' i gyflwyno gwybodaeth i ymwelwyr a gweithredu fel llysgenhadol twristiaeth.

- **Consortiwm Prynu Cymru**

5.11 Mae'r cyngor yn cydweithio â phymtheg cyngor arall yng Nghymru drwy Gonsortiwm Prynu Cymru er mwyn cynyddu gwerth am arian ac arbedion effeithlonrwydd drwy gaffael gwell, gwneud y defnydd gorau o adnoddau, contractau, cydweithio a rheoli cysylltiadau â chyflenwyr. Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni'r canlyniad. Gwelir y llwyddiant yn y £154,711 o arbedion a wnaed yn ystod 2010/11, datblygiad gweithdrefnau cyson i'w defnyddio ar draws CPC (a hyfforddiant cysylltiedig) a bwndelu contractau gan ddefnyddio technegau rheoli i gyflawni effeithlonrwydd.

# Pennod 4 – Prosesau i Gyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol i Wella: Gwybodaeth am Berfformiad a'r Defnydd Ohoni.

6. Mae’r cyngor yn casglu ac yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth am berfformiad i helpu i fonitro ac adrodd am gyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd. Defnyddir gwybodaeth am berfformio o'r fath gan y cyngor i helpu i gyfeirio penderfyniadau gweithredol ar ddyrannu adnoddau a, lle y bo'n briodol, rhoi camau gweithredu cywirol ar waith i reoli a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd wrth gyflwyno blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Dyma'r prosesau y mae'r cyngor yn ymgymryd â hwy i gyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol i wella (gweler Atodiad A) er mwyn cyflwyno'r gwelliannau a amlinellir ym mhenodau 1 a 2.

- **Dangosyddion Perfformiad**

6.1 Mae Fframwaith Gwella Perfformiad ar waith yng Nghymru. Mae'n ofyniad gan Lywodraeth Cymru'n bod cynghorau yng Nghymru'n casglu, yn monitro ac yn adrodd am Ddangosyddion Cenedlaethol Strategol (DCS). Mae'r DCS yn caniatáu i awdurdodau fesur ac adrodd am eu cyfraniad at brif amcanion polisi Cymru gyfan. Yn 2010/11, roedd yn ofynnol gan DCS Llywodraeth Cymru i gynghorau yng Nghymru adrodd am berfformiad ym meysydd Gofal Cymdeithasol, Addysg, yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth, a Hamdden a Diwylliant.

6.2 Er y bydd gan Weinidogion Cymru ddiddordeb mewn gosod mesurau perfformiad sy'n cyfrannu at amcanion polisi Cymru gyfan, mae'n annhebygol y bydd y rhain yn ddigonol i ddarparu darlun cynhwysfawr, cytbwys a chymaradwy o berfformiad awdurdod a pha mor debygol y mae i wella. Yn lleol, yn 2010/11 casglodd cynghorau ddangosyddion "Set Craidd" a'u rhannu'n genedlaethol at ddibenion cymharu. Fodd bynnag, roedd rhyddid gan gynghorau i ddewis sut roeddent yn defnyddio'r data hwn. Nid oedd gofyniad nad disgwyliad iddynt gyhoeddi data nac adrodd am ddata i reolwyr corfforaethol neu aelodau.

6.3 Yn lleol, caiff y fframwaith ei gwblhau drwy ddefnyddio dangosyddion perfformiad lleol priodol a'r defnydd arferol o amrywiaeth o wybodaeth gan reolwyr.

6.4 Yn 2010/11, roedd gan Gyngor Abertawe gyfres o ddangosyddion perfformiad "Rhanbarth 1" lefel gorfforaethol a oedd yn cynnwys DCS, rhai dangosyddion Set Craidd a dangosyddion lleol. Roedd y gyfres Rhanbarth 1 yn cael ei monitro ac

adroddwyd amdani bob chwarter ac yn flynyddol i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a hefyd i Aelodau a'r cyhoedd drwy'r Cabinet a Byrddau Craffu'r cyngor. Defnyddiwyd yr wybodaeth i helpu i gyfeirio penderfyniadau gweithredol ar ddyrannu adnoddau a, lle'r oedd yn berthnasol, ystyried materion sylfaenol a rhoi camau gweithredu cywirol ar waith i reoli a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd wrth gyflwyno blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

6.5 Adroddwyd am y canlyniadau o DCS hefyd i Lywodraeth Cymru a'r dangosyddion Set Craidd i Uned Ddata Cymru lle cawsant eu cyhoeddi at ddibenion cymharu cenedlaethol. Gwnaeth y cyngor benderfyniadau cenedlaethol yn erbyn y DCS a mesurau Set Craidd a rhannwyd yr wybodaeth hon â'r Tîm Rheoli Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth. Defnyddiwyd rhai o'r dangosyddion "Rhanbarth 1" yn 2010/11 yn y Cynllun Gwella i helpu i gael tystiolaeth o flaenoriaethau'r cyngor ar gyfer gwella, neu "Amcanion Gwella". Archwiliwyd canlyniadau 2010/11 o'r mesurau Amcanion Gwella a mesurau cenedlaethol eraill ar ran Swyddfa Archwilio Cymru i bennu cywirdeb a chydymffurfio â gofynion.

6.6 Yn ogystal â chael trefniadau corfforaethol, mae adrannau unigol cynghorau'n defnyddio'r mesurau perfformiad lleol i helpu i reoli eu gwasanaethau ac adrodd am y cynnydd i grwpiau â diddordeb. Er enghraifft, mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn monitro nifer o ddangosyddion allweddol ac yn adrodd am eu perfformiad yn rheolaidd, ac mae hyn hefyd yn destun craffu gan Fwrdd Trosolwg a Chraffu Plant a Theuluoedd.

- **Lleisiau Abertawe ac ymgynghoriadau eraill**

6.7 Mae'r cyngor yn ymgynghori ac yn cysylltu â thrigolion lleol, cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn Ninas a Sir Abertawe i ddeall eu barn a'u safbwyntiau. Mae Panel Lleisiau Abertawe'n cynnwys sampl cynrychioliadol o 1,250 o drigolion y mae'r cyngor yn ymgynghori â hwy'n rheolaidd am ei wasanaethau a materion lleol.

6.8 Mae'r panel yn darparu cyfle i bobl fynegi eu barn a chyfrannu at gynllunio a chyflwyno gwasanaethau'r cyngor.

6.9 Ystyrir bod yr ymatebion a gaiff y cyngor yn adlewyrchiad da o farn y boblogaeth gyfan. Felly mae'r cyngor yn ystyried adborth gan y Panel yn ddifrifol ac anfonir cylchlythyr rheolaidd at banelwyr sy'n rhoi adborth am ganlyniadau diweddaraf arolwg a sut cawsant eu defnyddio. Adroddir am ymatebion pob arolwg i adrannau perthnasol y cyngor ar ffurf gydgasgledig fel na ellir adnabod aelodau unigol y panel yn y canlyniadau.

6.10 Mae'r cyngor hefyd yn defnyddio Lleisiau Abertawe i ymgynghori â dinasyddion Abertawe wrth benderfynu beth yw'r blaenoriaethau gwella a chyllidebol. Mae barn trigolion yn rhan bwysig o broses y cyngor o benderfynu beth mae'n rhaid ei wella a beth mae'n rhaid ei wneud i'w wella.

6.11 Roedd ymgynghoriadau â Lleisiau Abertawe yn 2010/11 yn cynnwys cymdogaethau, diogelwch a diogeledd, materion y cyngor, y Rhodfa, datblygiad economaidd, pynciau Trosolwg a Chraffu, profiadau wrth wneud cais am Fudd-dal y Cyngor/Tai, y Cynllun Datblygu Lleol, Addysg Diogelwch Ffyrdd, Canolfan Groeso Canol y Ddinas, patrymau siopa, parciau a mannau agored, blaenoriaethau cyllidebol, Amcanion Gwella ar gyfer 2011/12 a llwyddiant canfyddedig y gwasanaeth yn ystod 2010/11.

6.12 Yn ogystal â Lleisiau Abertawe, mae'r cyngor yn cynnal arolygon yn rheolaidd a hefyd yn cynnwys ac yn ymgynghori â'i bartneriaid, aelodau etholedig, staff grwpiau cymunedol a chynrychiolwyr busnes gwirfoddol ar gyflwyno gwasanaethau a blaenoriaethau. Mae'r cyngor yn ymgysylltu'n rheolaidd â grwpiau megis Rhwydwaith 50+, Fforwm Busnes Abertawe, Panel Ymgynghorol y Tenantiaid a'r Fforwm Rhwng y Cenedlaethau ymhlith eraill i ymgynghori ar gynllunio a chyflwyno gwasanaethau.

6.13 Mae'r cyngor hefyd yn ymgysylltu mwyfwy â dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau wrth gyflwyno gwasanaethau (a elwir weithiau'n "cyd-gynhyrchu"), boed wrth weithio gyda theuluoedd i'w helpu i gefnogi eu plant yn yr ysgol, neu fabwysiadu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y person at ofal dementia neu'r Gwasanaeth Ieuenctid sy'n helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial fel unigolion wedi'u grymuso ac fel aelodau o grwpiau a chymunedau.

6.14 Ymgynghorodd y cyngor â Lleisiau Abertawe a fforymau ymgynghorol eraill, megis y Fforwm Rhwng y Cenedlaethau, ar ei Amcanion Gwella arfaethedig ar gyfer 2011/12. Ystyriwyd yr ymatebion, ac ymdriniwyd â'r awgrym y dylid ymgorffori gwasanaethau'r Strydlun yn yr Amcanion Gwella drwy geisio lleihau tipio anghyfreithlon, sy'n rhan o wasanaethau Strydlun. Ehangwyd yr Amcan Gwella sy'n ymwneud â hyfforddiant a lleoliadau gwaith i ddangos sut mae'n cysylltu â'r rhaglen adfywio ehangach ar gyfer Abertawe.

- **Trosolwg a Chraffu**

6.15 Prif nod Trosolwg a Chraffu yw gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' i'r Cabinet ac eraill sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn hyrwyddo gwasanaethau, polisïau a phenderfyniadau gwell. Drwy weithio mewn ffordd sy'n debyg i bwyllgorau dethol seneddol, mae Trosolwg a Chraffu yn cynnwys cynghorwyr nad ydynt yn y Cabinet.

6.16 Mae Trosolwg a Chraffu yn gwneud gwahaniaeth drwy sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau'n lleol yn well, bod gwasanaethau lleol yn cael eu gwella a democratiaeth leol yn cael ei chryfhau. Mae gwaith y Byrddau'n cynnwys siarad â'r cyhoedd, casglu tystiolaeth gan sefydliadau perthnasol a chynnal ymchwil. Ar gyfer gwaith manwl, bydd y byrddau'n llunio adroddiadau ac yn cyflwyno argymhellion.

6.17 Mae pob un o'r Byrddau Trosolwg a Chraffu'n cynnwys 11 Cynghorydd, ac mae gan bob un gadeirydd ac is-gadeirydd Cynhelir cyfarfodydd bob 4 wythnos fel arfer ac mae'r byrddau hefyd yn gwneud peth o'u gwaith mewn grwpiau Tasg a Gorffen a thrwy fynd ar ymweliadau i archwilio gwasanaethau.

6.18 Mae'r pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn cynnwys 19 cynghorydd ac maent yn cwrdd bob 8 wythnos.

6.19 Yn ystod 2010/11 cwblhaodd y Byrddau Trosolwg a Chraffu sawl adolygiad a chyhoeddi adroddiadau fel yr amlinellir isod:

**Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**
Adolygiad o Fagu Plant Corfforaethol
Adolygu'r Meini Prawf Cymhwyster ar gyfer Gwasanaethau i Blant Anabl

**Plant, Pobl Ifanc a Dysgu**
Adolygiad o Lythrennedd

**Yr Amgylchedd a Chymunedau**
Adolygiad o Leihau Gwastraff, Ailgylchu a Chompostio
Adroddiad am Ganfyddiadau Lleihau Gwastraff, Ailgylchu a Chompostio

**Perfformiad a Chyllid**
Adolygiad o Wasanaethau a Rennir
Adroddiad am Ganfyddiadau Gwasanaethau a Rennir
Datblygu Cynllunio Ariannol Tymor Canolig

6.20 Caiff argymhellion o adroddiadau a gynhyrchir gan Trosolwg a Chraffu eu hystyried a, lle y bo'n briodol, cytunir arnynt gan y Cabinet. Mae'r bwrdd Trosolwg a Chraffu perthnasol yn cynnal adolygiadau dilynol i olrhain cynnydd wrth roi eu hargymhellion a gymeradwywyd gan y Cabinet ar waith. Mae mwy o wybodaeth am yr adolygiadau Craffu a gynhaliwyd yn ystod 2010/11 ar gael ym mhennod 5.

- **Rhaglen Strategol**

6.21 Y Bwrdd Rhaglenni Strategol yw'r corff pennaf o ran gwneud penderfyniadau (ynglŷn â rhaglenni a phrosiectau) yn Ninas a Sir Abertawe.

6.22 Mae'r Bwrdd Rhaglenni Strategol (BRhS) yn cwrdd ar ddydd Mercher olaf y mis i adolygu'r cynnydd ar bob rhaglen/prosiect yn y cyngor.

6.23 Ystyrir y rhaglenni/prosiectau allweddol yn rhan o Raglen Strategol y cyngor, a phenderfynir ar y rhain mewn cynhadledd polisi flynyddol. Yma mae ganddynt gyfrifoldeb i sicrhau bod y rhaglenni/prosiectau allweddol yn cyd-fynd â strategaeth gyffredinol y cyngor, gan sicrhau bod y nodau ac amcanion pwysicaf a nodwyd yn y Cynllun Cymunedol a'r Cynllun Gwella Corfforaethol yn cael eu cyflwyno.

6.24 Mae'r BRhS yn defnyddio'r wybodaeth mae'n ei derbyn i gefnogi a chyfeirio Rheolwr y Rhaglen Strategol i sicrhau bod yn Rhaglen Strategol yn cael ei chyflwyno. Mae'r bwrdd yn monitro ac yn rheoli risgiau ac yn ceisio datrys problemau sy'n ymwneud â phrosiectau penodol. Asesir y Rhaglen Strategol yn rheolaidd hefyd i sicrhau ei bod yn cyflwyno'r gwerth mwyaf a, lle y bo'r angen, yn gwneud addasiadau neu'n ailgyfeirio adnoddau.

- **Cynlluniau Busnes**

6.25 cyflwynodd y cyngor broses cynllunio busnes newydd yn ystod 2010/11. Mae'r broses cynllunio busnes yn ymwneud â sicrhau bod cynlluniau'r cyngor wedi'u llunio a'u datblygu mewn ffordd wybodus, gan ystyried yr amgylchedd mewnol ac allanol. Mae cynllunio busnes yn helpu'r cyngor i ddefnyddio gwybodaeth i werthuso'r hyn y mae'n ei wneud a ph'un a ddylai fod yn gwneud yr un pethau yn yr un ffordd neu a fyddai ymagwedd wahanol yn fwy defnyddiol. Caiff y cynlluniau busnes eu cwblhau bob 4 blynedd a chânt eu hadolygu bob blwyddyn.

- **Risg**

6.26 Mae cynghorau'n ymwneud fwyfwy ag ymdrin ag ansicrwydd a rheoli newid sylweddol. Ar yr un pryd, mae cynghorau o dan bwysau cynyddol i gyflwyno gwasanaethau gwell mewn ffyrdd newydd a blaengar, weithiau drwy weithio mewn partneriaeth. Mae hyn oll yn denu risgiau y mae'n rhaid eu rheoli'n effeithiol os bydd cynghorau'n cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

6.27 Mae'r cyngor yn rheoli risg i nodi a rheoli bod yn agored i risg a allai gael effaith ar y ffordd y mae Dinas a Sir Abertawe'n cyflawni ei amcanion busnes a gwella.

6.28 Rheolir risgiau mewn prosiectau unigol gan Reolwyr Prosiect a'u Byrddau Prosiect a chaiff risgiau sy'n ymwneud â Rhaglen Strategol y cyngor eu rheoli drwy Fwrdd Rhaglen Strategol y cyngor. Mae penaethiaid gwasanaeth yn nodi risgiau drwy eu Cynlluniau Busnes ac mae trefniadau ar waith i reoli'r risgiau hynny. Mae adrannau unigol yn rheoli eu risgiau drwy eu Timau Rheoli Cyfarwyddwyr ac mae Tîm Rheoli Corfforaethol y cyngor yn gyfrifol am reoli risgiau corfforaethol.

## Pennod 5 - Adolygiadau Byrddau Trosolwg a Chraffu yn 2010/11

7. Yn ystod 2010/11m cwblhaodd y Byrddau Trosolwg a Chraffu sawl adroddiad a chyhoeddi adroddiadau. Ceir crynodeb o ganlyniad yr adolygiadau isod, wedi'u grwpio o dan y themâu a nodwyd yn Strategaeth Gymunedol a Chynllun Gwella Abertawe.

## Plant a Phobl Ifanc

**7.1 <u>Sylfeini Gwella Llythrennedd yn Abertawe – Mawrth 2011</u>**
Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar yr hyn y gellir ei wneud i wella llythrennedd yr holl blant a phobl ifanc yn Abertawe - a cheisio sicrhau eu bod yn gadael addysg llawn amser â llythrennedd gweithredol o leiaf.

**7.2 Awdurdodau Lleol Eraill**
Cysylltwyd â phum awdurdod yng Nghymru gan gynnwys Caerdydd, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gâr, Wrecsam a Rhondda Cynon Taf. Gofynnwyd iddynt a oedd ganddynt bolisi llythrennedd cyffredinol neu a oedd gan ysgolion eu polisïau eu hunain neu'r ddau. Ar ôl darllen drwy'r holl bolisïau hyn, canfuwyd y pethau cyffredin canlynol: bydd datblygu iaith, llythrennedd a chyfathrebu'n llwyddiannus yn caniatáu i bob plentyn gymryd rhan ac ymateb i ofynion yn y gymdeithas;
mae plant yn datblygu mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu drwy gontinwwm o ddysgu; mae cydberthynas rhwng darllen, ysgrifennu a llefaredd; anogir plant i ddysgu ar y cyd; anogir plant i fod yn rhan o ddysgu eu plant; mae llythrennedd yn drawsgwricwlaidd - ni ddylid ei gadw i un maes dysgu penodol; bydd plant yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau cyfathrebu megis TGCh i ddatblygu eu llythrennedd; mae llefaredd yn rhan annatod o bob proses ddysgu. anogir plant i fynegi eu hunain yn effeithiol ac yn briodol; darperir amrywiaeth eang o ddeunydd darllen i'r plant; anogir darllen er mwynhad personol; sicrhau bod geirfa ac arddull yn cael eu defnyddio'n effeithiol, yn enwedig gramadeg, sillafu ac atalnodi; datblygu llawysgrifen ddarllenadwy a rhwydd.

7.3 Roedd casgliadau ac argymhellion yr adolygiad yn ymwneud â datblygu strategaeth ehangach ar gyfer llythrennedd a fyddai'n targedu meysydd tanberfformio a'r angen mwyaf. Byddai'n cynnwys partneriaethau rhwng rhieni, gofalwyr, teuluoedd, staff addysgu a chyrff llywodraethu. Argymhellodd y bwrdd hefyd y dylid anfon llythyr at Lywodraeth Cymru i'w hannog i ddangos bod llythrennedd yn flaenoriaeth ledled Cymru drwy sicrhau bod ariannu cynaliadwy tymor hir ar gael i

awdurdodau lleol ac ysgolion i wella sgiliau darllen, ysgrifennu a llefaredd yn benodol ar draws Cymru. Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Cabinet ym mis Mehefin ac mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu.

**7.4 Awydd i Helpu? - Adolygiad o Rôl Cynghorwyr fel Rhieni Corfforaethol - Tachwedd 2010**

Cynhaliodd Bwrdd Trosolwg a Chraffu'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd adolygiad i archwilio'r hyn y dylai Magu Plant Corfforaethol ei olygu i gynghorydd, a nodi ffyrdd o gyflawni'r ddyletswydd i wella cyfleoedd bywyd plant diamddiffyn.

**7.5 Awdurdodau Lleol Eraill**

Ystyriodd y bwrdd enghreifftiau arfer da o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Roedd yr awdurdodau yng Nghymru'n cynnwys Casnewydd, Sir Ddinbych a Sir Gâr. Er enghraifft, sefydlodd Sir Ddinbych fforwm aelodau etholedig ym mis Mai 2007 a chychwyn y gwaith o ddatblygiad llywodraethwyr ysgol fel Rhieni Corfforaethol. Yn Sir Gâr, mae aelodau etholedig y cyngor wedi ymweld â phlant yn eu cartrefi, gofyn cwestiynau a helpu i ddylanwadu ar bolisi. Yng Nghasnewydd, bu aelodau'r cyngor yn ymweld â chartrefi plant i weld y gefnogaeth a roddir i blant sy'n derbyn gofal a thrafod heriau gweithio mewn amgylchedd o'r fath. Yn dilyn yr ymweliadau â'r cartrefi plant, bu aelodau'n trafod ffyrdd y gallai aelodau etholedig gyflawni eu dyletswyddau fel Rhieni Corfforaethol.

7.6 Argymhellodd y Bwrdd bod cyfrifoldebau Magu Plant Corfforaethol yn cael eu cynnwys yn y disgrifiadau rôl ar gyfer cynghorwyr, mewn pecynnau enwebu ac ymsefydlu yn ogystal â chynnig hyfforddiant ac arweiniad i Fagu Plant Corfforaethol. Rhoddir gwybodaeth am berfformiad mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal yn rheolaidd i gynghorwyr. Argymhellir hefyd y dylid diwygio'r cylch gorchwyl ar gyfer y fforwm Magu Plant Corfforaethol i roi mwy o ffocws ar ymgorffori'r agenda Magu Plant Corfforaethol ar draws y cyngor, drwy graffu a monitro gwella perfformiad. Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Cabinet a'r cyngor ym mis Mawrth eleni, ac mae cynllun gweithredu yn cael ei lunio i ddatblygu'r argymhellion.

**7.7. Meini Prawf Cymhwyster ar gyfer Gwasanaethau i Blant Anabl – Mehefin 2010**

Nod yr adolygiad oedd ymchwilio i'r meini prawf cymhwyster a ddefnyddir i asesu plant anabl a'u gofalwyr am wasanaethau a ddefnyddir gan Wasanaethau Cymdeithasol Abertawe. Ar ôl ystyried amrywiaeth eang o dystiolaeth gan y cyngor a sefydliadau partner, daethpwyd i'r casgliad bod gwendidau wrth ddeall a chyfleu'r meini prawf cymhwyster a chydag arweinyddiaeth strategol ar faterion yn ymwneud ag anabledd.

**7.8 Awdurdodau Lleol Eraill**

Fel rhan o'r adolygiad ar y meini prawf cymhwyster a ddefnyddir gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i asesu a yw plant anabl, eu rhieni a'u gofalwyr yn gymwys ar gyfer gwasanaeth, cysylltwyd â sawl awdurdod lleol i gael eu meini prawf cymhwyster. Cafwyd ymatebion gan nifer o gynghorau yng Nghymru a Lloegr. Y cynghorau Cymreig oedd Casnewydd, Caerdydd, Bro Morgannwg, Blaenau Gwent, Caerffili, Castell-nedd Port Talbot, Powys a Thorfaen. Cyfarfu aelodau â rheolwr y Tîm Anabledd Plant (TAP) yng Nghasnewydd. Nodwyd Casnewydd yn awdurdod ag arfer da o ran ehangu mynediad i wasanaethau ar gyfer plant ag anableddau. Mae Casnewydd wedi datblygu gwe-dudalennau da ar gyfer plant anabl a'u rhieni. Mae Casnewydd yn cynhyrchu cylchlythyr chwarterol a gaiff ei anfon at bob plentyn ar y Mynegai Anabledd i roi gwybod i blant a rhieni am wasanaethau, ac fe'i defnyddiwyd hefyd fel offeryn ymgynghori. Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn darparu cerdyn hamdden i deuluoedd sy'n cofrestru ar y Mynegai Amddifadedd, a allai gael effaith gadarnhaol ar nifer y cyfeiriadau a lleihau'r angen am ymyriadau gan Weithiwr Cymdeithasol.

7.9 Gwnaed cyfres o argymhellion gan y Bwrdd â'r nod o wella'r meini prawf ac er mwyn ehangu mynediad i wasanaethau. Argymhellwyd y dylid datblygu cyfres newydd o feini prawf cymhwyster gyda chymorth ac mewn ymgynghoriad â'r Cyngor ar gyfer Plant Anabl. Mae'r meini prawf diwygiedig hyn yn cael eu cyfleu mewn ffordd agored a thryloyw i rieni, gan ddefnyddio'r arfer da a ddangoswyd gan Gyngor Dinas Casnewydd. Nodwyd yr adroddiad gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2010 ac mae chwech o'r argymhellion a gymeradwywyd yn cael eu datblygu.

## Yr Amgylchedd

**7.10 <u>Adolygiad o leihau gwastraff, ailgylchu a chompostio yn Ninas a Sir Abertawe</u>**

Roedd yr adolygiad yn ceisio atebion i'r cwestiwn 'A fydd y cyngor yn cyflawni'r targedau lleihau gwastraff, ailgylchu a chompostio a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei strategaeth wastraff genedlaethol *Tuag at Ddyfodol Diwastraff?'* Edrychodd y bwrdd ar effeithiolrwydd y mentrau lleihau gwastraff, ailgylchu a chompostio a sut rydym yn annog aelwydydd i anfon llai o wastraff i'w dirlenwi.

**7.11 Awdurdodau Lleol Eraill**

Bu'r Bwrdd yn ystyried crynodeb o ymchwil gan y 10 awdurdod lleol sydd wedi gwella orau. Dangosodd yr ymchwil fod yr awdurdodau lleol sy'n perfformio orau yn defnyddio cymysgedd o ymagweddau, ond mae pethau allweddol eraill yn gyffredin, a nodwyd y meysydd diddordeb canlynol. Er enghraifft, mae 8 o'r 10 awdurdod lleol sydd wedi gwella orau wedi newid yn ddiweddar i gasgliadau bob yn ail wythnos; mae pob un o'r awdurdodau lleol â'r 10 gyfradd ailgylchu a chompostio cartref uchaf hefyd wedi newid i gasgliadau bob yn ail wythnos; mae 8 o'r 10 awdurdod lleol sydd wedi gwella orau yn casglu gwastraff bwyd fel rhan o'u casgliadau ymyl y ffordd ac 8 o'r 10 o'r awdurdodau sy'n perfformio orau hefyd yn casglu gwastraff bwyd. Bydd y gwasanaethau ychwanegol a gynigir gan awdurdodau lleol i annog ailgylchu ac ailddefnyddio yn cynnwys cynlluniau cymhelliant i annog defnyddio cewynnau go iawn, biniau compostio cartref am bris gostyngol, treulwyr bwyd ac abwydfeydd, a digwyddiadau cyfnewid dillad.

7.12 Nod yr argymhellion a roddwyd gerbron y Cabinet oedd cyfleu'r gwasanaethau a ddarperir i annog mwy o gyfranogi mewn ailgylchu. Gellid gwneud hyn drwy wneud bagiau ailgylchu a chynwysyddion yn fwy hygyrch a defnyddio prosiectau megis SCRAP (ailwampio celfi). Argymhellodd y bwrdd hefyd y dylid casglu mwy o wybodaeth am gyfranogi a pheidio â chyfranogi, a'r rhesymau sydd wrth wraidd peidio â chyfranogi. Cynigiwyd cynyddu ymwybyddiaeth gydag ysgolion, prifysgolion, colegau a sefydliadau lleol hefyd fel modd o wella perfformiad. Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Cabinet ym mis Mehefin 2011 a chaiff gwaith ei gyflawni i ddatblygu'r argymhellion.

## Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles

**7.13 <u>Gwasanaeth Larwm Cymunedol a Theleofal – Gorffennaf 2010</u>**

Mae'r Gwasanaethau Larwm Cymunedol a Theleofal yn darparu systemau larwm ymateb cyflym 24 awr i bobl hŷn ac anabl a phobl ddiamddiffyn eraill i'w defnyddio yn eu cartrefi. Mae'n eu helpu i gadw rhywfaint o annibyniaeth gyda'r wybodaeth bod help ar gael os oes ei angen arnynt. Nod yr adolygiad oedd ystyried sut i gynnal y gwasanaethau Larwm Cymunedol a Theleofal yn ddiogel ac archwilio opsiynau i sicrhau cynaladwyedd yn y dyfodol.

**7.14 Awdurdodau Lleol Eraill**

Ystyriodd y Bwrdd enghreifftiau o arfer a gafwyd ar wefannau awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Roedd yr awdurdodau lleol Cymreig yn cynnwys Sir Benfro. Sir Gâr, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Powys, Caerdydd, Wrecsam, Ceredigion, Gwynedd a Chaerffili. Canfu'r adolygiad o'r arfer er bod gan y rhan fwyaf o awdurdodau yn y DU wasanaethau larwm cymunedol, gallai'r cyfrifoldeb am eu gweithredu fod yn nwylo adrannau amrywiol yr awdurdodau lleol,

megis y Gwasanaethau Cymdeithasol, Cefnogi Pobl neu Dai, neu gyda sefydliadau sector gwirfoddol eraill megis Age Concern. Roedd pob un o'r rhai yr edrychwyd arnynt fodd bynnag yn codi tâl am wasanaethau Larwm Cymunedol, ac roedd ganddynt amrywiaeth o drefniadau ar waith er mwyn casglu'r arian, e.e. gall pobl dalu bob blwyddyn, bob chwarter, neu'n wythnosol, ac asesir amgylchiadau ariannol pobl ar gyfer y gallu i dalu. Roedd cyfraddau gostyngedig a grantiau i helpu gyda'r gost ar gael yn y rhan fwyaf o ardaloedd.

7.15 Canfu'r Bwrdd nad yw'r sefyllfa ariannol gyfredol yn gynaliadwy ac roedd ei argymhelliad yn cynnwys y dylid ceisio cyfraniad ariannol at gost y gwasanaeth gan Brifysgol Abertawe Bro Morgannwg ac i ymchwilio i weld a oes dewis arall mwy cost-effeithiol e.e. technoleg ddigidol gyda Phrifysgol Abertawe. Byddai hyn yn cynnal pobl hŷn neu anabl yn ddiogel yn eu cartrefi. Cymeradwyodd y Cabinet y rhan fwyaf o'r argymhellion ym mis Hydref 2010, gan esbonio'r rhesymau pam na dderbyniwyd rhai argymhellion.

## Adnoddau

**7.16** **<u>Beth yw'r ffordd orau o gyflwyno arbedion a gwelliannau drwy wasanaethau a rennir ?– Ebrill 2010</u>**
Roedd adolygiad gan y Bwrdd Trosolwg a Chraffu Perfformiad a Chyllid ym mis Ebrill 2010 yn ceisio ateb y cwestiwn 'Beth yw'r ffordd orau o gyflwyno arbedion a gwelliannau drwy wasanaethau a rennir?'

**7.17** **Awdurdodau Lleol Eraill**
Daeth Dorothy Edwards Pen-y-bont ar Ogwr, Cyd-gyfarwyddwr yr Ardal Leol, a Susan Cooper, Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion, i gyfarfod y Grŵp Tasg a Gorffen i roi cyflwyniad ar ddatblygu gwasanaethau integredig ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Roedd prif bwyntiau'r cyflwyniad yn cynnwys y canlynol: a) Mae angen datblygu perthnasoedd ac ymddiriedaeth ar y cychwyn cyn dechrau'r rhaglen; b) Mae'r hinsawdd genedlaethol yn galw am newid ond nid yw'n benodol ynghylch sut mae'n newid - ardal pennu materion yn lleol; c) Mae angen gwella canlyniadau gwasanaethau - dyma oedd un o brif ysgogwyr rhaglen Pen-y-bont ar Ogwr; ch) Mae'n ymwneud yn fwy ag anghenion cleifion nag arian; d) Nid oes angen cydlynu pob peth; edrychwch ar eich canlyniadau a gweld lle'r ydych yn gorgyffwrdd, a chydlynu'r pethau hynny'n unig.

7.18 Daeth y Bwrdd i sawl casgliad gan gynnwys bod yn glir ynghylch beth yw prosiect gwasanaethau a rennir; canolbwyntio sylw ar y prosiectau hynny sydd fwyaf tebygol o lwyddo; buddsoddi'n strategol mewn perthnasoedd gyda phartneriaid prosiect; bod yn glir am y gost a'r manteision i bob partner ar y dechrau; sicrhau bod y llywodraethu'n gywir; sicrhau bod cynllunio'r

prosiect a'r rhaglen yn gadarn; a sicrhau bod dulliau gwerthuso monitro corfforaethol ar waith. Gwnaed sawl argymhelliad gan y Bwrdd a gynhwysir yn yr adroddiad hwn.

**7.19 Datblygu Cynllunio Ariannol Tymor Canolig – Tachwedd 2010**

Roedd yr adolygiad gan y Bwrdd Trosolwg a Chraffu Perfformiad a Chyllid ym mis Tachwedd 2010 yn ceisio cynorthwyo â datblygiad parhaus y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATCM) ar gyfer Dinas a Sir Abertawe ymhlith amcanion eraill.

**7.20 Awdurdodau Lleol Eraill**

Rhoddwyd cyflwyniad ar gyd-destun a phrofiadau awdurdodau lleol eraill i gyfarfod Grŵp Tasg a Gorffen gan Vanessa Phillips o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae holl faes meincnodi'n anodd ac roedd yn amhosib dod o hyd i enghreifftiau o arfer da.

7.21 Dyma gasgliad y Bwrdd: roedd CLILC wedi awgrymu y byddai proses fanwl o flaenoriaethu wedi'i chysylltu'n agos â phrosesau cynllunio corfforaethol yn arfer da, a hynny'n cynnwys ymgynghori cyffredinol ar yr opsiynau a chynnwys rhanddeiliaid yn eang. Bernid bod hynny'n ymagwedd decach na gostwng cyllidebau ar draws y bwrdd. Gwelwyd bod y cyngor, yn ystod y blynyddoedd diweddar, wedi symud o ostwng cyllidebau ar draws y bwrdd yn unig. Daeth y bwrdd i gasgliadau eraill ac argymhellodd fod y Cabinet yn ystyried casgliadau a chynigion yn yr adroddiad hwn fel rhan o'r broses gyllidebu barhaus, defnyddio model o flaenoriaethu fel sail i benderfyniadau am y gyllideb yn y dyfodol, a chynnwys cynghorwyr, yr Undebau Llafur, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Ystyriwyd a chymeradwywyd yr argymhellion gan y Cabinet ym mis Mawrth 2011.

7.22 Mae mwy o fanylion a'r Adroddiadau Trosolwg a Chraffu llawn ar gael yn: http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=38510

## Pennod 6 - Ymateb Dinas a Sir Abertawe i'r Argymhelliad Statudol a wnaed yn Adroddiad Gwella Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2010

8. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Dinas a Sir Abertawe wedi ailstrwythuro'r Gwasanaeth Cynllunio. Mae'r gwasanaeth wedi dechrau rhaglen wella. Gwnaed cynnydd da.

8.1 Un argymhelliad o adolygiadau blaenorol oedd gwella gwneud penderfyniadau drwy resymoli trefniadau'r pwyllgor o'r ddau bwyllgor ardal (lle mae pob un o'r 72 aelod yn cyfranogi) i un corff gwneud penderfyniadau dethol â nifer llai o aelodau hyfforddedig sy'n canolbwyntio ar geisiadau cynllunio mawr a dadleuol.

8.2 Ym mis Ebrill 2010, cynyddodd y cyngor nifer y Pwyllgorau Cynllunio Ardal o ddau i bedwar - yn wreiddiol am gyfnod prawf o chwe mis. Roedd hyn yn rhan o becyn ehangach o fesurau i newid strwythurau pwyllgor ar draws y cyngor. Roedd pob cynghorydd yn parhau i fod yn rhan o'r broses gynllunio drwy'r pwyllgorau ardal newydd hyn.

8.3 Cyflawnodd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) adolygiad o drefniadau'r cyngor ar gyfer ei bwyllgorau cynllunio ym mis Tachwedd 2010. Daethpwyd i'r casgliad yn yr adolygiad nad oedd penderfyniad y cyngor i gynyddu nifer y pwyllgorau cynllunio yn ddefnydd effeithlon a phriodol o adnoddau. Gellir crynhoi casgliadau SAC fel a ganlyn:

1. Monitro pa mor ddefnyddiol a chost-effeithiol yw trefniadau newydd y pwyllgorau.
2. Sefydlu cyfeiriad clir ar gyfer cyflwyno gwasanaeth cynllunio o ddydd i ddydd a'u gwella yn y tymor hwy.
3. Datblygu perthynas weithio fwy adeiladol rhwng cynghorwyr a swyddogion.
4. Gwella cost-effeithiolrwydd y gwasanaeth.
5. Gwella llywodraethu.

8.4 Cyflwynwyd argymhellion SAC i'r Cyngor eu hystyried.

8.4.1 Penderfynodd y Cyngor ar y canlynol:

a) Y byddai'r 4 Pwyllgor Cynllunio Ardal yn cael eu disodli gan 2 Bwyllgor Rheoli Datblygu Ardal;

b) Y byddai'r Pwyllgor Cynllunio a Deisebau'n cael ei gadeirio yn ôl rota, gan leihau angen am Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig i gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Deisebau na fydd bellach yn cael ei dalu;

c) Y 2 Bwyllgor Rheoli Datblygu Ardal i gwrdd bob 4 wythnos ar brynhawn Mawrth;

ch) Rhoi'r cyfrifoldeb i Grŵp Tasg Aelodau'r Gwasanaethau Cynllunio am adolygu adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â'i raglen waith; Bydd hawliau siarad mewn cyfarfodydd pwyllgorau cynllunio yn parhau wrth ddisgwyl adolygiad llawn;

d) Hysbysir SAC am yr ymateb dros dro gan y cyngor i'w hadroddiad.

dd) Cyfeirir yr awgrymiadau am yr ymweliadau safle yn ôl i Weithgor y Cyfansoddiad er mwyn cael eglurhad pellach.

**8.5 CAMAU GWEITHREDU'N DILYN YR YMATEB I'R SAC YM MIS CHWEFROR 2011**

**8.5.1 Grŵp Tasg Aelodau'r Gwasanaethau Cynllunio (GTAGC)**
Mae'r GTAGC wedi parhau â'i waith o ystyried canfyddiadau SAC. Mae wedi cwrdd ddwywaith ers yr adroddiad a gafwyd ym mis Chwefror ar gynnydd.

8.5.2 Yng nghyfarfod y GTAGC a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2011, ystyriwyd cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Adfywio a Thai ar ei nodau ac amcanion ar gyfer y gwasanaeth, yr angen am gynnwys aelodau yn y broses gynllunio a goblygiadau adroddiad SAC, ynghyd â chyd-destun trosgynnol yr economi leol a chenedlaethol a chyfyngiadau ariannol y cyngor. Gwnaed adroddiad hefyd ar y potensial ar gyfer meincnodi a chynghorau eraill. Trafodwyd a chytunwyd ar raglen waith.

8.5.3 Yng nghyfarfod y GTAGC a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2011, ystyriwyd holiadur drafft i aelodau ar argymhellion adroddiad SAC a'u barn am y gwasanaeth. Cyflwynwyd adroddiad ar feincnodi hefyd ac ystyriwyd adroddiad ar weithio y tu allan i oriau gan swyddogion gorfodi. Adolygwyd rhaglen waith y Grŵp.

**8.5.4 Y Pwyllgor Cynllunio**

Rhoddwyd cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Adfywio a Thai i'r Pwyllgor Cynllunio ar 21 Gorffennaf 2011, a roddwyd yn flaenorol i gyfarfod y GTAGC ar 14 Ebrill 2011, a thrafodwyd adroddiad ar yr holiadur drafft i'r aelodau. Nodwyd y cyflwyniad, a gohiriwyd yr holiadur hyd nes y rhoddir cynnig gerbron y cyngor am strwythur y pwyllgor a nifer y pwyllgorau.

**8.5.5 Y Cyngor**

Mewn cyfarfod o'r cyngor a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2011, ystyriwyd y nifer priodol o Bwyllgorau Cynllunio a chadarnhau penderfyniad 3 Chwefror y dylid mabwysiadu dau Bwyllgor Ardal ac un Pwyllgor Cynllunio.

8.5.6 Mewn cyfarfod o'r cyngor a gynhaliwyd ar 16 Mai 2011, diwygiwyd y cyfansoddiad gan gynnwys sefydlu Pwyllgor Deisebau i ystyried deisebau nad ydynt yn ymwneud â chynllunio. Roedd hyn i bob pwrpas wedi adfer rôl y Pwyllgor Cynllunio i faterion sy'n ymwneud â chynllunio.

8.5.7 Mewn cyfarfod o'r cyngor a gynhaliwyd ar 4Awst 2011, ystyriwyd cynnig yn ymwneud ag adroddiad SAC a nifer y Pwyllgorau Cynllunio, ac ailgadarnhau penderfyniad mis Chwefror yn ymwneud â strwythur pwyllgorau.

**8.6 CAMAU GWEITHREDU'R DYFODOL**

Bydd cyfarfod nesaf y GTAGC (i'w gynnal ar 8 Medi 2011 ar adeg ysgrifennu) yn ystyried cynnig y cyngor a'i oblygiadau ar gyfer yr holiadur i Aelodau, ei ymarfer meincnodi arfaethedig a'i rhaglen waith. Yn ogystal, bydd yn derbyn ac yn ystyried Siarter Gorfodi drafft i'w gyfeirio i'r Pwyllgor Cynllunio i'w fabwysiadu.

8.6.1 Bydd y GTAGC, y Pwyllgor Cynllunio a'r cyngor yn parhau i ystyried argymhellion SAC gyda'r bwriad o anfon ymateb llawn maes o law.

## Atodiad A - Y Ddyletswydd Gyffredinol i Wella

9. Mae'r cyngor yn cael ei archwilio bob blwyddyn i brofi pa mor ddigonol yw ei drefniadau i sicrhau gwelliant. Mae'r prosesau y mae'r cyngor yn eu defnyddio i Gyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol i wella i'w gweld ym Mhennod 4.

9.1 Canfu archwiliad 2010/11 fod rhai trefniadau'n cefnogi gwelliant yn gadarnhaol a bod arweinyddiaeth gadarn, ond bod hefyd rhai problemau llywodraethu a diffygion mewn rhai trefniadau busnes.

9.2 Roedd adroddiad yr archwiliad wedi nodi sawl maes ar gyfer gwella, a nodwyd hefyd rhai meysydd lle'r oedd angen cyflawni mwy o waith. Roedd y cyngor wedi ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn a cheir crynodeb o'r cynnydd a nodwyd gan yr archwilwyr isod:

- Mae'r cyngor wedi rhoi ymagwedd cynllunio busnes newydd ar waith sydd wedi gwella'r integreiddio rhwng cynlluniau gwasanaethau, ariannol a'r gweithlu.
- Gwnaed cynnydd da wrth ddatblygu trefniadau i gryfhau atebolrwydd am ymddygiad aelodau etholedig.
- Mae'r cyngor wedi egluro ei strwythurau gwneud penderfyniadau TGCh.
- Mae'r cyngor wedi datblygu gweledigaeth strategol glir ar gyfer Adnoddau Dynol (AD) ac mae'n datblygu dogfen Strategaeth AD ffurfiol.

9.3 Bydd mwy o wybodaeth am ganfyddiadau'r archwilydd ar gael yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol 2011/12 ar Gyngor Abertawe gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

9.4 Mae gan y cyngor ddyletswydd i roi trefniadau ar waith i sicrhau gwelliant parhaus. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid i'r cyngor ystyried y canlynol:

1. Gwneud cynnydd tuag at amcanion cymunedol.
2. Gwella safon gwasanaethau.
3. Gwella argaeledd gwasanaethau.
4. Gwella tegwch.
5. Cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy ardaloedd.

6. Gwella effeithlonrwydd gwasanaethau a swyddogaethau.
7. Blaengaredd a newid sy'n cyfrannu at welliant.

9.5 Bydd holl weithgaredd gwella'r cyngor a blaenoriaethau'r cyngor ar gyfer gwella (Amcanion Gwella) yn cyflwyno un neu fwy o'r agweddau hyn. Ceir y manylion am hyn isod.

| **Gweithgaredd Gwella** | **Cynnydd tuag at Amcanion Cymunedol** | **Gwella safonau gwasanaethau** | **Gwella argaeledd gwasanaethau** | **Tegwch** | **Cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy ardaloedd** | **Gwella effeithlonrwydd** | **Blaengaredd neu newid** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cewynnau Go Iawn** | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| **Casglu Gwastraff Swmpus** | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Hyrwyddwyr Gwyrdd** | ✓ | | | | ✓ | | ✓ |
| **Ymgyrch Hyrwyddo Ailgylchu** | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| **Gwobr Draig Werdd y Gwasanaethau Adeiladu Corfforaethol** | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Gwelliannau i Hawliau Tramwy** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| **Bioamrywiaeth** | ✓ | | | | ✓ | | |
| **Llwybr Arfordir Gŵyr** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| **Gwobrau'r Faner Werdd/Las a'r Arfordir Glas** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| **Parciau a Mannau Agored** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| **Y Bws Chwarae a'r Gwibfws Ieuenctid** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |

| Gweithgaredd Gwella | Cynnydd tuag at Amcanion Cymunedol | Gwella safonau gwasanaethau | Gwella argaeledd gwasanaethau | Tegwch | Cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy ardaloedd | Gwella effeithlonrwydd | Blaengaredd neu newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Recriwtio Gofalwyr Maeth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Troseddu Ieuenctid | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Rhaglen AoS 2020 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Defnyddio'r Llyfrgell ac Ailddatblygu'r Glynn Vivian | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Gŵyl Haf Bae Abertawe | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Parc Busnes Felindre | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| Rhodfa | ✓ | | | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Taith Prydain | | | | | ✓ | | |
| Gwelliannau i Gastell Abertawe | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Cadwraeth Castell Ystumllwynarth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Twristiaeth Arfordirol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Twristiaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

| Gweithgaredd Gwella | Cynnydd tuag at Amcanion Cymunedol | Gwella safonau gwasanaethau | Gwella argaeledd gwasanaethau | Tegwch | Cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy ardaloedd | Gwella effeithlonrwydd | Blaengaredd neu newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Opsiynau Rheoli Hamdden** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Dinasoedd Iach** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Dinas Noddfa** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| **Marc Enfys y Gymuned Lesbiaidd, Hoyw Deurywiol a Thrawsrywiol** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |

| Amcan Gwella | Cynnydd tuag at Amcanion Cymunedol | Gwella safonau gwasanaethau | Gwella argaeledd gwasanaethau | Tegwch | Cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy ardaloedd | Gwella effeithlonrwydd | Blaengaredd neu newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan Gwella 1**<br><br>**Gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc, cynyddu lles, codi safonau cyrhaeddiad a chyflawniad a sicrhau eu bod yn ddiogel fel bod y Ddinas a'r Sir yn darparu cyfleoedd addysg rhagorol** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Amcan Gwella 2**<br><br>**Gwella a diogelu ein hamgylchedd a gwneud i gymunedau deimlo'n fwy diogel er mwyn i'r Ddinas a'r Sir fod yn lle gwych i fyw ynddo.** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

| Amcan Gwella | Cynnydd tuag at Amcanion Cymunedol | Gwella safonau gwasanaethau | Gwella argaeledd gwasanaethau | Tegwch | Cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy ardaloedd | Gwella effeithlonrwydd | Blaengaredd neu newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan Gwella 3 –**<br><br>**Gwella perfformiad economaidd Abertawe fel bod y Ddinas a'r Sir yn cynnal economi ffyniannus.** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Amcan Gwella 4 –**<br><br>**Gwella Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i bawb fel bod y Ddinas a'r Sir yn cefnogi ac yn hyrwyddo iechyd da** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

## Atodiad B - Amcan Gwella a Dangosyddion Perfformiad Strategol 2011/11

### Dinas a Sir Abertawe
### Perfformiad Blynyddol 2007-08 i 2010-11

**Allwedd:** Colofn 5 - Perfformiad Blynyddol Yn 2010/11 o'i gymharu â'r cyfartaledd Perfformiad ar draws pob un o'r 22 awdurdod yng Nghymru

| **Yn uwch na** Chyfartaledd Cymru (**UWCH**) | **Yr un peth â** Chyfartaledd Cymru (**YR UN PETH**) | **Yn is na** Chyfartaledd Cymru (**IS**) |
|---|---|---|

- Nid yw'n Ddangosydd Cenedlaethol, felly nid oes cyfartaledd ar gael ar gyfer Cymru

**DSC**= Dangosydd Strategol Cenedlaethol

| Perfformiad Gwasanaethau Blynyddol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **DP a Chyfeiriad Dymunol** | **Perfformiad Blynyddol 2007/08** | **Perfformiad Blynyddol 2008/09** | **Perfformiad Blynyddol 2009/10** | **Perfformiad Blynyddol 2010/11 (Cyfartaledd Cymru)** | **Sylwadau a Thuedd Wella** |
| **Addysg** | | | | | |
| **EDCP21 ↑** Canran y disgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod a gyflawnodd 5 TGAU neu fwy gyda graddau A*- C neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol yn ystod yr haf blaenorol | 55.6% | 57.5% | 59.9% | 62.7%* | Gwelliant mewn perfformiad flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2007<br>Tuedd Wella (07-11) ↑ |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Perfformiad Blynyddol 2007/08 | Perfformiad Blynyddol 2008/09 | Perfformiad Blynyddol 2009/10 | Perfformiad Blynyddol 2010/11 (Cyfartaledd Cymru) | Sylwadau a Thuedd Wella |
|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg** | | | | | |
| **EDU/002i↓(DCS)** Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai yng ngofal yr awdurdod lleol) yn yr ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol ac yn 15 oed yn y mis Awst blaenorol, sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu yn y gwaith heb gymhwyster allanol cymeradwy. | Dd/B | 2.7% | 1.6% | 0.9% (0.8%) **(IS)** | Gwelliant mewn perfformiad flwyddyn ar ôl blwyddyn ers cyflwyno'r dangosydd yn 2008/09<br>Tuedd Wella (08-11)<br>↑ |
| **EDU/002ii ↓(DCS)** Canran yr holl ddisgyblion yng ngofal yr awdurdod lleol yn yr ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol ac yn 15 oed yn y mis Awst blaenorol, sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu yn y gwaith heb gymhwyster allanol cymeradwy. | Dd/B | 14.8% | 13.6% | 0.0% (6.5%) **(UWCH)** | Gwelliant mewn perfformiad flwyddyn ar ôl blwyddyn ers cyflwyno'r dangosydd yn 2008/09<br>Tuedd Wella (08-11)<br>↑ |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Perfformiad Blynyddol 2007/08 | Perfformiad Blynyddol 2008/09 | Perfformiad Blynyddol 2009/10 | Perfformiad Blynyddol 2010/11 (Cyfartaledd Cymru) | Sylwadau a Thuedd Wella |
|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg** | | | | | |
| **EDU/003↑** - Canran y disgyblion sy'n gymwys am asesiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd, a bennwyd gan Asesiad yr Athro/Athrawes | 72.6% | 73.4% | 74.4% | 77.5% (78.4%) **(IS)** | Gwelliant mewn perfformiad flwyddyn ar ôl blwyddyn , gyda lefelau 5% yn well na 2007/08<br><br>Tuedd Wella (07-11) ↑ |
| **EDU/006i ↑**<br>Canran y disgyblion a aseswyd, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n derbyn Asesiad Athro yn Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 | Dd/B | 9.1% | 9.3% | 9.2% (19.5%) **(IS)** | Er bod perfformiad yn uwch na 2008/09, cafwyd gostyngiad o'i gymharu â 2009/10<br><br>Tuedd Wella (08-11) ↑ |
| **EDU/006ii ↑**<br>Canran y disgyblion a aseswyd, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cael Asesiad Athrawon drwy gyfrwng y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 | Dd/B | 8.8% | 8.1% | 9.1% (16.8%) **(IS)** | Er gwaethaf gostyngiad mewn perfformiad yn 2009/10, mae'r perfformiad diweddaraf wedi rhagori ar 2008/09.<br><br>Tuedd Wella (08-11) ↑ |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Perfformiad Blynyddol 2007/08 | Perfformiad Blynyddol 2008/09 | Perfformiad Blynyddol 2009/10 | Perfformiad Blynyddol 2010/11 (Cyfartaledd Cymru) | Sylwadau a Thuedd Wella |
|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg** | | | | | |
| **Cynhwysiad Addysg** | | | | | |
| **EDCP12b ↓**<br>Disgyblion sy'n cael eu gwahardd am gyfnodau penodol - ysgolion uwchradd | 863 | 835 | 737 | 572* | Gwelliant mewn perfformiad flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2008<br><br>Tuedd Wella (07-11)<br>↑ |
| **EDCP18c ↓**<br>Canran y bobl ifanc (16 oed) y gwyddys eu bod Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET) | Dd/B | 6.9% | 6.7% | 4.2%* | Gwelliant mewn perfformiad flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2008<br><br>Tuedd Wella (08-11)<br>↑ |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Perfformiad Blynyddol 2007/08 | Perfformiad Blynyddol 2008/09 | Perfformiad Blynyddol 2009/10 | Perfformiad Blynyddol 2010/11 (Cyfartaledd Cymru) | Sylwadau a Thuedd Wella |
|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg** | | | | | |
| **EDU/011 ↑ (DCS)**<br>Y sgôr pwyntiau gyfartalog i ddisgyblion 15 oed ar 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol | 322 | 343 | 351 | 372<br>(394)<br>**(IS)** | Gwelliant mewn perfformiad flwyddyn ar ôl blwyddyn , gyda lefelau 15.5% yn well na 2007/08<br><br>Tuedd Wella (07-11)<br>↑ |
| **EDU/015a ↑ (DCS)**<br>Canran y datganiadau o anghenion addysgol arbennig terfynol a roddwyd o fewn 26 wythnos gan gynnwys eithriadau | 56.3% | 71.4% | 71.4% | 82.6%<br>(76.3%)<br>**(UWCH)** | Gwelliant mewn perfformiad flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda lefelau dros 25% yn well na 2007/08<br><br>Tuedd Wella (07-11)<br>↑ |
| **EDU/015b ↑ (DCS)**<br>Canran y datganiadau o anghenion addysgol arbennig terfynol a roddwyd o fewn 26 wythnos gan gynnwys eithriadau | 94.2% | 95.8% | 97.8% | 100%<br>(90.3%)<br>**(UWCH)** | Gwelliant mewn perfformiad flwyddyn ar ôl blwyddyn<br><br>Tuedd Wella (07-11)<br>↑ |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Perfformiad Blynyddol 2007/08 | Perfformiad Blynyddol 2008/09 | Perfformiad Blynyddol 2009/10 | Perfformiad Blynyddol 2010/11 (Cyfartaledd Cymru) | Sylwadau a Thuedd Wella |
|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg** | | | | | |
| **EDU/016a ↑**<br>Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | 92.5% | 92.6% | 92.4% | 92.3%<br>(93.1%)<br>**(IS)** | Er bod perfformiad wedi cyrraedd uchafbwynt yn 2008/09, mae bellach yn is na lefelau 2007/08<br><br>Tuedd Wella (07-11)<br>↓ |
| **EDU/016b ↑**<br>Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd. | 90.3% | 90.8% | 90.7 | 90.6%<br>(91.1%)<br>**(IS)** | Er bod perfformiad wedi cyrraedd uchafbwynt yn 2008/09, mae wedi gostwng yn flynyddol ers hynny, ond erys yn uwch na lefelau 2007/08.<br><br>Tuedd Wella (07-11)<br>↑ |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Perfformiad Blynyddol 2007/08 | Perfformiad Blynyddol 2008/09 | Perfformiad Blynyddol 2009/10 | Perfformiad Blynyddol 2010/11 (Cyfartaledd Cymru) | Sylwadau a Thuedd Wella |
|---|---|---|---|---|---|
| **Yr Amgylchedd** | | | | | |
| **Amddiffyn y Cyhoedd** | | | | | |
| **PPN/001iv ↑**<br>Canran y busnesau risg uchel a oedd yn debygol o gael archwiliad rhaglenedig a gafodd eu harchwilio am iechyd a diogelwch | 100% | 100% | 100% | 100%<br>(99%)<br>**(UWCH)** | Perfformiad ar ei uchaf yn gyson drwy gydol y cyfnod 2007-2011<br><br>Tuedd Wella (07-11)<br>↑ |
| **PSR/004 ↑ (DCS)**<br>Canran anheddau'r sector preifat a oedd wedi bod yn wag am o leiaf 6 mis ar 1 Ebrill a gymerwyd i fyw ynddynt yn ystod y flwyddyn drwy weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | 1.04% | 1.02% | 1.16% | 1.22%<br>(4.3%)<br>**(IS)** | Ar wahân i ostyngiad yn 2008/09, mae perfformiad wedi gwella'n gyson.<br><br>Tuedd Wella (07-11)<br>↑ |
| **PSR/007a ↑**<br>O'r Tai Amlbreswyl sy'n hysbys i'r awdurdod lleol, y ganran â thrwydded lawn. | Dd/B | 21% | 31.8% | 46.6%<br>(24%)<br>**(UWCH)** | Gwelliant sylweddol parhaus mewn perfformiad<br><br>Tuedd Wella (08-11)<br>↑ |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Perfformiad Blynyddol 2007/08 | Perfformiad Blynyddol 2008/09 | Perfformiad Blynyddol 2009/10 | Perfformiad Blynyddol 2010/11 (Cyfartaledd Cymru) | Sylwadau a Thuedd Wella |
|---|---|---|---|---|---|
| **Yr Amgylchedd** | | | | | |
| **Amddiffyn y Cyhoedd** | | | | | |
| **PSR/007b**<br>O'r Tai Amlbreswyl sy'n hysbys i'r awdurdod lleol, y ganran sydd wedi derbyn trwydded amodol. | Dim barn yn genedlaethol ar lefel y perfformiad | Dim barn yn genedlaethol ar lefel y perfformiad | Dim barn yn genedlaethol ar lefel y perfformiad | 13.6% | Dim cyfartaledd cenedlaethol i'w gymharu yn ei erbyn |
| **Strydlun** | | | | | |
| **STS/005b ↑**<br>Canran y priffyrdd a'r tir perthnasol a archwiliwyd a chanddynt safon glendid uchel neu dderbyniol | 91.2% | 92.3% | 94% | 92.6%<br>(93.8%)<br>**(IS)** | Nid yw'r gwelliant rhwng 2007 a 2010 wedi'i gynnal a chafwyd gostyngiad yn 2010/11 Ond yn gyffredinol, mae perfformiad yn uwch na 2007/08.<br><br>Tuedd Wella (07-11)<br>↑ |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Perfformiad Blynyddol 2007/08 | Perfformiad Blynyddol 2008/09 | Perfformiad Blynyddol 2009/10 | Perfformiad Blynyddol 2010/11 (Cyfartaledd Cymru) | Sylwadau a Thuedd Wella |
|---|---|---|---|---|---|
| **Yr Amgylchedd** | | | | | |
| **CRE4 ↑**<br>Canran y tasgau glanhau graffiti 'blaenoriaeth' a gwblhawyd o fewn 7 niwrnod | 98.7% | 99.68% | 95.55% | 93.33%* | Gwelwyd dirywiad yn y ddwy flynedd ddiwethaf gyda pherfformiad 2010/11 yn llai na 2007/08.<br>Tuedd Wella (07-11)<br>↓ |
| **STS/006 ↑ (DCS)**<br>Canran yr achosion tipio sbwriel yn anghyfreithlon yr adroddwyd amdanynt a gliriwyd o fewn 5 niwrnod gwaith | Dd/B | 93.03% | 96.39% | 92.50%<br>(95.50%)<br>**(IS)** | Er gwaethaf perfformiad 2009/10 yn gwella, mae 2010/11 bellach yn is na lefelau 2008/09.<br>Tuedd Wella (08-11)<br>↓ |
| **WMT/004 ↓ (DCS)**<br>Canran y gwastraff dinesig a aeth i safleoedd tirlenwi | 68.94% | 67.66% | 64.93% | 59.26%<br>(50.88%)<br>**(IS)** | Gwelliant cyson ers 2007/08 gyda lefelau bron 10% yn well na 2007/08.<br>Tuedd Wella (07-11)<br>↑ |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Perfformiad Blynyddol 2007/08 | Perfformiad Blynyddol 2008/09 | Perfformiad Blynyddol 2009/10 | Perfformiad Blynyddol 2010/11 (Cyfartaledd Cymru) | Sylwadau a Thuedd Wella |
|---|---|---|---|---|---|
| **Yr Amgylchedd** | | | | | |
| **WMT/009 ↑ (DCS)**<br>Canran y gwastraff dinesig a gasglwyd gan awdurdodau lleol a'i baratoi i'w ailddefnyddio a/neu ailgylchu, gan gynnwys biowastraff a wahanwyd ymlaen llaw sy'n cael ei gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn ffordd arall. | Dd/B | Dd/B | Dd/B | 40.47%<br>(43.6%)<br>**(IS)** | Dangosydd yn newydd ar gyfer 2010/11, felly dim tuedd ar gael. |
| **Cludiant** | | | | | |
| **THS/007 ↑ (DCS)**<br>Canran yr oedolion 60+ oed sy'n meddu ar docyn teithio rhatach | 89.9% | 96.3% | 100% | 95.6%<br>(83.3%)<br>**(UWCH)** | Perfformiad anghyson, ond perfformiad diweddar bron 5% yn uwch na 2007/08<br><br>Tuedd Wella (07-11)<br>↑ |
| **ETE8 ↑**<br>Nifer y ceir sy'n defnyddio'r gwasanaethau parcio a theithio | Dd/B | 325,939 | 320,049 | 302,049* | Perfformiad wedi gostwng yn gyson ers 2008.<br><br>Tuedd Wella (08-11)<br>↓ |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Perfformiad Blynyddol 2007/08 | Perfformiad Blynyddol 2008/09 | Perfformiad Blynyddol 2009/10 | Perfformiad Blynyddol 2010/11 (Cyfartaledd Cymru) | Sylwadau a Thuedd Wella |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adfywio a Thai** | | | | | |
| **Diwylliant a Thwristiaeth** | | | | | |
| **LCS/002 ↑ (DCS)**<br>Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn gyda'r ymwelwyr yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol, fesul 1,000 o'r boblogaeth | Dd/B | 7811 | 7814 | 7651<br>(8524)<br>**(IS)** | Cynnydd ymylol yn 2009/10 wedi newid i ostyngiad yn 2010/11<br>Tuedd Wella (08-11)<br>↓ |
| **LCL/001 ↑ (DCS)**<br>Nifer yr ymweliadau â Llyfrgell Gyhoeddus yn ystod y flwyddyn y 1,000 o'r boblogaeth | 5003 | 6313 | 6503 | 6266 | Er gwaethaf perfformiad yn gostwng yn llai na ffigur 08/09, mae'n parhau'n sylweddol uwch na 07/08.<br>Tuedd Wella (07-11)<br>↑ |
| **CTCH1 ↑**<br>Canran yr oedolion yn Abertawe sy'n cyflawni 5 gwaith 30 yr wythnos (WHS) | Dd//B | 30% | 27% | 27%* | Perfformiad wedi sefydlogi ar 27% ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf sy'n is na ffigur 2008.<br>Tuedd Wella (08-11)<br>↓ |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Perfformiad Blynyddol 2007/08 | Perfformiad Blynyddol 2008/09 | Perfformiad Blynyddol 2009/10 | Perfformiad Blynyddol 2010/11 (Cyfartaledd Cymru) | Sylwadau a Thuedd Wella |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adfywio a Thai** | | | | | |
| **Adfywio a Chynllunio** | | | | | |
| **ESD1 ↑**<br>Gwerth mewnfuddsoddi sy'n ymwneud â phrosiectau eiddo lle mae'r awdurdod yn berchen ar rywfaint o'r tir (neu dir cyfagos), sy'n hwyluso'r datblygiad | 23 | 10.5 | 23 | 45.1* | Perfformiad yn anghyson, ond y ffigurau diweddaraf yw'r uchaf o swm sylweddol.<br>Tuedd Wella (07-11)<br>↑ |
| **PLA/004a ↑**<br>Canran y ceisiadau cynllunio mawr y penderfynwyd arnynt o fewn 13 wythnos yn ystod y flwyddyn | 30.6% | 30.2% | 42.1% | 17.4%<br>(33.7%)<br>**(IS)** | Cafwyd gostyngiad mewn perfformiad yn 2010/11 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.<br>Tuedd Wella (07-11)<br>↓ |
| **PLA/004c ↑**<br>Canran y deiliaid tai<br>Y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt yn ystod y flwyddyn o fewn 8 wythnos | 70.5% | 71% | 70.3% | 71.9%<br>(84.2%)<br>**(IS)** | Perfformiad wedi bod yn anghyson ond o fewn gwahaniaeth o 1.4% Fodd bynnag, y perfformiad diweddaraf yw' uchaf ers 2007.<br>Tuedd Wella (07-11)<br>↑ |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Perfformiad Blynyddol 2007/08 | Perfformiad Blynyddol 2008/09 | Perfformiad Blynyddol 2009/10 | Perfformiad Blynyddol 2010/11 (Cyfartaledd Cymru) | Sylwadau a Thuedd Wella |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adfywio a Thai** | | | | | |
| **Adfywio a Chynllunio** | | | | | |
| **PLA/006 ↑ (DCS)**<br>Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn. | 9 | 30 | 8 | 21<br>(25)<br>**(IS)** | Perfformiad wedi bod yn anghyson, ond y ffigurau diweddaraf yw'r ail uchaf dros y cyfnod.<br><br>Tuedd Wella (07-11)<br>↑ |
| **Gwasanaethau Adeiladu ac Eiddo Corfforaethol** | | | | | |
| **EEF/002 (DCS)**<br>Canran y newid yn yr allyriadau carbon yn y stoc adeiladau cyhoeddus annomestig | Dd/B | Dd/B | Dd/B | 6.12 | Blwyddyn gyntaf y diffiniad newydd o'r DP hwn felly'n methu â phenderfynu ar dueddiadau. |
| **Tai** | | | | | |
| **PSR/002 ↓ (DCS)**<br>Nifer y diwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i gyflwyno'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 487 diwrnod | 378 niwrnod | 370 diwrnod | 374 diwrnod<br>(387 diwrnod)<br>**(UWCH)** | Ac eithrio gostyngiad bach yn 2010/11, mae perfformiad wedi gwella bob blwyddyn<br><br>Tuedd Wella (07-11)<br>↑ |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Perfformiad Blynyddol 2007/08 | Perfformiad Blynyddol 2008/09 | Perfformiad Blynyddol 2009/10 | Perfformiad Blynyddol 2010/11 (Cyfartaledd Cymru) | Sylwadau a Thuedd Wella |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adfywio a Thai** | | | | | |
| **Tai** | | | | | |
| **HSG2 ↓**<br>Nifer y tai gwag | 316 | 383 | 286 | 251* | Er gwaethaf anghysondeb yn 2008/09, mae'r perfformiad wedi gwella bob blwyddyn<br><br>Tuedd Wella (07-11)<br>↑ |
| **HHA/013 ↑ (DCS)**<br>Canran yr aelwydydd digartref posib yr ataliwyd eu gwneud yn ddigartref am o leiaf 6 mis | 13.9% | 23.3% | 29.1% | 29.4%<br>(58.4)<br>**(IS)** | Perfformiad wedi gwella bob blwyddyn<br><br>Tuedd Wella (07-11)<br>↑ |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Perfformiad Blynyddol 2007/08 | Perfformiad Blynyddol 2008/09 | Perfformiad Blynyddol 2009/10 | Perfformiad Blynyddol 2010/11 (Cyfartaledd Cymru) | Sylwadau a Thuedd Wella |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | |
| **Gwasanaethau i Oedolion** | | | | | |
| **SCA/001 ↓ (DCS)**<br>Cyfradd gohirio trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed | 6.78 | 4.95 | 2.97 | 9.00<br>(5.8)<br>**(IS)** | Perfformiad wedi gwella yn ystod y 3 blynedd gyntaf ond wedi dirywio yn 2010/11.<br><br>Tuedd Wella (07-11)<br>↓ |
| **SCA/002a ↑ (DCS)**<br>Cyfradd y bobl hŷn (65+ oed) sy'n cael cefnogaeth yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth dros 65+ oed ar 31 Mawrth. | 98.67 | 90.18 | 94.60 | 69.6<br>(81.40)<br>**(IS)** | Er gwaethaf rhywfaint o gynnydd mewn perfformiad ar gyfer 09/10, ceir dirywiad mewn perfformiad ymhob un o'r tair blynedd yr adroddwyd amdanynt yn 2007/08<br><br>Tuedd Wella (07-11)<br>↓ |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Perfformiad Blynyddol 2007/08 | Perfformiad Blynyddol 2008/09 | Perfformiad Blynyddol 2009/10 | Perfformiad Blynyddol 2010/11 (Cyfartaledd Cymru) | Sylwadau a Thuedd Wella |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | |
| **Gwasanaethau i Oedolion** | | | | | |
| **SCA/002b ↓ (DCS)** Cyfradd y bobl hŷn (65+ oed) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth dros 65+ oed ar 31 Mawrth. | 20.10 | 20.94 | 22.71 | 22.16 (21.75) (IS) | Er gwaethaf rhywfaint o gynnydd mewn perfformiad ar gyfer 10/11 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ceir dirywiad mewn perfformiad ymhob un o'r tair blynedd yr adroddwyd amdanynt yn 2007/08<br>Tuedd Wella (07-11) ↓ |
| **SCA/003a ↑** Canran y cleientiaid sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned yn ystod y flwyddyn yn y grwpiau oedran 18-64 | 95.36% | 96.37% | 96.42% | 96.90% (94.05%) (UWCH) | Gwelliant parhaus dros y cyfnod pedair blynedd cyfan<br>Tuedd Wella (07-11) ↑ |
| **SCA/003b↑** Canran y cleientiaid sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned yn ystod y flwyddyn yn y grŵp oedran 65+ | 80.27% | 82.07% | 83.67% | 80.43% (83.71%) (IS) | Perfformiad anghyson, ond lefelau diweddar yn uwch na 2007.<br>Tuedd Wella (07-11) ↑ |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Perfformiad Blynyddol 2007/08 | Perfformiad Blynyddol 2008/09 | Perfformiad Blynyddol 2009/10 | Perfformiad Blynyddol 2010/11 (Cyfartaledd Cymru) | Sylwadau a Thuedd Wella |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | |
| **Gwasanaethau i Oedolion** | | | | | |
| **SCA/007** ↑ Canran y cleientiaid gyda chynllun gofal ar 31 Mawrth y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu ac a adolygwyd yn ystod y flwyddyn | 63.0% | 67.6% | 70.7% | 74.2%<br>(75.5%)<br>**(IS)** | Gwelliant cyson dros y cyfnod pedair blynedd.<br><br>Tuedd Wella (07-11)<br>↑ |
| **Gwasanaethau Plant** | | | | | |
| **SCC/001a** ↑<br>Canran y lleoliadau cyntaf i blant oedd yn derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a gychwynnodd gyda chynllun gofal ar waith | 78% | 75.3% | 100% | 100%<br>(91.5%)<br>**(UWCH)** | Gwelliant sylweddol gan ddiweddu mewn uchafbwynt perfformiad ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf.<br><br>Tuedd Wella (07-11)<br>↑ |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Perfformiad Blynyddol 2007/08 | Perfformiad Blynyddol 2008/09 | Perfformiad Blynyddol 2009/10 | Perfformiad Blynyddol 2010/11 (Cyfartaledd Cymru) | Sylwadau a Thuedd Wella |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | | | | | |
| **SCC/001b ↑**<br>Ar gyfer y plant hynny oedd yn derbyn gofal ac a oedd yn disgwyl eu hail adolygiad yn ystod y flwyddyn honno (i'w gynnal yn y 4ydd mis), y ganran â chynllun sefydlogrwydd ar y dyddiad disgwyliedig. | 85.3% | 84.1% | 72.4% | 96.7%<br>(94.1%)<br>**(UWCH)** | Gwelliant sylweddol wedi disodli dirywiad graddol mewn perfformiad yn 2010/11 sydd dros 11% yn well na 2007.<br>Tuedd Wella (07-11)<br>↑ |
| **SCC/002 ↓ (DCS)**<br>Canran y PDG ar 31 Mawrth a newidiodd ysgol o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod neu gyfnodau derbyn gofal, nad oedd o ganlyniad i drefniadau trosglwyddo, yn y deuddeng mis hyd at 31 Mawrth | 30.9% | 16.2% | 19.2% | 15.32%<br>(14.16%) | Lefelau perfformiad wedi gwella oddeutu 50% o'u cymharu â 2007.<br>Tuedd Wella (07-11)<br>↑ |
| **SCC/007a ↑**<br>Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn a ddyrannwyd i weithiwr cymdeithasol ar gyfer asesiad cychwynnol | 74% | 40.5% | 41.4% | 42.5%<br>(44.4%)<br>**(IS)** | Rydym yn agos at gyfartaledd Cymru. Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid i reoli'r holl gyfeiriadau mewn dull effeithiol ac amserol. |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Perfformiad Blynyddol 2007/08 | Perfformiad Blynyddol 2008/09 | Perfformiad Blynyddol 2009/10 | Perfformiad Blynyddol 2010/11 (Cyfartaledd Cymru) | Sylwadau a Thuedd Wella |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | | | | | |
| **SCC/007b ↓**<br>Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn a ddyrannwyd i rywun heblaw am weithiwr cymdeithasol ar gyfer asesiad cychwynnol | 6.2% | 10.9% | 4.2% | 5.1%<br>(10.8%)<br>**(UWCH)** | Rydym yn agos at gyfartaledd Cymru. Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid i reoli'r holl gyfeiriadau mewn dull effeithiol ac amserol. |
| **SCC/007c ↑**<br>Canran yr cyfeiriadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn nad aeth yn eu blaenau i'w dyrannu ar gyfer asesiad cychwynnol | Dim barn yn genedlaethol ar lefel y perfformiad | Dim barn yn genedlaethol ar lefel y perfformiad | Dim barn yn genedlaethol ar lefel y perfformiad | 52.3% | Dim cyfartaledd cenedlaethol i'w gymharu yn ei erbyn |
| **SCC/033a ↑ (DCS)**<br>Canran y bobl ifanc 19 oed a fu'n derbyn gofal o'r blaen, y mae'r awdurdod yn parhau mewn cysylltiad â hwy | 93.3% | 81.8% | 96.3% | 85.2%<br>(93.1%)<br>**(IS)** | Perfformiad anghyson, ond canlyniad i10/11 yn cynrychioli dirywiad o'i gymharu â 07/8<br><br>Tuedd Wella (07-11)<br>↓ |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Perfformiad Blynyddol 2007/08 | Perfformiad Blynyddol 2008/09 | Perfformiad Blynyddol 2009/10 | Perfformiad Blynyddol 2010/11 (Cyfartaledd Cymru) | Sylwadau a Thuedd Wella |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | | | | | |
| **SCC/033b ↑ (DCS)** Canran y bobl ifanc 19 oed a fu'n derbyn gofal o'r blaen, y mae'r awdurdod yn parhau mewn cysylltiad â hwy, y gwyddys eu bod mewn llety addas nad yw'n llety mewn argyfwng. | 75% | 83.3% | 100% | 91.3% (90.8%) **(UWCH)** | Er gwaethaf dirywiad ym mherfformiad eleni, mae'r canlyniad cyfredol yn parhau'n llawer uwch na 07/08 a dyma'r unig flwyddyn lle mae perfformiad wedi dirywio. Tuedd Wella (07-11) ↑ |
| **SCC/033c ↑ (DCS)** Canran y bobl ifanc 19 oed a fu'n derbyn gofal o'r blaen, y mae'r awdurdod yn parhau mewn cysylltiad â hwy, y gwyddys eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. | 35.71% | 66.7% | 61.5% | 39.1% (52.2%) **(IS)** | Cafwyd gwelliant mewn perfformiad i gychwyn yn 08/08 ond mae wedi dirywio'n gyson ers hynny. Tuedd Wella (07-11) ↓ |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Perfformiad Blynyddol 2007/08 | Perfformiad Blynyddol 2008/09 | Perfformiad Blynyddol 2009/10 | Perfformiad Blynyddol 2010/11 (Cyfartaledd Cymru) | Sylwadau a Thuedd Wella |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | | | | | |
| **SCC/037 ↑ (DCS)**<br>Y sgôr pwyntiau cymwysterau allanol gyfartalog ar gyfer plant sy'n derbyn gofal 16 oed, mewn unrhyw leoliad dysgu a gynhelir gan yr awdurdod lleol | 177 | 164 | 127 | 156<br>(183)<br>**(IS)** | Perfformiad wedi dirywio'n gyson ers 2007 nes iddo wella yn 10/11. Fodd bynnag, mae ffigur 10/11 yn dal yn waeth na 07/08<br>Tuedd Wella (07-11)<br>↓ |
| **SCC/042a ↑**<br>Y ganran o asesiadau cychwynnol a gwblhawyd o fewn 7 niwrnod gwaith. | Dd/B | Dd/B | 72.3% | 78.7%<br>(66.6%)<br>**(UWCH)** | Cynnydd o fwy na 6% ar berfformiad y flwyddyn gyntaf.<br>Tuedd Wella (09-11)<br>↑ |
| **SCC/042b ↓**<br>Yr amser cyfartalog a gymerwyd i gwblhau asesiadau cychwynnol a gymerodd dros 7 niwrnod gwaith i'w cwblhau | Dd/b | Dd/b | 14 | 13<br>(23)<br>**(UWCH)** | Cynnydd o 1 diwrnod (7%) ar berfformiad y flwyddyn gyntaf.<br>Tuedd Wella (09-11)<br>↑ |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Perfformiad Blynyddol 2007/08 | Perfformiad Blynyddol 2008/09 | Perfformiad Blynyddol 2009/10 | Perfformiad Blynyddol 2010/11 (Cyfartaledd Cymru) | Sylwadau a Thuedd Wella |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | | | | | |
| **SCC/043a ↑**<br>Canran yr asesiadau craidd (AC) gofynnol a gwblhawyd o fewn 35 diwrnod gwaith | Dd/B | Dd/B | 56.8% | 57%<br>(65.2%)<br>**(IS)** | Rhywfaint o gynnydd ar berfformiad y flwyddyn gyntaf.<br>Tuedd Wella (09-11)<br>↑ |
| **SCC/043b ↓**<br>Yr amser cyfartalog a gymerwyd i gwblhau'r asesiadau craidd gofynnol hynny a gymerodd yn hwy na 35 niwrnod | Dd/B | Dd/B | 75 | 66<br>(77)<br>**(UWCH)** | Mae perfformiad wedi gwella 9 diwrnod (12%) ar berfformiad y flwyddyn gyntaf.<br>Tuedd Wella (09-11)<br>↑ |

*I gael cyfresi llawn o Ddangosyddion Perfformiad Cenedlaethol, defnyddiwch y ddolen isod:*

*http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=155*

## Atodiad C - Ble i ddod o hyd i wybodaeth ychwanegol

**Cynllun Gwella Corfforaethol Blynyddol 2010-11**
Mae’r Adran Perfformiad a Chynllunio Strategol wedi paratoi’r ddogfen hon ar ran y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar gynnwys y cynllun hwn, gallwch gysylltu â'r Tîm Perfformiad Busnes, Perfformiad a Phrosiectau Strategol, drwy: e-bostio: improvement@swansea.gov.uk Ffôn 01792 636852. Gellir gweld Cynllun Gwella Corfforaethol Blynyddol 2010-11 drwy ddilyn y weddolen ganlynol:

http:// www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=44140

**Strategaeth Gymunedol 2010-14**

Os hoffech wybod mwy am y Strategaeth Gymunedol, yna gallwch wneud hynny ar wefan y cyngor drwy glicio ar y ddolen ganlynol:

http:// www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=11050

Hefyd, os oes gennych unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â'r Cynllun Cymunedol, gallwch gysylltu â'r Tîm Strategaeth Gymunedol drwy:

E-bostio communitystrategies@swansea.gov.uk
Ffonio 01792 636292

**Bwrdd Gwasanaethau Lleol**

Gwefan: www.abertawe.gov.uk/LSB

**Cynllun Plant a Phobl Ifanc 2011-14**

http://www.cypswansea.co.uk/index.cfm?articleid=22133

**Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 2011-14**

http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=43778

**Abertawe – 2020 Strategaeth Adfywio Economaidd**

http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=6328

**Adfywio**

http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=5956

**Ailgylchu a Sbwriel**

http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=1011

**Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol**

http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=96

**Gwasanaethau Addysg**

http://www.abertawe.go.uk/index.cfm?articleid=1423

**Cynllun Datblygu Lleol**

http://www.abertaweindex.cfm?articleid=10213

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

http://www.abertawe.gov.uk/equalityscheme

**Cynllun Iaith Gymraeg**

http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=2059

**Datblygu Cynaliadwy**

http://www.abertaweindex.cfm?articleid=4275

**Adroddiad Gwella Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2011**

http://www.wao.gov.uk/reportsandpublications/localgovernment_687.asp

**Adroddiadau Arolygu Estyn**

http://www.estyn.gov.uk/english/inspection/inspection-reports/?searchTitle=&searchType=All&localAuthority=51&searchPostcode=&searchDistance=10&submitted=1

**Adroddiadau Arolygiadau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)**

http://www.csiw.wales.gov.uk/dataviewer/index.asp?searchtext=Enter+Name&postcode=Postcode&authority=SWA&region=&results=true&settings=

**Adroddiadau'r Bwrdd Craffu**

http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=38510